

Datganiad o'r Ymarfer a Argymhellir

Nodyn Ymarfer I0: Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig

(Diwygiwyd yn 2022)

This document is also available in English. | Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Rhagair.....	6
Cyflwyniad.....	8
Rhan I: Cymhwyso safonau archwilio, rheoli ansawdd a moeseg.....	9
Y Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd (y DU) I: Rheoli ansawdd ar gyfer cwmnïau sy'n cynnal archwiliadau neu adolygiadau o ddatganiadau ariannol, neu ymrwymadau eraill o ran sicrwydd neu wasanaethau cysylltiedig	14
Yr hyn sy'n cyfateb i bartner a chwmni yn y sector cyhoeddus.....	14
Y gofyniad i dynnu'n ôl o ymrwymiad lle bo'r penodiad wedi'i wneud mewn statud.....	14
Rheoli ansawdd ar gyfer ymrwymadau ar gontract allanol.....	14
Rheoli ansawdd ar gyfer ymrwymadau ar sail "penodi gan"	16
Moeseg.....	17
Annibyniaeth	17
Cyfrinachedd.....	18
Adolygiad ansawdd ymrwymadau	18
Unigolion â chyfrifoldeb ac atebolrwydd am y system rheoli ansawdd.....	19
ISA (y DU) 210: Cytuno ar delerau ymrwymadau archwilio	19
Cytuno ar delerau ymrwymadau archwilio'r sector cyhoeddus	19
Meysydd a allai fod wedi'u cynnwys mewn llythyr ymrwymo neu ddealltwriaeth.....	20

ISA (y DU) 240 (Diwygiwyd ym mis Mai 2021): Cyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â thwyll wrth archwilio datganiadau ariannol	21
Cyfrifoldebau archwilydd y sector cyhoeddus yn gysylltiedig â thwyll	21
Ystyriaeth yr archwilydd o'r risg o adroddiadau ariannol twyllodrus.....	23
Ystyriaeth yr archwilydd o'r risg o dwyll y tu allan i'r endid archwiliedig.....	23
Cyfrifoldeb yr archwilydd dros adrodd am dwyll gwirioneddol neu amheuan o dwyll.....	24
ISA (y DU) 250A – Ystyried cyfreithiau a rheoliadau wrth archwilio datganiadau ariannol	24
Ystyriaeth yr archwilydd o gyfreithiau a rheoliadau	24
Ystyriaeth archwilydd y sector cyhoeddus o ddeddfwriaeth llygredd.....	25
Rheoliadau gwyngalchu arian yn y sector cyhoeddus	25
Adrodd am ddiffyg cydymffurfio	26
ISA (y DU) 260: Cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu	26
Penderfynu pwy sy'n gyfrifol am lywodraethu yng nghyd-destun y sector cyhoeddus	26
I-64 Os nad yw'r cyfathrebu dwy ffordd rhwng yr archwilydd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn ddigonol, ac na ellir datrys y sefyllfa, gall archwilydd y sector cyhoeddus gyfleu'r mater wrth weinidog â chyfrifoldeb o'r llywodraeth neu'r Senedd (ISA (Y DU) 260, A53 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 260, 22).....	27
Cyfathrebu â chyrrff ariannu	27
Buddiant trydydd parti mewn adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu	27
Materion i'w cyfleu	28
ISA (y DU) 315 (Diwygiwyd ym mis Gorffennaf 2020): Nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol	28
Yr endid a'i amgylchedd	28
Risgiau o gamddatganiad perthnasol.....	29
ISA (y DU) 320 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016): Perthnasedd wrth gynllunio a chynnal archwiliad	32
Blwch I: Enghreifftiau dangosol lle cymhwyswyd gwahanol feincnodau er mwyn pennu perthnasedd	33
ISA (y DU) 402: Ystyriaethau archwilio sy'n ymwneud ag endid sy'n defnyddio sefydliad gwasanaeth. 34	
Defnyddio sefydliadau gwasanaeth yn y sector cyhoeddus	35
Hawliau mynediad i sefydliadau gwasanaeth	35
ISA (y DU) 510: Ymrwymadau archwilio cychwynnol - balansau agoriadol	35
Balansau agoriadol yng nghyd-destun newid peirianwaith llywodraethu.....	36
Archwiliad o falansau agoriadol gan yr archwilydd newydd.....	37

ISA (y DU) 540: Archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig	37
Risg o ogwydd gan reolwyr mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn y sector cyhoeddus	38
Ffactorau risg cynhenid sy'n berthnasol i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y sector cyhoeddus.....	38
Defnyddio amcangyfrifon trydydd parti yn y datganiadau ariannol.....	38
Defnyddio ffynonellau gwybodaeth allanol.....	39
Asedau anghyfredol yn y sector cyhoeddus	39
ISA (y DU) 550: Partïon cysylltiedig.....	39
Ystyriaethau penodol i'r sector cyhoeddus o ran trafodion partïon cysylltiedig	40
ISA (y DU) 560: Digwyddiadau dilynol.....	40
Ystyriaethau ychwanegol o ran digwyddiadau dilynol yn y sector cyhoeddus.....	41
Pennu'r dyddiadau perthnasol.....	41
Ffeithiau a ddaw'n hysbys i'r archwilydd ar ôl dyddiad adroddiad yr archwilydd ond cyn cyhoeddi'r datganiadau ariannol.....	43
Ffeithiau sy'n dod i'r amlwg ar ôl cyhoeddi'r datganiadau ariannol	44
ISA (y DU) 570: Busnes gweithredol	44
Egwyddorion allweddol	45
Busnes gweithredol yn y sector cyhoeddus.....	45
Canllawiau sector-benodol.....	46
Cynllunio'r ymagwedd at fusnes gweithredol.....	46
Ymagwedd darpariaeth gwasanaeth barhaus - gweithdrefnau asesu risg a gweithgareddau cysylltiedig	47
Ymagwedd darpariaeth gwasanaeth barhaus - gwerthuso asesiad y rheolwyr	48
Cyfrifoldeb yr archwilydd i ystyried priodoldeb y sail busnes gweithredol.....	51
Ystyriaeth o'r dyfodol rhagweladwy.....	52
Amgylchiadau lle ceir amheuaeth ynghylch y sail busnes gweithredol.....	52
Cyfrifoldebau archwilwyr y sector cyhoeddus ar gyfer adolygu ac adrodd ar drefniadau endid i sicrhau gwerth am arian.....	53
Cyfeiriadau yn adroddiad yr archwilydd at fusnes gweithredol	53
ISA (y DU) 580: Sylwadau ysgrifenedig	54
Nodi pwy sy'n gymwys i roi sylwadau ysgrifenedig yn y sector cyhoeddus	54
Cynnwys sylwadau ysgrifenedig yn y sector cyhoeddus	55
ISA (y DU) 600: Ystyriaethau arbennig - archwiliadau o ddatganiadau ariannol grwpiau (gan gynnwys gwaith archwilwyr cydrannol)	55

Datganiadau ariannol cyfun sy'n cynnwys cydrannau heb riant.....	56
ISA (y DU) 610: Defnyddio gwaith archwilwyr mewnol	57
Defnyddio gwaith archwilio mewnol mewn perthynas â chyfrifoldebau eraill yr archwilydd.	57
ISA (y DU) 620: Defnyddio gwaith arbenigwr archwilydd.....	57
ISA (y DU) 700: Ffurio barn ac adrodd ar ddatganiadau ariannol.....	58
Derbynydd adroddiad yr archwilydd yn y sector cyhoeddus.....	58
Adroddiadau gan archwilwyr ar gontract allanol i asiantaethau archwilio cenedlaethol	58
Y gofyniad i ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau yn y sector cyhoeddus.....	58
Cyfeiriad at sail yr archwiliad yn adroddiad archwilydd y sector cyhoeddus.....	58
Goblygiadau geiriad rhagnodedig y farn archwilio i gydymffurfiaeth â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU)	59
Adroddiadau estynedig gan archwilwyr	59
Materion y dylid adrodd arnynt ar sail eithriad yn y sector cyhoeddus.....	60
Egluro i ba raddau yr ystyrir bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll... 60	
ISA (Y DU) 701: Cyfleu materion archwilio allweddol yn adroddiad yr archwilydd annibynnol	60
ISA (y DU) 706: Paragraffau 'pwyslais ar fater' a pharagraffau mater eraill yn adroddiad yr archwilydd annibynnol.....	61
ISA (y DU) 720: Cyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â gwybodaeth arall	61
Cyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â'r adroddiad blynyddol	62
Adrodd i'r ddeddfwrfa.....	63
Gwybodaeth statudol arall	63
Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019	64
Egwyddorion trosfwaol	64
Aseiniadau staff ar fenthyg	64
Partneriaid ac aelodau o dîm yr ymrwymiad yn ymuno ag endid sy'n berthnasol i ymrwymiad	64
Cysylltiad hir ag ymrwymadau ac ag endidau sy'n berthnasol i ymrwymadau	65
Ffioedd.....	65
Rhan 2: Archwilio rheoleidd-dra.....	67
Cyflwyniad.....	67
Dealltwriaeth o'r cysyniad o reoleidd-dra.....	68
Sut mae rheoleidd-dra yn gysylltiedig â chysyniadau eraill, gan gynnwys priodoldeb a chydymffurfiaeth â'r gyfraith a rheoliadau.....	69
Archwilio rheoleidd-dra - trosolwg.....	70

Deall yr endid a'i amgylchedd.....	71
Y fframwaith o awdurdodau a gynhwysir yn adroddiad yr archwilydd.....	72
Deall rheolaethau mewnol yr endid.....	73
Perthnasedd ar gyfer archwilio rheoleidd-dra.....	74
Asesu'r risg o drafodion afreolaidd perthnasol.....	76
Cynllunio a chynnal gweithdrefnau archwilio.....	79
Meysydd sydd angen ystyriaeth arbennig.....	80
Sylwadau ysgrifenedig.....	81
Defnyddio gwaith eraill.....	81
Gwerthuso trafodion afreolaidd.....	83
Y risg o dwyll wrth archwilio rheoleidd-dra.....	84
Barn ar reoleidd-dra.....	85
Adroddiadau eraill ar reoleidd-dra.....	85
Atodiad Un - Rhestr Termau.....	86

Datganiad y Cyngor Adrodd Ariannol ar y Datganiad o'r Ymarfer a Argymhellir - Nodyn Ymarfer 10: Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig

Nod y Cyngor Adrodd Ariannol (CAA) yw hyrwyddo llywodraethu ac adroddiadau corfforaethol o ansawdd uchel er mwyn meithrin buddsoddiadau. Mewn perthynas â safonau archwilio sy'n berthnasol yn y DU, amcan pennaf y CAA yw galluogi defnyddwyr datganiadau ariannol i fod yn hyderus bod y datganiadau hynny wedi bod yn destun archwiliad cadarn ac annibynnol o ansawdd uchel, sy'n gymesur â maint a chymhlethdod yr endid a'r wybodaeth sydd ei hangen ar y defnyddwyr. Mewn diwydiannau neu sectorau neilltuol, gellid bod angen egluro sut y caiff y safonau hynny eu cymhwyso i endid mewn modd sy'n berthnasol, ac sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol i ddefnyddwyr datganiadau ariannol yn y diwydiant neu'r sector hwnnw.

Cyhoeddir eglurhad o'r fath ar ffurf canllawiau a ddatblygir ac a gyhoeddir yn unol â [Policy on Developing Statements of Recommended Practice](#) y CAA, gan gyrrff a gydnabyddir i'r diben hwnnw gan y CAA. Mae'r Fforwm Archwilio Cyhoeddus, sy'n cynnwys pedair asiantaeth archwilio genedlaethol y DU wedi cadarnhau ei fod yn rhannu nod y CAA o sicrhau archwiliadau o ansawdd uchel, a'i fod wedi'i gydnabod gan y CAA er mwyn cyhoeddi'r *Datganiad o'r Ymarfer a Argymhellir: Nodyn Ymarfer 10: Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig*.

Yn unol â [Policy on Developing Statements of Recommended Practice](#) y CAA, cynhaliodd y CAA adolygiad o'r Datganiad arfaethedig o'r Ymarfer a Argymhellir, gan ganolbwyntio ar yr agweddau hynny sy'n berthnasol i'r archwiliadau o ddatganiadau ariannol ond gan hefyd gynnwys agweddau sy'n berthnasol i gyfrifoldebau ehangach y CAA lle y bo'n briodol.

Ar sail ei adolygiad, mae'r CAA wedi casglu bod y Datganiad o'r Ymarfer a Argymhellir wedi cael ei ddatblygu'n unol â'r [Policy on Developing Statements of Recommended Practice](#) gan y CAA, ac nad yw'n ymddangos ei fod yn cynnwys unrhyw bwyntiau sylfaenol o egwyddor sydd yn annerbyniol yng nghydestun arferion archwilio presennol, nac yn gwrthdaro â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU).

[DYDDIAD]

Y Cyngor Adrodd Ariannol

Datganiad o'r Ymarfer a Argymhellir - Nodyn Ymarfer 10: Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (Diwygiwyd yn 2022)

Mae'r Datganiad hwn o Ymarfer a Argymhellir, a elwir o hyn allan yn Nodyn Ymarfer, yn disodli Nodyn Ymarfer 10: *Archwilio datganiadau ariannol cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (Diwygiedig 2020)*, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020.

Rhagair

Mae'r Nodyn Ymarfer hwn yn cynnwys canllawiau ar ddefnyddio safonau rheoli ansawdd, archwilio a moesegol a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol (CAA) i archwilio cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig, fel y'u pennir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.¹

Mae'r Nodyn Ymarfer hwn yn atodol i'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) (y DU) a Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd I (ISQC I) (y DU), sy'n berthnasol i bob archwiliad a gynhelir yn y Deyrnas Unedig. Bwriedir i'r Nodyn Ymarfer hwn gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r dogfennau hynny. Mae'r Nodyn Ymarfer yn egluro'r ystyriaethau arbennig sy'n gysylltiedig ag archwilio cyrff y sector cyhoeddus sy'n deillio o safonau archwilio ar rheoli ansawdd unigol. Ni fwriedir i'r Nodyn Ymarfer roi canllawiau fesul cam ar archwilio cyrff y sector cyhoeddus, felly nid ydym wedi cynnwys deunydd os nad

¹Atgoffir archwilwyr y bydd penderfyniadau'r ONS yn cael eu cyhoeddi ar ôl ystyried meini prawf perthnasol, a gallai fod yn briodol ystyried, fesul achos, tystiolaeth i ddosbarthu endid a allai fod yn destun ystyriaeth barhaus gan yr ONS. Cyhoeddir penderfyniadau ar wefan yr ONS:

www.ons.gov.uk/economy/nationalaccounts/uksectoraccounts/datasets/publicsectorclassificationguide

oes unrhyw ystyriaethau arbennig yn deillio o ISA neu ISQC 1 (y DU) neilltuol. Os nad yw'r ddogfen hon yn trafod rhai agweddau ar y gofynion archwilio, caiff defnyddwyr gyfeirio at safonau archwilio perthnasol.

Dylai endidau neu waith sy'n cydymffurfio â'r Datganiad hwn o'r Ymarfer a Argymhellir gymhwyso'r safonau archwilio sy'n berthnasol ar y dyddiad adrodd perthnasol (nad yw'n rhagwahardd cymhwyso cynnar pan ganiateir hynny). Pan fo rhifyn cyfredol y Datganiad hwn o'r Ymarfer a Argymhellir yn rhagddyddio newid mewn deddfwriaeth neu safonau archwilio a bod gwrthdaro'n cael ei greu drwy hynny, neu fod datblygiadau eraill yn arwain at wrthdaro, mae'r darpariaethau yr effeithir arnynt yn y Datganiad hwn o'r Ymarfer a Argymhellir yn peidio â bod mewn grym.

Paratowyd y Nodyn Ymarfer hwn gan y Fforwm Archwilio Cyhoeddus (FfAC) gyda chynghor a chymorth gan gynrychiolwyr o bob un o asiantaethau archwilio cenedlaethol y DU, a rhai cwmnïau o'r sector preifat sy'n cyflawni gwaith archwilio yn y sector cyhoeddus. Mae'n seiliedig ar safonau archwilio, deddfwriaeth a rheoliadau a oedd mewn grym ar **[DYDDIAD]**. Nid yw'r Nodyn Ymarfer hwn yn rhestru gynhwysfawr o'r holl rwymedigaethau y gallai fod angen i archwilwyr y sector cyhoeddus eu bodloni o dan deddfwriaeth.

Mae'r FfAC wedi'i ddynodi gan y Cyngor Adrodd Ariannol (CAA) yn "gorff gwneud Datganiadau o Ymarfer a Argymhellir (SORP)" i ddibenion cynnal a diweddarau **Nodyn Ymarfer 10: Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (NY 10)**. O dan drefniadau'r 'corff gwneud SORP' mae'r FfAC yn gyfrifol am baratoi ac ymgynghori ynghylch diwygiadau i **NY 10** cyn ceisio cymeradwyaeth y CAA nad oes unrhyw agwedd o fewn y Nodyn Ymarfer sy'n anghyson â safonau archwilio nac amcanion ehangach y CAA.

Mae'r fersiwn hon o Nodyn Ymarfer 10 wedi cael ei diweddarau i ystyried diwygiadau a gyflwynwyd i'r ISAs (y DU) ers y fersiwn flaenorol: fersiynau diwygiedig ISA (y DU) 240 ac ISA (y DU) 315 yn bennaf, a ddaeth i rym wrth archwilio datganiadau ariannol ar gyfer cyfnodau a ddechreuwyd ar 15 Rhagfyr 2021 neu ar ôl hynny, yn ogystal â'r Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd (ISQM) (Y DU) 1, y mae'n ofynnol dylunio systemau rheoli ansawdd sy'n cydymffurfio â hwy a'u rhoi ar waith erbyn 15 Rhagfyr 2022. Mae diweddariadau eraill wedi cael eu cyflwyno i adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf mewn ymarfer archwilio yn y sector cyhoeddus. Cafodd yr holl safonau archwilio a datganiadau eraill gan y CAA a gyhoeddwyd erbyn 31 Awst 2022 eu hystyried wrth ddatblygu'r Datganiad hwn o'r Ymarfer a Argymhellir.

Bydd ISQM (Y DU) 2: *Adolygiadau o ansawdd ymrwymadau* mewn grym ar gyfer archwiliadau ac adolygiadau o ddatganiadau ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2022 a gwasanaethau sicrwydd a chysylltiedig eraill sy'n dechrau ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2022, er y rhoddir anogaeth gref i'w mabwysiadu'n gynnar. Mae ISQM (Y DU) 2 yn cynnwys gofynion manylach mewn perthynas â phenodi a chymhwystra'r adolygwr ansawdd ymrwymiad a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chyflawni a dogfennu adolygiad o ansawdd ymrwymiad – roedd y materion hyn wedi'u cynnwys yn flaenorol yn ISQC (Y DU) 1 ac ISA (Y DU) 220 (Diwygiwyd ym mis Tachwedd 2019), ond mae ganddynt bellach eu safon eu hunain.

Mae ISA (Y DU) 220 (Diwygiwyd ym mis Gorffennaf 2021): *Rheoli ansawdd ar gyfer archwiliad o ddatganiadau ariannol* mewn grym ar gyfer archwiliadau o ddatganiadau ariannol ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2022.

Mae ISA (Y DU) 220 (Diwygiwyd ym mis Gorffennaf 2021) yn ymdrin â chyfrifoldebau penodol yr archwilydd o ran rheoli ansawdd ar lefel yr ymrwymiad ar gyfer archwiliad o ddatganiadau ariannol, a chyfrifoldebau cysylltiedig y partner ymrwymo.

Gan na fydd ISQM (Y DU) 2 ac ISA (Y DU) 220 (Diwygiwyd ym mis Gorffennaf 2021) mewn grym ar gyfer y rhan fwyaf o endidau'r sector cyhoeddus tan eu harchwiliadau yn 2023-24, bydd canllawiau mewn perthynas â'r safonau hyn yn cael eu cynnwys mewn diwygiad o Nodyn Ymarfer 10 a gyhoeddir yn y dyfodol.

Mae Codau Ymarfer Archwilio a gyhoeddir gan asiantaethau archwilio cenedlaethol² yn ei gwneud hi'n ofynnol i archwilwyr y sector cyhoeddus gydymffurfio â safonau archwilio yn eu gwaith ar ddatganiadau ariannol. Mae'r Nodyn Ymarfer yn berthnasol i holl archwilwyr y sector cyhoeddus, p'un a yw'r rheiny'n asiantaethau archwilio neu'n gwmnïau archwilio.

Mae Rhan 2 o'r Nodyn Ymarfer hwn yn trafod archwilio rheoleidd-dra. Mae'r canllawiau hyn yn adlewyrchu'r ymarfer cyfredol ar draws y Deyrnas Unedig yn gysylltiedig â gwaith archwilwyr ar reoleidd-dra a'r gofynion deddfwriaethol perthnasol a fframweithiau awdurdodau sy'n berthnasol i'r gwaith hwn. Yn benodol, mae **NY 10** yn darparu canllawiau ar y gwaith y mae angen ei gyflawni i gefnogi barn ar wahân ar reoleidd-dra os oes angen.

Cyflwyniad

1 Bydd archwilwyr allanol yn y sector cyhoeddus yn rhoi barn annibynnol ynghylch datganiadau ariannol. Gallant hefyd adolygu a, lle bo'n briodol, adrodd ar agweddau ar y trefniadau a wnaed gan y corff sy'n cael ei archwilio er mwyn sicrhau bod ei faterion ariannol yn cael eu gweinyddu'n briodol, a rheoli ei berfformiad a'i ddefnydd o adnoddau. Gan hynny, mae archwilio allanol yn rhan annatod o'r broses atebolrwydd ac yn gwneud cyfraniad pwysig at warchodaeth arian cyhoeddus, a threfniadau llywodraethu corfforaethol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

2 Bydd archwilwyr y sector cyhoeddus yn ymddwyn ac yn adrodd yn unol â'r mandadau sy'n llywodraethu eu gweithgareddau ac yn rhoi'r awdurdod i'r archwilydd gyflawni gwaith archwilio ac adrodd canlyniadau'r gwaith hwnnw. Mae'r mandadau hyn wedi'u hymgorffori mewn deddfwriaeth ac, mewn rhai amgylchiadau, wedi'u nodi mewn Codau Ymarfer Archwilio a allai fod wedi'u sefydlu'n unol â deddfwriaeth, a'u cyhoeddi gan yr asiantaethau archwilio cenedlaethol.

3 Bydd mandadau archwilwyr y sector cyhoeddus yn amrywio yn unol â'r gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i bob awdurdodaeth o fewn y sector cyhoeddus ac ym mhob ardal ddaearyddol. Mae'r fframwaith deddfwriaethol sy'n rheoli archwiliadau o gyrrff sector cyhoeddus y DU

²Ceir hyd i'r Codau ar wefannau perthynol yr asiantaethau archwilio cenedlaethol.

gyfan, ac yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi'i nodi ar wefannau asiantaethau archwilio cenedlaethol unigol.

4 Mae'r mandadau hyn yn sefydlu cyfrifoldebau lled debyg i'r holl awdurdodaethau yn gysylltiedig â'r canlynol:

- y datganiadau ariannol;
- cydymffurfio â deddfwriaeth ac awdurdodau eraill (a elwir weithiau'n "rheoleidd-dra"); a
- darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (a elwir weithiau'n "archwiliad perfformiad", "gwerth am arian" neu "ddefnydd o adnoddau").

5 Yn rhai rhannau o'r DU, nid Saesneg yw'r brif iaith a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus wrth weinyddu busnes, gan gynnwys paratoi cyfrifon, er enghraifft o ganlyniad i gymhwyso'r opsiynau sydd ar gael o dan *Ddeddf y Gymraeg 1993* a *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd yr archwilydd yn sicrhau bod modd cyflawni cyfrifoldebau'r archwilydd yn briodol o dan safonau archwilio, er enghraifft, drwy gynnwys staff â sgiliau iaith priodol yn nhîm yr ymrwymiad a defnyddio gwasanaethau cyfieithu.

6 Mae'r Nodyn Ymarfer hwn yn rhoi arweiniad pellach i archwilwyr ar gymhwyso ISAs (y DU) wrth archwilio datganiadau ariannol, gan gynnwys y farn ar reoleidd-dra lle bo hynny'n briodol, yn y sector cyhoeddus. Mae penaethiaid asiantaethau archwilio cenedlaethol yn y DU wedi dewis cymhwyso ISAs (y DU) a dilyn *Nodyn Ymarfer 10*. Maent yn ei gwneud hi'n ofynnol i archwilwyr sy'n cyflawni gwaith ar eu rhan roi sylw i *Nodyn Ymarfer 10* wrth gymhwyso ISAs (y DU) i'r gwaith hwnnw.

7 Gallai hefyd fod yn ofynnol i archwilwyr y sector cyhoeddus adolygu ac adrodd ar ddogfennau eraill a gaiff eu paratoi gan gyrff cyhoeddus. Gallai'r dogfennau eraill hynny ymwneud ag agweddau ar lywodraethu corfforaethol neu drefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Nid yw Nodyn Ymarfer 10 yn rhoi arweiniad pellach i'r archwilydd ar gynnal yr aseiniadau hyn, onid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng hynny ac adroddiadau archwilio datganiadau ariannol neu reoleidd-dra. Mater i'w benderfynu gan asiantaethau archwilio cenedlaethol a rhai rheoleiddwyr yw'r safonau sy'n llywodraethu aseiniadau adrodd eraill yn y sector cyhoeddus. Gellir cynnwys y rhain mewn Cod Ymarfer Archwilio ar wahân.

Rhan 1: Cymhwyso safonau archwilio, rheoli ansawdd a moesegol

I-I Dangosir rhestr o Safonau Rhyngwladol ar Reoli Ansawdd (ISQMs) (Y DU) a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) (y DU) yn y tabl isod. Yn y rhestr hon, nodir yr ISAs (Y DU) ac ISQM (Y DU) hynny y mae canllawiau cymhwyso wedi'u cynnwys yn y Nodyn Ymarfer hwn ar eu cyfer ac, er cyflawnder, dangosir hefyd yr ISAs hynny nad oes angen unrhyw ganllawiau pellach ar eu cyfer.

Safonau archwilio ac ansawdd presennol	Mae canllawiau pellach sy'n	Ni ddarperir unrhyw
---	------------------------------------	----------------------------

	berthnasol i gyd-destun y sector cyhoeddus wedi'u cynnwys yn y rhan hon o NY 10	ganllawiau pellach sy'n berthnasol i gyd-destun y sector cyhoeddus
ISQM (Y DU) 1: Rheoli ansawdd ar gyfer cwmnïau sy'n cynnal archwiliadau neu adolygiadau o ddatganiadau ariannol, neu ymrwymïadau eraill o ran sicrwydd neu wasanaethau cysylltiedig ³	✓	
ISA (Y DU) 200 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016) (Diweddarwyd ym mis Ionawr 2020): Amcanion cyffredinol yr archwilydd annibynnol a chynnal archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU)		✓
ISA (Y DU) 210 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016) (Diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2017): Cytuno ar delerau ymrwymïadau archwilio	✓	
ISA (Y DU) 220 (Diwygiwyd ym mis Tachwedd 2019): Rheoli ansawdd ar gyfer archwiliad o ddatganiadau ariannol		✓
ISA (Y DU) 230 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016) (Diweddarwyd ym mis Ionawr 2020): Dogfennau archwilio		✓
ISA (Y DU) 240 (Diwygiwyd ym mis Mai 2021): Cyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â thwyll wrth archwilio datganiadau ariannol ⁴	✓	

³ Mae'n ofynnol i systemau rheoli ansawdd sy'n cydymffurfio ag ISQM (Y DU) 1 gael eu dylunio a'u rhoi ar waith erbyn 15 Rhagfyr 2022 ac mae'n ofynnol bod y gwerthusiad o'r system rheoli ansawdd sy'n ofynnol gan baragraffau 53-54 o ISQM (Y DU) 1 yn cael ei gyflawni o fewn un flwyddyn ar ôl 15 Rhagfyr 2022.

⁴ Mae ISA (Y DU) 240 (Diwygiwyd ym mis Mai 2021) mewn grym ar gyfer archwiliadau o ddatganiadau ariannol ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2021. Mae'n disodli ISA (Y DU) 240 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016) (Diweddarwyd ym mis Ionawr 2020).

ISA (Y DU) 250A (Diwygiwyd ym mis Tachwedd 2019): Ystyried cyfreithiau a rheoliadau wrth archwilio datganiadau ariannol	✓	
ISA (Y DU) 250B (Diwygiwyd ym mis Tachwedd 2019): Hawl a dyletswydd statudol yr archwilydd i adrodd wrth reoleiddwyr endidau budd cyhoeddus a rheoleiddwyr endidau eraill yn y sector ariannol		✓
ISA (Y DU) 260 (Diwygiwyd ym mis Tachwedd 2019) (Diweddarwyd ym mis Ionawr 2020): Cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu	✓	
ISA (Y DU) 265: Cyfleu diffygion mewn rheolaeth fewnol wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli		✓
ISA (Y DU) 300 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016): Cynllunio archwiliad o ddatganiadau ariannol		✓
ISA (Y DU) 315 (Diwygiwyd ym mis Gorffennaf 2020): Nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol ⁵	✓	
ISA (Y DU) 320 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016): Perthnasedd wrth gynllunio a chynnal archwiliad	✓	
ISA 330 (Diwygiwyd ym mis Gorffennaf 2017): Ymatebion yr archwilydd i risgiau a aseswyd		✓
ISA (Y DU) 402: Ystyriaethau archwilio sy'n ymwneud ag endid sy'n defnyddio sefydliad gwasanaeth	✓	
ISA (Y DU) 450 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016) (Diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2017): Gwerthuso camddatganiadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad		✓

⁵ Mae ISA (Y DU) 315 (Diwygiwyd ym mis Gorffennaf 2020) mewn grym ar gyfer archwiliadau o ddatganiadau ariannol ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2021. Mae'n disodli ISA (Y DU) 315 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016).

ISA (Y DU) 500 (Diweddarwyd ym mis Ionawr 2020): Tystiolaeth archwilio		✓
ISA (Y DU) 501: Tystiolaeth archwilio: Ystyriaethau penodol ar gyfer eitemau dethol		✓
ISA (Y DU) 505 (Diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2017): Cadarnhad allanol		✓
ISA (Y DU) 510 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016): Ymrwymadau archwilio cychwynnol: Balansau agoriadol	✓	
ISA (Y DU) 520: Gweithdrefnau dadansoddol		✓
ISA (Y DU) 530: Samplu ar gyfer archwilio		✓
ISA (Y DU) 540 (Diwygiwyd ym mis Rhagfyr 2018): Archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig	✓	
ISA (Y DU) 550: Partïon cysylltiedig	✓	
ISA (Y DU) 560: Digwyddiadau dilynol	✓	
ISA (Y DU) 570 (Diwygiwyd ym mis Medi 2019): Busnes gweithredol	✓	
ISA (Y DU) 580 (Diweddarwyd ym mis Ionawr 2020): Sylwadau ysgrifenedig	✓	
ISA (Y DU) 600 (Diwygiwyd ym mis Tachwedd 2019): Ystyriaethau arbennig: Archwiliadau o ddatganiadau ariannol grwpiau gan gynnwys gwaith archwilwyr cydrannol	✓	
ISA (Y DU) 610 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2013): Defnyddio gwaith archwilwyr mewnol	✓	
ISA (Y DU) 620 (Diwygiwyd ym mis Tachwedd 2019): Defnyddio gwaith arbenigwr archwilydd	✓	

ISA (Y DU) 700 (Diwygiwyd ym mis Tachwedd 2019): Ffurio barn ac adrodd ar ddatganiadau ariannol	✓	
ISA (Y DU) 701 (Diwygiwyd ym mis Tachwedd 2019) (Diweddarwyd ym mis Ionawr 2020): Cyfleu materion archwilio allweddol yn adroddiad yr archwilydd annibynnol	✓	
ISA (Y DU) 705 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016): Addasu'r farn yn adroddiad yr archwilydd annibynnol		✓
ISA (Y DU) 706 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016): Paragraffau 'pwyslais ar fater' a pharagraffau mater eraill yn adroddiad yr archwilydd annibynnol	✓	
ISA (Y DU) 710: Gwybodaeth gymharol: ffigurau cyfatebol a datganiadau ariannol cymharol		✓
ISA (Y DU) 720 (Diwygiwyd ym mis Tachwedd 2019): Cyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â gwybodaeth arall	✓	
ISA (Y DU) 800 (Diwygiwyd): Ystyriaethau arbennig – Archwiliadau o ddatganiadau ariannol a baratowyd yn unol â fframweithiau diben arbennig		✓
ISA (Y DU) 805 (Diwygiwyd): Ystyriaethau arbennig – Archwiliadau o ddatganiadau ariannol unigol ac elfennau, cyfrifon neu eitemau penodol mewn datganiad ariannol		✓

I-2 Yn adrannau canlynol y rhan hon, nodir canllawiau pellach ar gymhwyso ISQC (y DU) I ac ISAs (y DU) ar gyfer archwilio'r sector cyhoeddus. Lle ceir ystyriaethau'r sector cyhoeddus yn y safonau rheoli ansawdd ac archwilio, cyfeirir at y rhain drwy'r holl ddogfen hon. Wrth gyfeirio at ISQC ac ISAs yn y Nodyn Ymarfer hwn, cyfeirir at y safonau sy'n berthnasol yn y DU. Yn Rhan 2 o'r Nodyn Ymarfer hwn nodir canllawiau ar archwilio rheoleidd-dra.

Y Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd (y DU) I: Rheoli ansawdd ar gyfer cwmnïau sy'n cynnal archwiliadau neu adolygiadau o ddatganiadau ariannol, neu ymrwymïadau eraill o ran sicrwydd neu wasanaethau cysylltiedig

I-3 Amcan y [sefydliad archwilio neu] gwmni yw dylunio system rheoli ansawdd, ei rhoi ar waith a'i gweithredu ar gyfer archwiliadau neu adolygiadau o ddatganiadau ariannol, neu ymrwymïadau eraill o ran sicrwydd neu wasanaethau cysylltiedig a gyflawnir gan y cwmni, sy'n darparu sicrwydd rhesymol ar gyfer y cwmni ynghylch y canlynol:

- (a) **Bod y cwmni a'i bersonél yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â safonau proffesiynol a gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol, ac yn cynnal ymrwymïadau yn unol â safonau a gofynion o'r fath; a**
- (b) **Bod adroddiadau ymrwymïadau gan y cwmni neu bartneriaid ymrwymo'n briodol yn yr amgylchiadau (ISQM I, 4).**

Yr hyn sy'n cyfateb i bartner a chwmni yn y sector cyhoeddus

I-4 [Wrth gymhwyso ISQM (Y DU) I,] dylid cymryd bod “Partner ymrwymo” a “partner” yn cyfeirio at yr hyn sy'n cyfateb iddynt yn y sector cyhoeddus lle y bo'n berthnasol (ISQM (Y DU) I, troednodyn 3 i baragraff 16(c)).

Y gofyniad i dynnu'n ôl o ymrwymiad lle bo'r penodiad wedi'i wneud mewn statud.

I-5 O dan rai amgylchiadau, gall cyfraith neu reoleiddiad awdurdodaethol osod rhwymedigaeth ar y cwmni i dderbyn neu barhau ag ymrwymiad gyda chleient, neu yn achos y sector cyhoeddus, gall y cwmni gael ei benodi trwy darpariaethau statudol (ISQM (Y DU) I, A123).

I-6 Gall gofynion cyfraith, rheoliad neu statud i dderbyn neu barhau ag ymrwymiad, fel a ddisgrifir uchod, atal un o archwilwyr y sector cyhoeddus rhag tynnu'n ôl neu ymddiswyddo o'r ymrwymiad lle byddai safonau archwilio neu foesegol fel arall wedi peri iddynt wneud hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan archwilwyr a benodir yn statudol yr awdurdod i adrodd yn gyhoeddus ar faterion o'r fath a allai fel arall fod wedi achosi iddynt dynnu'n ôl neu ymddiswyddo o ymrwymiad statudol. Gall hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, i bennaeth un o'r asiantaethau archwilio cyhoeddus a benodir drwy'r ddeddfwriaeth fel archwilydd cyrff penodol yn y sector cyhoeddus.

Rheoli ansawdd ar gyfer ymrwymïadau ar gontract allanol

I-7 Ymrwymiad ar gontract allanol yw ymrwymiad lle bydd yr holl aseiniad archwilio, neu gyfran ohono, yn cael ei gyflawni gan gwmni neu archwilydd arall, o dan gontract neu gytundeb, ond lle bydd yr archwilydd statudol yn parhau i fod yn gyfrifol am gyhoeddi'r adroddiad archwilio. Mewn rhai achosion bydd y cwmni contractio neu'r archwilydd yn rhoi adroddiad i'r archwilydd statudol sydd yn

cydymffurfio'n llwyr ag ISA (Y DU). Er enghraifft, bydd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn rhoi gwaith archwilio allan ar gontract ar rai o'r penodiadau statudol, ond mae'n dal i fod yn gyfrifol am lofnodi'r dystysgrif a'r adroddiad archwilio.

I-8 Bydd yr archwilydd statudol yn parhau i fod yn gyfrifol am ansawdd ymrwymadau ar gontract allanol. Bydd hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod gan y contractwr archwilio ddigon o bersonél a chanddynt y cymhwysedd, y gallu a'r ymrwymiad tuag at egwyddorion moesegol sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â safonau perthnasol;
- cadarnhau bod y contractwr archwilio yn bodloni'r safonau moesegol perthnasol, gan gynnwys annibyniaeth, wrth benodi ac fesul cyfnod wedi hynny;
- sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau ar waith i nodi a datrys achosion posibl o wrthdaro;
- ystyried a oes angen ymgynghoriad mewnol a phenodi adolygwr rheoli ansawdd ymrwymadau ar gyfer ymrwymadau dan gontract;
- cymhwyso'r trefniadau rheoli ansawdd sydd ar waith drwy'r sefydliad (gan gynnwys, er enghraifft, proses asesu risg, cyfrifoldebau llywodraethu ac arwain, gofynion moesegol perthnasol a threfniadau darparu adnoddau'r sefydliad) i ymrwymadau ar gontract allanol;
- cynnwys ymrwymadau ar gontract allanol o fewn cwmmpas trefniadau rheoli ansawdd cyffredinol yr archwilydd statudol (er enghraifft, gan y sawl a gyflogir gan yr archwilydd statudol sy'n gweithredu yn rôl partner ymrwymo sy'n cyflawni cyfarwyddyd, goruchwyliaeth ac adolygiad priodol ac yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am reoli a chyflawni ansawdd; atgyfeirio ymholiadau technegol a barnau trwy broses ymgynghori ffurfiol yr archwilydd statudol lle y bo'n briodol; a chynnwys archwiliadau ar gontract allanol yng nghwmpas archwiliadau a ystyrir i benderfynu a yw'n ofynnol eu rhoi drwy adolygiad o ansawdd ymrwymiad);
- adrodd am unrhyw ddiffygion a ganfyddir yn sgil monitro ymrwymiad dan gontract i'r contractwr archwilio sy'n cyflawni'r aseiniad; a
- sefydlu polisiau a gweithdrefnau wedi'u cynllunio i roi sicrwydd rhesymol yr ymdrinnir yn briodol â chwynion a honiadau sy'n ymwneud ag ansawdd.

I-9 Nid yw hyn yn rhyddhau contractwyr archwilio rhag eu cyfrifoldeb dros systemau rheoli ansawdd o fewn eu sefydliadau eu hunain, yn unol ag ISQM (y DU) I. Ystyrir bod y contractwr archwilio'n ddarparwr gwasanaeth⁶ at ddiben ISQM (Y DU) I. Yn y cyd-destun hwn, gall y contractwr archwilio

⁶ Mae paragraff 16(v) o ISQM (Y DU) I yn diffinio darparwr gwasanaeth fel unigolyn neu sefydliad sy'n allanol i'r cwmni sy'n darparu adnodd a ddefnyddir yn y system rheoli ansawdd neu i gyflawni ymrwymadau. Nid yw darparwyr gwasanaeth yn cynnwys rhwydwaith y cwmni, cwmnïau mewn rhwydweithiau eraill na strwythurau neu sefydliadau eraill yn y rhwydwaith.

gytuno i ddarparu adroddiad ar gyfer yr archwilydd statudol ar y system rheoli ansawdd o fewn eu cwmni ('adroddiad darparwr gwasanaeth') i oleuo dealltwriaeth yr archwilydd statudol am effaith defnyddio'r darparwr gwasanaeth ar gyflawni ei amcanion ansawdd. Yn ymarferol, mae'r archwilydd statudol naill ai'n cael sicrwydd ynghylch ansawdd gan ei gontractwyr neu'n cynnal gweithdrefnau i gadarnhau bod systemau rheoli ansawdd ei gontractwyr yn gweithio'n effeithiol.

I-10 Os yw'r contractwr archwilio yn canfod diffygion yn unrhyw un o'i aseiniadau sector cyhoeddus sydd oddi mewn i gylch gwaith yr archwilydd statudol, caiff y rhain eu cyfleu, ynghyd â'r camau gweithredu a gymerwyd, wrth yr archwilydd statudol perthnasol. Os yw'r archwilydd statudol yn canfod diffygion yn y modd y mae'r contractwr archwilio wedi cyflawni unrhyw aseiniadau a roddwyd ar gontract allanol, mae'r archwilydd statudol yn cyfleu'r rhain i'r contractwr archwilio ac yn penderfynu pa gamau gweithredu sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r rhain, a all gynnwys cyflawni gwaith ychwanegol gan y contractwr archwilio.

I-11 Mae'r contractwr archwilio yn sefydlu polisiâu a gweithdrefnau sydd wedi'u dylunio i roi sicrwydd rhesymol ei fod yn ymdrin yn briodol â chwynion a honiadau ynghylch ansawdd. Mae'r polisiâu a'r gweithdrefnau hyn yn ei gwneud hi'n bosibl uwchgyfeirio materion o'r fath i sylw'r archwilydd statudol, lle bônt yn berthnasol.

Rheoli ansawdd ar gyfer ymrwymadau ar sail "penodi gan"

I-12 Aseiniad a gyflawnir ar sail "penodi gan" yw ymrwymiad lle bydd cwmni neu unigolyn arall yn gyfrifol am yr aseiniad, am gynnal yr aseiniad ac am gyhoeddi'r adroddiad archwilio. Enghraifft o'r trefniant hwn yw'r berthynas rhwng y Comisiwn Cyfrifon yn yr Alban a'i archwilwyr penodedig.

I-13 Pan fydd archwilydd yn cynnal yr ymrwymiad ar sail "penodi gan" ac yn cyhoeddi'r adroddiad archwilio yn ei enw ei hun, y mae'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros ansawdd. Nid yw hyn yn effeithio ar unrhyw gyfrifoldeb statudol sydd gan yr asiantaeth archwilio cenedlaethol dros oruchwylio, neu sicrhau ansawdd, yr aseiniadau hynny a gynhaliwyd ar sail "penodi gan". Mae cyfrifoldebau'r archwilydd yn cynnwys:

- sicrhau bod gan yr ymrwymiad ddigon o bersonél a chanddynt y cymhwysedd, y gallu a'r ymrwymiad tuag at egwyddorion moesegol sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â safonau perthnasol;
- sicrhau bod yr ymrwymiad yn bodloni'r safonau moesegol perthnasol, gan gynnwys annibyniaeth, wrth benodi ac fesul cyfnod wedi hynny;
- sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau ar waith i nodi a datrys achosion posibl o wrthdaro;
- ystyried a oes angen ymgynghoriad mewnol ar gyfer ymrwymadau "penodi gan";
- cymhwyso trefniadau rheoli ansawdd y cwmni i ymrwymadau "penodi gan";
- adrodd wrth yr asiantaeth archwilio cenedlaethol, lle bo'n briodol, am unrhyw ddiffygion a ganfyddir yn sgil monitro ymrwymadau "penodi gan"; a

- sefydlu polisiâu a gweithdrefnau wedi'u dylunio i roi sicrwydd rhesymol yr ymdrinnir yn briodol â chwynion a honiadau sy'n gysylltiedig ag ansawdd.

I-14 Pan fydd ymrwymiad yn cael ei gyflawni ar sail "penodi gan", bydd yr asiantaeth archwilio cenedlaethol hefyd:

- ei bodloni ei hun fod gan yr archwilydd a benodir ddigon o bersonél a chanddynt y cymhwysedd, y gallu a'r ymrwymiad tuag at egwyddorion moesegol sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â safonau perthnasol;
- ystyried a ddylid cymhwyso trefniadau rheoli ansawdd i aseiniadau o'r fath;
- cadarnhau a yw'r archwilydd a benodir yn bodloni'r safonau moesegol perthnasol, gan gynnwys annibyniaeth, wrth ei benodi ac fesul cyfnod wedi hynny; a
- sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau ar waith i ganfod a datrys achosion posibl o wrthdaro;

Moeseg

I-15 Efallai y bydd angen i archwilwyr yn y sector cyhoeddus fodloni gofynion perthnasol o ran moeseg a phriodoldeb yn ogystal â Safon Foesegol y CAA, fel cyfyngiadau ar weithgareddau gwleidyddol neu ofynion a sefydlir gan reoleiddwyr. Mae'r Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol hefyd yn ymdrin â rhai o weithgareddau'r sector cyhoeddus. Ni ddisgwylir i unrhyw ofyniad arall amharu ar allu'r cwmni neu'r archwilwyr unigol i gydymffurfio â gofynion moesegol perthnasol sy'n ofynnol yn ôl ISQM (y DU) I a Safon Foesegol y CAA.

Annibyniaeth

I-16 Gall mesurau statudol gynnig mesurau i ddiogelu annibyniaeth archwilwyr y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, gall bygythiadau i annibyniaeth fodoli er gwaethaf unrhyw fesurau statudol sydd wedi'u dylunio i'w diogelu. **Wrth gyflawni'r amcanion ansawdd yn [ISQM (Y DU) I] sy'n ymwneud ag annibyniaeth, gall archwilwyr y sector cyhoeddus ymdrin ag annibyniaeth yng nghydestun mandad y sector cyhoeddus a mesurau statudol (ISQM (Y DU) I, A66).**

I-17 Nid yw endidau rhestredig a ddiffinnir ym mharagraff 16(j) o ISQM (Y DU) I ac y cyfeirir atynt ym mharagraff 34 ac mewn manau eraill yn gyffredin yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n bosibl y ceir endidau eraill o natur sylweddol yn y sector cyhoeddus oherwydd eu maint, eu cymhlethdod neu agweddau ar eu budd i'r cyhoedd, ac y bydd ganddynt felly ystod eang o randdeiliaid. Gan hynny, gallai achosion godi lle bydd cwmni yr archwilydd yn penderfynu, ar sail eu polisiâu a gweithdrefnau rheoli ansawdd, fod endid yn y sector cyhoeddus yn sylweddol i ddibenion gweithdrefnau rheoli ansawdd estynedig.

I-18 Trafodir materion eraill sy'n ymwneud ag annibyniaeth yn yr adran o Nodyn Ymarfer 10 ar Safon Foesegol Ddiwygiedig y CAA 2019, sy'n cynnwys ystyriaethau sy'n benodol i'r sector cyhoeddus yr

ymdriniwyd â hwy'n flaenorol yn y Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd (Y DU) I, ond nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn ISQM (Y DU) I.

Cyfrinachedd

I-19 Yn ogystal â darpariaethau ISQM (y DU) I, mae'n bosibl y bydd gan archwilwyr y sector cyhoeddus rwymedigaethau statudol ychwanegol yn gysylltiedig â chyfrinachedd, er enghraifft o dan Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

I-20 Yn ogystal â chydymffurfio â rhwymedigaethau statudol cymwys sy'n ymwneud â chyfrinachedd, bydd yn archwilwyr hefyd yn ystyried a allai gwaith archwilio gael ei ddatgelu o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth gymwys. Er enghraifft, lle bo'r archwilydd wedi'i bennu'n awdurdod cyhoeddus o dan Atodlen I o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Yr Alban) 2002, mae deddfwriaeth yn rhoi hawl mynediad i wybodaeth gofnodedig a ddelir gan yr archwilydd hwnnw.

I-21 Ar gyfer archwilwyr nad ydynt wedi'u pennu'n awdurdodau cyhoeddus, gall deddfwriaeth archwilio berthnasol ganiatáu i archwilydd ddatgelu gwybodaeth a gaffaelir wrth gynnal archwiliad, oni fydd yn amharu ar allu'r archwilydd i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

I-22 Er mwyn derbyn rhai penodiadau yn y sector cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r archwilydd gydnabod y gallai ei bapurau gwaith fod yn destun arolygiad gan yr asiantaeth archwilio genedlaethol a benododd yr archwilydd, neu sy'n gyfrifol am archwilio endid ar haen uwch, neu gan asiantaethau adolygu a chanddynt hawliau statudol o ran mynediad at wybodaeth sy'n berthnasol i ddyletswyddau'r archwilydd. Os nad ydynt yn rhwym i ofyniad statudol penodol (er enghraifft, deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth), bydd ystyriaethau moesegol fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth archwilio genedlaethol ysgwyddo'r ddyletswydd cyfrinachedd a ddelir gan yr archwilydd.

Adolygiad ansawdd ymrwymïadau

I-23 Er nad ydynt (yn y rhan fwyaf o achosion) yn cyfateb â'r diffiniad o endidau rhestredig nac Endidau Budd Cyhoeddus, gall endidau mawr yn y sector cyhoeddus fod â phroffil cyhoeddus uchel, sy'n enghraifft a roddir ym mharagraff A134 o ISQM (Y DU) I o amod sy'n achosi un neu fwy nag un risg ansawdd y gall adolygiad ansawdd ymrwymïad fod yn ymateb priodol iddi/iddynt. Felly gall archwilwyr y sector cyhoeddus benderfynu bod adolygiad ansawdd ymrwymïadau'n ymateb priodol ar gyfer ymrwymïadau o'r fath dan baragraff 34(f)(iii) ISQM (Y DU) I.

I-24 Yn y sector cyhoeddus, gall archwilydd a benodir yn statudol (er enghraifft, Archwilydd Cyffredinol, neu unigolyn cymwys arall a benodir ar ran yr Archwilydd Cyffredinol) weithredu mewn rôl sy'n cyfateb i rôl partner ymrwymo a chanddo gyfrifoldeb cyffredinol dros archwiliadau'r sector cyhoeddus. Mewn amgylchiadau o'r fath, lle bo hynny'n berthnasol, wrth ddewis yr adolygwr rheoli ansawdd ymrwymïad bydd hynny'n cynnwys ystyried yr angen am annibyniaeth ar yr endid archwiliedig a gallu'r adolygwr ansawdd ymrwymïad i gynnal gwerthusiad gwrthrychol.

I-25 Gall archwilwyr hefyd benodi adolygwyr ansawdd ymrwymïad yn ôl eu doethineb, lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.

Unigolion â chyfrifoldeb ac atebolrwydd am y system rheoli ansawdd

I-26 Yn achos y sector cyhoeddus, efallai na fydd yn ymarferol cynnal gwerthusiad o berfformiad yr unigolyn/unigolion y neilltuwyd y cyfrifoldeb ac atebolrwydd terfynol iddynt am y system rheoli ansawdd, na chymryd camau i fynd i'r afael â chanlyniadau'r gwerthusiad o berfformiad, o ystyried natur penodiad yr unigolyn. Serch hynny, gall gwerthusiadau o berfformiad ddal i gael eu cynnal ar gyfer unigolion eraill yn y cwmni y neilltuir cyfrifoldeb gweithredol iddynt am agweddau ar y system rheoli ansawdd (ISQM (Y DU) I, A201).

I-27 Yn yr asiantaethau archwilio cenedlaethol, efallai na fydd yr unigolyn neu unigolion y neilltuwyd cyfrifoldeb gweithredol iddynt am y system rheoli ansawdd dan baragraffau 20 a 21-1 o ISQM (Y DU) I yn gymwys i gael eu penodi'n archwilydd statudol dan *Ddeddf Cwmnïau 2006*, gan bod penodiadau archwilio'r asiantaethau archwilio cenedlaethol wedi'u hymddiried yn bersonol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon, Archwilydd Cyffredinol yr Alban ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn yr achos hwn, mae'r asiantaethau archwilio cenedlaethol yn cydymffurfio â pharagraff 21-1 ISQM (Y DU) I trwy sicrhau bod yr unigolyn neu unigolion y neilltuwyd cyfrifoldeb gweithredol iddynt am y system rheoli ansawdd yn meddu ar lefelau o brofiad, gwybodaeth, dylanwad ac awdurdod o fewn yr asiantaeth archwilio genedlaethol fel eu bod yn gallu cyflawni rôl partner ymrwymo ar gyfer ymrwymiad archwilio fel a ddiffinnir yn ISAs (Y DU), yr ystyrir eu bod yn gyfwerth â'r lefelau sy'n ofynnol i gyflawni cymhwystra ar gyfer penodiad fel archwilydd statudol.

ISA (y DU) 210: Cytuno ar delerau ymrwymadau archwilio

I-28 Amcan yr archwilydd yw peidio derbyn neu barhau ag ymrwymiad archwilio ond pan fydd y sail ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad hwnnw wedi'i gytuno, drwy:

(a) sefydlu a yw'r rhagamodau ar gyfer archwiliad yn bresennol; a

(b) cadarnhau bod cyd-ddealltwriaeth rhwng yr archwilydd a'r rheolwyr a, lle bo'n briodol, y rhai hynny sy'n gyfrifol am reoli telerau'r ymrwymiad archwilio (ISA (Y DU) 210, 3).

Cytuno ar delerau ymrwymadau archwilio'r sector cyhoeddus

I-29 Yn y sector cyhoeddus, gall y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r mandad archwilio gynnwys gofynion penodol; er enghraifft, efallai y bydd yn ofynnol i'r archwilydd adrodd yn uniongyrchol wrth weinidog, y ddeddfwrfa neu'r cyhoedd os yw'r endid yn ceisio cyfyngu ar gwmpas yr archwiliad (ISA (Y DU) 210, A39 sy'n ymwneud â gofynion ISA (Y DU) 210, 21).

I-30 Mae'r gyfraith neu'r rheoliadau sy'n llywodraethu gweithrediadau archwilio'r sector cyhoeddus yn ei gwneud hi'n orfodol penodi archwilydd y sector cyhoeddus, ac yn aml yn disgrifio cyfrifoldebau a phwerau archwilydd y sector cyhoeddus, gan gynnwys y pŵer i gyrchu cofnodion yr endid a gwybodaeth arall amdano. Pan fydd cyfraith neu reoliad yn rhagnodi telerau'r ymrwymiad archwilio yn ddigon manwl, gall archwilydd y sector cyhoeddus, serch hynny, ystyried ei bod hi'n fanteisiol cyhoeddi llythyr ymrwymiad

archwilio llawnach na'r hyn a ganiateir yn ôl paragraff 11 [o ISA (Y DU) 210] (ISA (Y DU) 210, A29 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 210, 10-11).

I-31 Gyda rhai eithriadau, mae'r fframwaith statudol yn caniatáu i asiantaethau archwilio cenedlaethol orfodi rhan sylweddol o gwmpas ac amcanion yr archwiliad. Mewn achosion eraill, gall llythyr penodi neu God Ymarfer Archwilio a gyhoeddir gan asiantaeth archwilio cenedlaethol bennu natur a chwmpas yr ymrwymiad archwilio. Gan hyn, mae'n bosibl na fydd angen llythyrau ymrwymo ffurfiol bob tro ar gyfer ymrwymadau statudol. Fodd bynnag, wrth archwilio cyrff lleol yn Lloegr, er enghraifft lle gwnaed penodiadau'n uniongyrchol gan y cyrff archwiliedig o dan Ddeddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014 neu ar gyfer archwilio Ymddiriedolaethau Sefydledig, mae angen llythyr ymrwymo.

I-32 Serch hynny, mae'n bwysig o hyd i reolwyr a'r archwilwyr gydnabod cyfrifoldebau'r naill a'r llall yn ffurfiol. Lle nad yw deddfwriaeth yn rhoi digon o fanylion am gwmpas yr archwiliad, efallai y bydd angen sicrhau bod gan y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu'r archwiliad ddealltwriaeth briodol ohono. Gan hynny, gellid bod angen llunio llythyr cyd-ddealltwriaeth.

I-33 Efallai y bydd yr archwilydd yn ystyried ei bod yn briodol cwblhau llythyrau cyd-ddealltwriaeth â'r endid archwiliedig er mwyn cadarnhau dealltwriaeth yr archwilydd o rolau'r partion â buddiant yn yr ymrwymiad, gofynion yr archwiliad, cyfrifoldebau pob parti, sut y cyflawnir y cyfrifoldebau, a'r hyn y gall bob parti ei ddisgwyl oddi wrth y llall. Ni fwriedir i'r ddogfen honno gymryd lle eglurhad am unrhyw ansicrwydd yn y fframwaith archwilio y bydd angen ei ddatrys gyda'r asiantaeth archwilio genedlaethol berthnasol.

I-34 Mewn amgylchiadau lle nad yw rolau, gofynion a chyfrifoldebau a orfodir gan yr asiantaeth archwilio genedlaethol yn glir, neu os ydynt yn ddadleuol, bydd yr archwilydd yn gofyn i'r asiantaeth archwilio genedlaethol roi eglurhad manylach o delerau ei benodiad; ni fydd yr archwilydd na'r endidau archwiliedig yn ceisio dehongli'r hyn a fwriedir y tu ôl i'r ansicrwydd, heb gael cyngor yr asiantaeth archwilio genedlaethol.

I-35 Os nad yw'r archwilydd wedi'i benodi o dan statud, mae'n ofynnol cael llythyr ymrwymo i nodi cyfrifoldebau'r archwilydd a'r corff archwiliedig. Bydd yr archwilydd yn cytuno ar delerau'r ymrwymiad â derbynnydd adroddiad yr archwilydd.

I-36 Pan fydd datganiadau ariannol yn cael eu cyflwyno gerbron y Senedd, naill ai drwy statud neu orchymyn, bydd yr archwilydd hefyd yn ystyried a oes angen cytundeb Trysorlys EM ar gyfer y telerau hyn.

Meysydd a allai fod wedi'u cynnwys mewn llythyr ymrwymo neu ddealltwriaeth

I-37 Yr archwilydd sy'n pennu'r meysydd a allai gael eu cynnwys yn y llythyr ymrwymo neu ddealltwriaeth Gall y meysydd hyn newid dros amser, a bydd yr archwilydd yn ystyried datblygiadau a allai fod yn berthnasol i'r corff archwiliedig. Wrth baratoi'r llythyr ymrwymiad eu ddealltwriaeth, mae'n bosibl y bydd yr archwilydd yn ystyried y canlynol:

- cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu neu'r Swyddog Atebol a, lle bo'n berthnasol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;

- cyfrifoldebau'r archwilydd, gan gyfeirio at y fframwaith deddfwriaethol perthnasol;
- y fframwaith archwilio, gan wahaniaethu rhwng gofynion statudol ac anstatudol. Gallai ystyriaethau statudol gynnwys archwiliad yn gysylltiedig â rheoleidd-dra a Chyfrifon Llywodraeth Gyfan. Gallai elfennau anstatudol gynnwys, os ydynt yn berthnasol, ymgysylltiad archwilwyr eraill a'r berthynas rhwng yr asiantaeth archwilio genedlaethol ac archwilwyr eraill;
- cyfrifoldebau adrodd, cydnabod ei bod hi'n bosibl y ceir cyfrifoldebau eraill i adrodd wrth endidau eraill, fel y Senedd, neu rai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- cyfrifoldebau archwilio ehangach, fel rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Ddeddf Enillion Troseddau;
- ystyried y Datganiad Llywodraethu;
- cyhoeddi datganiadau ariannol yn electronig;
- archwiliadau gwerth am arian;
- gwasanaethau archwilio eraill cysylltiedig, er enghraifft adroddiadau sicrwydd cyfyngedig a chynhyrchion sicrwydd eraill a chanddynt gysylltiadau agos â'r gwaith a gyflawnir wrth archwilio; a
- ffioedd archwilio.

ISA (y DU) 240 (Diwygiwyd ym mis Mai 2021): Cyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â thwyll wrth archwilio datganiadau ariannol

I-38 Dyma amcanion yr archwilydd:

(a) cael sicrwydd rhesymol pa un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad ariannol oherwydd twyll, gan gynnwys:

(i) canfod ac asesu'r risgiau bod y datganiadau ariannol wedi'u camddatgan yn berthnasol oherwydd twyll;

(ii) cael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch y risgiau asesedig o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll, trwy ddylunio ymatebion priodol a'u rhoi ar waith; a

(b) ymateb yn briodol i dwyll neu amheuaeth o dwyll a nodwyd yn ystod yr archwiliad (ISA (Y DU) 240, 10).

Cyfrifoldebau archwilydd y sector cyhoeddus yn gysylltiedig â thwyll

I-39 Gall cyfrifoldebau archwilydd y sector cyhoeddus yn gysylltiedig â thwyll ddeillio o gyfraith, rheoliad neu awdurdod arall sy'n berthnasol i endidau'r sector cyhoeddus, neu

gallant fod wedi'u trafod ar wahân ym mandad yr archwilydd. O ganlyniad i hynny, efallai na fydd cyfrifoldebau archwilydd y sector cyhoeddus wedi'u cyfyngu i ystyried risgiau o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, ond y gallai hefyd gynnwys cyfrifoldeb ehangach i ystyried risgiau o dwyll (ISA (Y DU) 240, A6 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 240, 3).

I-40 Mae cyfrifoldebau archwilydd y sector cyhoeddus sy'n gysylltiedig â thwyll dan ISA (Y DU) 240 yn gydgysylltiedig â'r gwaith sy'n tanategu'r farn ynglŷn â rheoleidd-dra, lle rhoddir un (gweler Rhan 2). Fodd bynnag, nid yw cydymffurfio â gofynion Rhan 2 ar yr archwiliad o reoleidd-dra ynddo'i hun yn ddigon i ddarparu sicrwydd rhesymol pa un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll, fel sy'n ofynnol yn ôl ISA (Y DU) 240.

I-41 Wrth roi barn ynglŷn â rheoleidd-dra ar endid yn y sector cyhoeddus, mae amcanion yr archwilydd yn cynnwys cael sicrwydd rhesymol pa un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw drafodion afreolaidd perthnasol (hynny yw, trafodion nad ydynt yn unol â'r fframwaith awdurdodau – gweler paragraff I-43) oherwydd twyll, gan gynnwys canfod ac asesu risgiau o drafodion afreolaidd perthnasol oherwydd twyll a chael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch y risgiau asesedig o drafodion afreolaidd perthnasol oherwydd twyll, trwy ddylunio ymatebion priodol a'u rhoi ar waith. Mae'r amcanion hyn yn ychwanegol at y rhai yn ISA (Y DU) 240 ac yn eu hategu.

I-42 Gall twyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig a ganfyddir yn ystod yr archwiliad o endid yn y sector cyhoeddus gynnwys twyll nad yw'n arwain at gamddatgan y datganiadau ariannol ond sy'n arwain at drafodion nad ydynt yn unol â'r fframwaith awdurdodau, a all ddwyn goblygiadau ar gyfer y farn ynglŷn â rheoleidd-dra. Mae cyfrifoldebau archwilydd y sector cyhoeddus dan ISA (Y DU) 240 i:

- benderfynu pa un a yw cyfraith, rheoliad neu ofynion moesegol perthnasol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt hysbysu awdurdod priodol y tu allan i'r endid ynghylch twyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig a ganfyddir yn ystod yr archwiliad; a
- cyfleu i'r rheolwyr a/neu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, fel y bo'n briodol, fod twyll wedi'i ganfod neu fod gwybodaeth sy'n dynodi y gall twyll fodoli,

yn ymestyn i dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig sy'n cael effaith ar reoleidd-dra yn hytrach nag ar y datganiadau ariannol.

I-43 Defnyddir y term 'afreoleidd-dra' yn ISAs (Y DU) i gyfeirio at achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.⁷ Os canfyddir neu os tybir bod afreoleidd-dra o'r fath yn bodoli, mae ISA (Y DU) 250A yn ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd ddilyn gweithdrefnau penodedig a chyfleu a rhoi gwybod am y rhain i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu neu eraill fel y bo'n briodol. Yng nghyd-destun y farn ynglŷn â rheoleidd-dra, mae 'trafodion afreolaidd' yn cyfeirio at drafodion nad ydynt

⁷ Er enghraifft, mae ISA (Y DU) 700, 29-1 yn ei gwneud yn ofynnol bod adroddiad yr archwilydd yn egluro i ba raddau yr ystyriwyd fod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

yn unol â'r fframwaith awdurdodau, a ddisgrifir yn Rhan 2. Mae'r farn ynglŷn â rheoleidd-dra, os rhoddir un, yn nodi pa un a oes trafodion afreolaidd perthnasol wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol.

I-44 Efallai na fydd trafodiad afreolaidd yn afreoleidd-dra dan ISAs (Y DU) (er enghraifft, efallai na fydd achos o dorri rheolaethau anstatudol ar wariant sy'n rhan o'r fframwaith awdurdodau'n anghyfreithlon). Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai trafodion sy'n ymwneud ag afreoleidd-dra dan ISAs (Y DU) hefyd yn drafodion afreolaidd at ddiben y farn ynglŷn â rheoleidd-dra, gan bod y fframwaith awdurdodau'n cynnwys cydymffurfio â'r gyfraith (er enghraifft, byddai taliad twyllodrus yn torri deddfwriaeth sylfaenol, sydd hefyd yn rhan o'r fframwaith awdurdodau).

Ystyriaeth yr archwilydd o'r risg o adroddiadau ariannol twyllodrus

I-45 Bydd archwilydd y sector cyhoeddus yn ystyried camddatganiadau a allai ddeillio o adroddiadau ariannol twyllodrus lle gall y corff archwiliedig drin ei ganlyniadau er mwyn cyrraedd targedau a osodir yn allanol: er enghraifft, corff iechyd yn cyflawni dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb neu lle bo canlyniadau ariannol yn effeithio ar gyflawniad amcanion ac/neu adroddiadau ehangach ar berfformiad.

I-46 Mae ISA (Y DU) 240 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr archwilydd yn gwerthuso, yn seiliedig ar ragdybiaeth bod risgiau o dwyll wrth gydnabod refeniw, pa fathau o refeniw, trafodion refeniw neu haeriadau sy'n achosi risgiau o'r fath, gan fod camddatganiadau perthnasol oherwydd adroddiadau ariannol twyllodrus yn aml o ganlyniad i gamddatgan refeniw. Gall yr archwilydd wrthbrofi'r rhagdybiaeth hon: er enghraifft, os ystyrir nad yw'r refeniw ynn berthnasol, neu os oes un math syml o drafodiad refeniw. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i'r archwilydd ystyried a oes risg o gamddatgan perthnasol oherwydd twyll yn gysylltiedig â chydabod refeniw, os yw'n ofynnol i'r corff archwiliedig gyrraedd targedau a osodir yn allanol. Er enghraifft, o fewn adrannau'r llywodraeth ganolog, gall incwm fod yn ffrwd trafodion amherthnasol, ond gellid ei drin er mwyn sicrhau bod gwariant net oddi mewn i'r terfynau adnoddau.

I-47 Wrth ystyried risg o dwyll a gwallau yn y sector cyhoeddus, bydd archwilydd yn canolbwyntio ar wariant. Gan mai cyrff gwariant net yw'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus, gallai'r risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll sy'n gysylltiedig â gwariant fod yn uwch na'r risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll sy'n gysylltiedig â chydabod refeniw.

Ystyriaeth yr archwilydd o'r risg o dwyll y tu allan i'r endid archwiliedig

I-48 Yn ogystal â chamddatganiadau sy'n deillio o gambriodoli asedau a chamddatganiadau sy'n deillio o adroddiadau ariannol twyllodrus, bydd archwilydd yn y sector cyhoeddus hefyd yn ystyried y risg o dwyll allanol. Gall y risg o dwyll allanol fod yn arbennig o uchel os oes risg uwch o weithgarwch twyllodrus gan unigolion neu grwpiau sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr endid, er enghraifft ceisiadau budd-dal neu bresgripsiwn twyllodrus.

Cyfrifoldeb yr archwilydd dros adrodd am dwyll gwirioneddol neu amheumon o dwyll

I-49 Wrth ystyried a ddylid adrodd am achos o dwyll gwirioneddol neu amheumon o dwyll wrth awdurdod priodol, yn ogystal â pharagraff 43 o ISA (Y DU) 240, mae archwilydd y sector cyhoeddus yn rhoi sylw i'r canlynol:

- y darpariaethau sy'n berthnasol i'r endid sy'n pennu cyfrifoldebau'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yng nghyswllt adrodd am gamymddygiad, twyll neu afreoleidd-dra arall; a'r
- dyletswyddau a allai fod gan yr archwilydd o dan delerau'r ymrwymiad ac adrodd wrth drydydd parti.

I-50 Yn y sector cyhoeddus, gall gofynion ar gyfer riportio twyll, p'un a ddarganfyddir y twyll drwy'r broses archwilio ai peidio, fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau penodol yn y mandad archwilio neu gyfraith, rheoliad neu awdurdod arall cysylltiedig (ISA (Y DU) 240, A67 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 240, 43).

I-51 Pan fo archwilydd y sector cyhoeddus o'r farn fod dyletswydd i adrodd am achosion o dwyll gwirioneddol, neu amheumon o dwyll wrth drydydd parti, bydd yn penderfynu pa awdurdod priodol y dylid adrodd wrtho am hynny yn y lle cyntaf. Mae'r awdurdod perthnasol yn amrywio rhwng gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus, yn dibynnu ar delerau'r ymrwymiad a gofynion statudol. Mae hyn yn ychwanegol at gyfrifoldebau o dan *Reoliadau Gwyngalchu Arian, Ariannu Terfysgaeth a Throsglwyddo Arian (Gwybodaeth am y Talwr) 2017*.

ISA (y DU) 250A – Ystyried cyfreithiau a rheoliadau wrth archwilio datganiadau ariannol

I-52 Dyma amcanion yr archwilydd:

(a) caffael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch cydymffurfio â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau hynny y cydnabyddir yn gyffredinol eu bod yn cael effaith uniongyrchol wrth bennu symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;

(b) cyflawni gweithdrefnau archwilio penodedig er mwyn cynorthwyo i nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith o bwys ar y datganiadau ariannol; ac

(c) ymateb yn briodol i achosion o ddiffyg cydymffurfio, neu amheumon o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodir yn ystod yr archwiliad (ISA (Y DU) 250A, I I).

Ystyriaeth yr archwilydd o gyfreithiau a rheoliadau

I-53 Yn y sector cyhoeddus, gall cyfrifoldebau archwilio ychwanegol godi mewn perthynas ag ystyried cyfreithiau a rheoliadau a allai fod yn berthnasol i'r archwiliad o ddatganiadau

ariannol, neu gallent ymestyn i gynnwys agweddau eraill ar weithrediadau'r endid (ISA (Y DU) 250A, A7 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 250A, 3-9).

I-54 Mae archwilwyr llywodraeth ganolog a rhai cyrff iechyd yn rhoi sylw ehangach i gyfreithiau a rheoliadau yn rhan o'u cyfrifoldebau yn gysylltiedig ag archwilio rheoleidd-dra. Mae ISA (Y DU) 250A yn ymwneud â sicrhau bod yr archwilydd yn ystyried risgiau o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol oherwydd diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, ac yn cynnal gweithdrefnau archwilio pellach y mae eu natur, eu hamseriad a'u helaethrwydd yn ymateb i'r risgiau asesedig.

I-55 Efallai y bydd yn ofynnol i archwilwyr endidau sector cyhoeddus eraill (er enghraifft y rhai y mae'n ofynnol iddynt ddilyn Cod Ymarfer Archwilio) roi sylw ehangach i gyfreithiau a rheoliadau na'r rhai y mae ISA (Y DU) 250A yn uniongyrchol berthnasol iddynt. Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn y Cod Ymarfer Archwilio perthnasol. Maent yn dyrannu dyletswyddau neilltuol i'r archwilydd mewn perthynas â threfniadau'r endid i atal diffyg cydymffurfio, ac i faterion sy'n dod i sylw'r archwilydd y gallai fod angen eu hystyried o dan ISA (Y DU) 250A. Er enghraifft, gallai rhai archwilwyr lleol y mae'n ofynnol iddynt adrodd ar drefniadau i sicrhau gwerth am arian ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, wrth gyflawni'r gwaith hwnnw.

Ystyriaeth archwilydd y sector cyhoeddus o ddeddfwriaeth llygredd

I-56 Bydd archwilydd y sector cyhoeddus yn ystyried i bwy y gall yr archwilydd adrodd am achosion gwirioneddol o lygredd, neu amheuan o hynny, waeth a allai canlyniadau'r llygredd gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol ai peidio. Yn y lle cyntaf, bydd yr archwilydd fel arfer yn cyfeirio'r mater i sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Bryd hynny, cyfrifoldeb y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu fydd adrodd y mater wrth yr awdurdodau priodol. Os bydd archwilydd endid yn nodi achos gwirioneddol o lygredd, neu amheuan o hynny ac, os, ar ôl adrodd ar y mater wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, nad yw'r archwilydd yn gallu sefydlu a yw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu wedi adrodd y mater wrth y trydydd parti perthnasol, bydd yr archwilydd yn cymryd y camau a nodwyd ym mharagraff 43 o ISA (Y DU) 240.

Rheoliadau gwyngalchu arian yn y sector cyhoeddus

I-57 Rhoddir arweiniad yn Atodiad ISA (Y DU) 250A ar gyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â deddfwriaeth atal gwyngalchu arian y DU wrth archwilio ac adrodd ar ddatganiadau ariannol. Mae'r deddfwriaeth hon yn cynnwys *Rheoliadau Gwyngalchu Arian, Ariannu Terfysgaeth a Throsglwyddo Arian (Gwybodaeth am y Talwr) 2017* a *Deddf Enillion Troseddau 2002*.

I-58 O dan reoliad 103 o *Reoliadau Gwyngalchu Arian, Ariannu Terfysgaeth a Throsglwyddo Arian (Gwybodaeth am y Talwr) 2017*, mae'n rhaid i awdurdodau rhestredig amrywiol (gan gynnwys y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Archwilwyr Cyffredinol Cymru a'r Alban a Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon) hysbysu'r Asiantaeth Troseddu Genedlaethol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, os ydynt yn gwybod neu'n amau, neu fod ganddynt sail resymol dros wybod neu amau bod rhywun yn cymryd rhan mewn gweithgarwch gwyngalchu arian neu ariannu terfysgaeth, neu wedi gwneud hynny. Swyddog Adrodd am Wyingalchu Arian enwebedig y sefydliad fydd fel arfer yn gwneud yr adroddiad hwn. Ni ddylid ystyried bod datgeliad o'r fath yn torri unrhyw gyfyngiad, sut bynnag y'i gosodir, ar ddatgelu gwybodaeth.

I-59 Mae'r archwilydd yn ystyried y drosedd o roi rhybudd o dan adran 333 o Ddeddf 2002. Ceir hefyd drosedd o dan adran 342 o Ddeddf 2002 sy'n berthnasol i bob unigolyn. Bydd y drosedd hon yn digwydd pan fydd unigolyn yn gwybod neu'n amau bod swyddog priodol (fel swyddog o'r Asiantaeth Troseddau Genedlaethol) yn gweithredu (neu'n cynnig gweithredu) mewn cysylltiad ag ymchwiliad gwyngalchu arian sydd yn cael ei gynnal, neu sydd ar fin cael ei gynnal, ac yn gwneud datgeliad sy'n debygol o niweidio'r ymchwiliad neu'n anwirio, cuddio, difrodi neu waredu dogfennau sy'n berthnasol i'r ymchwiliad mewn rhyw ffordd arall, neu'n achosi neu'n caniatáu i hynny ddigwydd.

Adrodd am ddiffyg cydymffurfio

I-60 Gallai fod yn ofynnol i archwilydd y sector cyhoeddus adrodd am achosion o ddiffyg cydymffurfio wrth y ddeddfwrfa neu gorff llywodraethu arall, neu adrodd amdanynt yn adroddiad yr archwilydd (ISA (Y DU) 250A, A34 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 250A, 29).

ISA (y DU) 260: Cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

I-61 Dyma amcanion yr archwilydd:

(a) cyfleu cyfrifoldebau'r archwilydd yng nghyswllt archwilio datganiadau ariannol yn glir wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, a rhoi trosolwg iddynt o gwmpas ac amseriad cynlluniedig yr archwiliad;

(b) caffael gwybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;

(c) rhoi arsylwadau manwl yn deillio o'r archwiliad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Dylai'r arsylwadau hyn fod yn arsylwadau o bwys sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau dros oruchwylio'r broses adrodd ariannol; ac

(ch) hyrwyddo cyfathrebu dwy ffordd effeithiol rhwng yr archwilydd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (ISA (Y DU) 260, 9).

Penderfynu pwy sy'n gyfrifol am lywodraethu yng nghyd-destun y sector cyhoeddus

I-62 Ar ddechrau'r archwiliad, yr archwilydd sy'n penderfynu pwy sy'n gyfrifol am lywodraethu. Gallai hyn gynnwys y Swyddog Cyfrifyddu/Atebol (neu swyddog cyfatebol) ac unigolion eraill sy'n gyfrifol am benderfynu, er enghraifft, bwrdd, pwyllgor craffu, Cyngor, corff llywodraethu neu grwp arall.

I-63 Gall cyfrifoldebau'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu gynnwys, er enghraifft:

- sicrhau bod systemau rheoli effeithiol sy'n briodol er mwyn cyflawni amcanion y sefydliad, gan gynnwys systemau monitro a rheoli ariannol wedi cael eu rhoi ar waith;

- cadw cyfrifon cywir;
- sicrhau bod y swyddogaeth archwilio fewnol wedi'i sefydlu a'i threfnu'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus; a
- sicrhau rheoleidd-dra a phriodoldeb cyllid cyhoeddus.

I-64 Os nad yw'r cyfathrebu dwy ffordd rhwng yr archwilydd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn ddigonol, ac na ellir datrys y sefyllfa, gall archwilydd y sector cyhoeddus gyfleu'r mater wrth weinidog â chyfrifoldeb o'r llywodraeth neu'r Senedd (ISA (Y DU) 260, A53 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 260, 22).

Cyfathrebu â chyrrff ariannu

I-65 Gallai trefniadau arbennig fod wedi'u datblygu er mwyn i archwilwyr rhai endidau a ariennir gan adrannau llywodraeth adrodd wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Mewn achosion o'r fath, bydd Swyddog Cyfrifyddu/Atebol yr adran ariannu yn cael sicrwydd bod y rheolaethau ariannol a'r rheolaethau rheoli eraill a gymhwysir gan yr endid a ariennir yn ddigonol er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a phriodoldeb. Gall adroddiadau gan archwilydd yr endid haen is gynorthwyo'r Swyddog Cyfrifyddu/Atebol i gael y sicrwydd hwnnw. Gall adrannau ariannu felly ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr eu cyrrff hyd braich:

- ddarparu copiâu i'r adran ariannu o lythyrau rheoli a gohebiaeth arall berthnasol; ac
- adrodd am faterion perthnasol sy'n deillio o'r gwaith archwilio wrth yr adran ariannu, gan gynnwys:
- methiannau o ran rheolaeth fewnol, camymddygiad, twyll neu ryw afreoleidd-dra arall,
- achlysuron pan fo'r bwrdd, y Prif Weithredwr neu ryw swyddog arall heb gyrraedd y safonau uchel o ran uniondeb ariannol a ddisgwyllir gan rai sy'n gyfrifol am reoli asedau cyhoeddus, neu
- achlysuron pan fo'r endid wedi gwario'n ormodol neu'n wastraffus.

I-66 Mae gan archwilwyr cyrrff iechyd lleol yn Lloegr gyfrifoldebau penodol i gyfeirio rhai materion i sylw'r Ysgrifennydd Gwladol neu gorff cenedlaethol perthnasol arall.

I-67 Bydd y materion hyn ac unrhyw faterion eraill y gall fod yn ofynnol i'r archwilydd eu hadrodd wrth reolwyr fel arfer wedi'u nodi ar ffurf llythyr penodiad neu ymrwymiad neu Godau Ymarfer Archwilio.

Buddiant trydydd parti mewn adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

I-68 Yn y sector cyhoeddus efallai y bydd yn ofynnol rhannu gohebiaeth rhwng yr archwilydd a'r corff archwiliedig â'r cyhoedd. Hyd yn oed lle nad yw hynny'n wir, efallai y bydd trydydd partion yn ceisio dibynnu ar adroddiad gan archwilydd y sector cyhoeddus a gyflwynwyd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. O'r herwydd, efallai y bydd angen i archwilwyr nodi na fwriedir i'r adroddiad ond cael ei

ddefnyddio gan yr endid archwiliedig, er mwyn sicrhau bod trydydd partion sy'n gweld yr ohebiaeth yn deall na fwriadwyd yr adroddiad ar eu cyfer hwy.

I-69 Mae Codau Ymarfer Archwilio sy'n berthnasol i archwiliadau cyhoeddus lleol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn nodi gofynion sy'n gysylltiedig ag adrodd wrth rai sy'n gyfrifol am lywodraethu, ac ystyriaethau'n gysylltiedig â diffinio pwy yw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, derbynwyr ac unrhyw ystyriaethau perthnasol yn gysylltiedig â'u diben. Mae cyfeiriad effeithiol at Godau Ymarfer Archwilio perthnasol, fel bo'n briodol, mewn unrhyw adroddiad wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn cyflawni'r diben a fwriedir yn yr ISAs (y DU).

Materion i'w cyfleu

I-70 Gallai cyfraith neu reoliad, neu gytundeb â'r endid neu ofynion ychwanegol sy'n berthnasol i'r ymrwymiad ddarparu ar gyfer cyfathrebu ehangach â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Yn y sector cyhoeddus, gallai mandad yr archwilydd ddarparu ar gyfer materion sydd i'w cyfleu, ac sy'n dod i sylw'r archwilydd o ganlyniad i waith arall, fel archwiliadau perfformiad (ISA (Y DU) 260, A10 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 260, 14).

I-71 Gall y gofynion cyfathrebu sy'n gysylltiedig ag annibyniaeth yr archwilydd sy'n berthnasol yn achos endidau a restrir hefyd fod yn berthnasol i rai endidau yn y sector cyhoeddus (ar wahân i'r rhai a restrir, yn yr achos hwnnw bydd y gofynion yn orfodol). Efallai y bydd archwilydd cyrff o'r fath yn ystyried a fyddai'r wybodaeth ychwanegol hon yn fuddiol lle bo gan yr endid a archwilir ystod eang o randdeiliaid o ganlyniad i'r fusnes, ei faint neu ei statws corfforaethol.

ISA (y DU) 315 (Diwygiwyd ym mis Gorffennaf 2020): Nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol

I-72 Amcan yr archwilydd yw nodi ac asesu risgiau o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ar lefel y datganiad ariannol ac ar lefel haerid, gan greu sail drwy hynny ar gyfer dylunio a gweithredu ymatebion i'r risgiau asesedig o gamddatganiadau perthnasol (ISA (Y DU) 315, 11).

Yr endid a'i amgylchedd

I-73 Efallai na fydd gan berchnogaeth ar endid yn y sector cyhoeddus yr un perthnasedd ag yn y sector preifat oherwydd ei bod yn bosibl bod penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r endid yn cael eu gwneud y tu allan i'r endid o ganlyniad i brosesau gwleidyddol. Felly, efallai na fydd gan reolwyr reolaeth dros rai penderfyniadau a wneir. Mae materion a allai fod yn berthnasol yn cynnwys deall gallu'r endid i wneud penderfyniadau unochrog, a gallu endidau eraill yn y sector cyhoeddus i reoli neu ddylanwadu ar fandad a chyfeiriad strategol yr endid. Er enghraifft, gall endid yn y sector cyhoeddus fod yn ddarostyngedig i gyfreithiau

neu gyfarwyddbau eraill gan awdurdodau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gael cymeradwyaeth gan bartïon y tu allan i'r endid i'w strategaeth ac amcanion cyn eu cyflawni. Felly, gallai materion sy'n gysylltiedig â deall strwythur cyfreithiol yr endid gynnwys cyfreithiau a rheoliadau perthnasol, a dosbarthiad yr endid (h.y. pa un ai gweinyddiaeth, adran, asiantaeth ynteu math arall o endid yw'r endid) (ISA (Y DU) 315, A58, sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 315, 19(a)9i)).

I-74 Gall endidau sy'n gweithredu yn y sector cyhoeddus greu a chyflawni gwerth mewn gwahanol ffyrdd i'r rhai sy'n creu cyfoeth i berchnogion ond byddant yn dal i fod â 'model busnes' ag amcan penodol. Mae materion y gall archwilwyr y sector cyhoeddus gael dealltwriaeth amdanynt sy'n berthnasol i fodel busnes yr endid yn cynnwys:

- gwybodaeth am weithgareddau perthnasol y llywodraeth, gan gynnwys rhaglenni cysylltiedig; ac
- strategaethau ac amcanion rhaglenni, gan gynnwys elfennau o bolisi cyhoeddus (ISA (Y DU) 315, A66, sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 315, 19(a)(i)).

I-75 Wrth archwilio endidau'r sector cyhoeddus, gall fod cyfreithiau, neu reoliadau penodol sy'n effeithio ar weithrediadau'r endid. Gall elfennau o'r fath fod yn ystyriaeth hanfodol wrth gael dealltwriaeth am yr endid a'i amgylchedd (ISA (Y DU) 315, A72 sydd yn berthnasol i ofynion ISA (Y DU) 315, 19(a)(ii)).

I-76 Ar gyfer archwiliadau o endidau'r sector cyhoeddus, gall gofynion i ddangos atebolrwydd cyhoeddus ddylanwadu ar "amcanion rheoli", a gallant gynnwys amcanion sy'n tarddu o gyfraith, rheoliad neu awdurdod arall (ISA (Y DU) 315, A67 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 315, 19(a)(i)).

I-77 Yn ogystal ag ystyried mesurau perthnasol a ddefnyddir gan endid yn y sector cyhoeddus i asesu perfformiad ariannol yr endid, gall archwilwyr endidau yn y sector cyhoeddus hefyd ystyried gwybodaeth anariannol megis cyflawni deilliannau budd y cyhoedd (er enghraifft, nifer y bobl a gynorthwywyd gan raglen benodol) (ISA (Y DU) 315, A81, sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 315, 19(a)(iii)).

Risgiau o gamddatganiad perthnasol

I-78 Ar gyfer endidau'r sector cyhoeddus, gall canfod risgiau ar lefel y datganiadau ariannol gynnwys ystyried materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wleidyddol, budd y cyhoedd a sensitifrwydd rhaglenni (ISA (Y DU) 315, A200 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 315, 28(a) ac ISA (Y DU) 315, 30).

I-79 Ffactorau risg cynhenid yw nodweddion digwyddiadau neu amodau sy'n effeithio ar ragdueddiad i gamddatganiad, boed o ganlyniad i dwyll neu wallt, sydd gan haerriad am ddsbarth o drafodion, balans cyfrif neu ddatgeliad, cyn ystyried rheolaethau. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ffactorau risg cynhenid a allai fod yn arbennig o berthnasol i endidau'r sector cyhoeddus dan bum categori o ffactorau risg

cynhenid a ddisgrifir yn ISA (Y DU) 315 (ni ddisgwylir i archwilwyr ddogfennu eu barnau yn erbyn pob un o'r ffactorau risg cynhenid enghreifftiol a nodir isod; maent wedi'u bwriadu i fod o gymorth i awgrymu'r mathau o faterion a allai effeithio'n arbennig ar ragduddiad i gamddatganiad yng nghydestun y sector cyhoeddus):

- *Cymhlethdod*

- Gall maint a chwmpas gweithgareddau endid yn y sector cyhoeddus greu cymhlethdod. Er enghraifft, mae rhai adrannau llywodraeth yn debyg i'r cwmnïau neu grwpiau mwyaf yn y sector preifat o ran gwariant, staffio ac ystod o leoliadau a gweithgareddau busnes.
- Gall endidau penodol yn y sector cyhoeddus ymdrin â senarios hynod anarferol neu arbenigol lle mae'r cyfleoedd ar gyfer cymharu neu feincnodi'n gyfyngedig. Os oes angen sgiliau neu wybodaeth hynod arbenigol i baratoi neu archwilio gwybodaeth yn y meysydd hyn, gall unrhyw brinder o ran y sgiliau hyn neu'r wybodaeth hon effeithio ar y risg gynhenid sy'n gysylltiedig â'r wybodaeth berthynol.
- Gall endidau'r sector cyhoeddus fod yn ddarostyngedig i ofynion rheoleiddiol a goruchwyliol cymhleth sy'n berthnasol i'w maes hefyd.

- *Goddrychedd*

- Gall goddrychedd godi mewn nifer o feysydd sy'n effeithio ar ddatganiadau ariannol y sector cyhoeddus, gan gynnwys statws trefniadau, cytundebau, cyhoeddiadau ac ymrwymïadau yng nghydestun y sector cyhoeddus.
- Mae gan lywodraeth allu nad yw ar gael i sectorau eraill i weithredu'n groes i'r bwriadau a gyhoeddwyd ganddi'n flaenorol ac i newid y sefyllfa gyfreithiol mewn ymateb i ddigwyddiadau: er enghraifft, trwy ddefnyddio'i rheolaeth ar y Senedd i ddeddfu ar fater penodol.
- Fodd bynnag, ceir disgwyliadau cyffredinol hefyd y bydd endidau'r sector cyhoeddus yn gweithredu mewn ffyrdd penodol sy'n mynd y tu hwnt i'w rwymedigaethau cyfreithiol a chytundebol llym: er enghraifft, y bydd llywodraeth yn gweithredu i leddfu effeithiau digwyddiadau economaidd neu amgylcheddol anffafriol ar unigolion, busnesau ac endidau cyhoeddus eraill. Mae'r disgwyliadau hyn yn amodol ar ystyriaethau gwleidyddol a sefyllfaol sy'n aml yn hynod oddrychol ac a allai effeithio, er enghraifft, ar y sefyllfa o ran i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cydnabod atebolrwydd am rwymedigaethau posibl.
- Gall trefniadau gael eu gwneud hefyd rhwng endidau yn y sector cyhoeddus nad ydynt yn rhwymo mewn cyfraith ond a fyddai o ran eu natur yn gytundebol yng nghydestun y sector preifat: er enghraifft, gellir cytuno ar drefniadau prydlesu lle mae'r landlord a'r tenant yn gyrrff cyhoeddus a hynny gan ddefnyddio memorandwm sy'n nodi'r telerau meddiannu, yn hytrach na contract cyfreithiol. Gall hyn achosi goddrychedd o ran sut y dylid rhoi cyfrif am y trefniadau hyn.

- Gall endidau'r sector cyhoeddus fod yn dal asedau eiddo ar gyfer potensial eu gwasanaethau a allai, gan ddibynnu ar y fframwaith adrodd ariannol, gael eu prisio gan ddefnyddio cost amnewid ar ôl dibrisiant fel mesur o werth cyfredol mewn defnydd ar hyn o bryd. Gall methodolegau prisio o'r fath arwain at oddrychedd wrth brisio eiddo oherwydd diffyg mewnbynnau neu feincnodau gweladwy i'w defnyddio wrth brisio.
- *Newid*
 - Gall digwyddiadau neu amodau achosi newid mynych ac anrhagweladwy sy'n effeithio ar endid yn y sector cyhoeddus a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo. Er enghraifft, gall amcanion a chyfrifoldebau endidau llywodraeth newid ar fyr rybudd o ganlyniad i ddatblygiadau gwleidyddol neu ddigwyddiadau ac argyfyngau annisgwyl.
- *Ansicrwydd*
 - Rhoddir enghreifftiau o ffactorau risg cynhenid yn y sector cyhoeddus sy'n ymwneud yn benodol ag amcangyfrifon cyfrifyddu ym mharagraff I-I 16 dan yr adran ar ISA (Y DU) 540 yn Nodyn Ymarfer 10.
- *Rhagduddiad i gamddatganiad oherwydd tuedd gan reolwyr neu ffactorau risg eraill ar gyfer twyll i'r graddau eu bod yn effeithio ar risg gynhenid*
 - Gall cymhellion neu bwysau fodoli yn endidau'r sector cyhoeddus nad ydynt yn bresennol mewn sectorau eraill (neu sy'n bresennol i raddau llai) sy'n creu rhagduddiad i fethiant bwriadol neu anfwriadol gan reolwyr i gynnal niwtraliaeth wrth baratoi gwybodaeth.
 - Er y gallai'r cymhellion neu'r pwysau sy'n codi yn y sector preifat fod â mwy o ffocws ar wybodaeth am broffidioldeb a diddyledrwydd yr endid, gall y rhai sy'n bresennol yn endidau'r sector cyhoeddus ymwneud â dylanwadu ar wybodaeth am stiwardiaeth ar arian cyhoeddus, darparu gwasanaethau, cydymffurfio â gofynion y llywodraeth a pholisïau a materion a allai fod yn gynhennus yn wleidyddol.
 - Gall cymhellion neu bwysau i ddylanwadu ar wybodaeth ariannol yn natganiadau ariannol y sector cyhoeddus fod yn gysylltiedig â chyfanswm gwariant a therfynau cyllidebol, categorïau gwariant arbennig o sensitif a gwariant ar brosiectau neu raglenni uchel eu proffil.
 - Caiff ffactorau sy'n berthnasol i ragduddiad datganiadau ariannol y sector cyhoeddus i gamddatganiad oherwydd twyll ar ffurf adrodd ariannol twyllodrus neu gambriodoli asedau eu disgrifio yn yr adran ar ISA (Y DU) 240 yn Nodyn Ymarfer 10..

I-80 Yn ogystal â'r pum categori o ffactorau risg cynhenid a ddisgrifir yn ISA (Y DU) 315, gall ffactorau risg cynhenid eraill yn archwiliadau'r sector cyhoeddus godi o'r ffactorau canlynol, neu gyfuniad o'r rhain:

- cyfundrefn a reoleiddir yn fanwl;
- ystod eang o randdeiliaid a all fod â buddiannau ac anghenion gwahanol fel defnyddwyr datganiadau ariannol;
- ar ôl cyflwyno rhaglenni deddfwriaeth neu wariant newydd o bwys;
- y posibilrwydd o dorri cyfansymiau rheolaeth Seneddol;
- lle bydd endid yn debygol o gael ei ddirwyn i ben, ei ad-drefnu, ei uno ag endid arall, ei werthu nei ei breifateiddio;
- lle bo pwysau gwleidyddol ar endid i gwblhau trafodion yn gyflym; a/neu
- lle nad yw ffurf derfynol y cyfrifo yn adlewyrchu'r prosesau rheoli a chyfrifyddu sylfaenol.

I-81 Pan fydd yn ofynnol i endidau weithio'n unol â therfynau blynyddol ar adnoddau neu wariannau cyfalaf, mae'r risg o gofnodi trafodion yn y cyfnod cyfrifyddu anghywir yn uwch, oherwydd bod cymhelliad i endid ddwyn gwariant neu ychwanegiadau cyfalaf ymlaen neu eu gohirio gan ddibynnu ar ei alldro disgwylidig yn erbyn y terfynau hyn. Mae'r risg y caiff trafodion a balansau eu camddosbarthu'n uwch hefyd, gan bod cymhelliad i gydnabod eitemau mewn modd sy'n cynyddu alldro yn erbyn terfynau lle ceir tanwariant ac sy'n lleihau alldro yn erbyn terfynau lle ceir gorwariant.

I-82 Wrth ystyried cydymffurfiaeth â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys, caiff gweithdrefnau archwilydd y sector cyhoeddus eu cyflawni gan wybod bod gan endidau eu fframwaith deddfwriaethol a'u darpariaethau cyfrifyddu eu hunain, sy'n rhagnodi ffurf a chynnwys datganiadau ariannol.

ISA (y DU) 320 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016): Perthnasedd wrth gynllunio a chynnal archwiliad

I-83 Amcan yr archwilydd yw cymhwyso'r cysyniad o berthnasedd mewn modd priodol wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad (ISA (Y DU) 320, 8).

I-84 Cyrff deddfu a rheoleiddio fydd prif ddefnyddwyr datganiadau ariannol endid yn y sector cyhoeddus. Ar ben hynny, gellir defnyddio'r datganiadau ariannol i wneud penderfyniadau eraill ar wahân i benderfyniadau economaidd. Mae cyfraith, rheoliad neu awdurdod arall, a'r wybodaeth ariannol sydd ei hangen gan gyrff deddfu a'r cyhoedd yn gysylltiedig â rhaglenni'r sector cyhoeddus, felly, yn dylanwadu ar y penderfyniad cyffredinol ynghylch perthnasedd mewn datganiadau ariannol (ac, os yw'n berthnasol, lefel perthnasedd dosbarthau neilltuol o drafodion, balansau cyfrifon neu ddatgeliadau) wrth archwilio datganiadau ariannol endid yn y sector cyhoeddus (ISA (Y DU) 320, A2 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 320, 10)

I-85 Mewn archwiliad o endid yn y sector cyhoeddus, gall cyfanswm y gost neu'r gost net (treuliau llai refeniw neu wariant llai derbyniadau) fod yn feincnodau priodol ar gyfer gweithgarwch rhaglenni. Lle bo endid yn y sector cyhoeddus yn gwarchod asedau cyhoeddus, gall asedau fod yn feincnod priodol (ISA (Y DU) 320, A9 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 320, I0).

I-86 Gan hynny, mae'n bosibl na fydd gwariant gros neu asedau/rhwymedigaethau gros yn fwy priodol nag elw neu refeniw fel meincnodau ar gyfer pennu perthnasedd cyffredinol datganiadau ariannol, fel y dangosir yn yr enghreifftiau ym Blwch I isod:

I-87 Gall archwilwyr bennu'r lefel neu lefelau perthnasedd sydd i'w priodoli i ddosbarthiadau penodol o drafodion, balansau cyrifon neu ddatgeliadau y gellid yn rhesymol ddisgwyl i gamddatganiadau o symiau llai na pherthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol ar y cyfan ddylanwadu ar benderfyniadau defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol, lle bo'n briodol yng nghyd-destun yr endid archwiliedig a disgwyliadau defnyddwyr y datganiadau ariannol. Rhoddir enghreifftiau yn ISAs (Y DU) o sefyllfaoedd pan all gwerthusiad yr archwilydd o ba eitemau sy'n berthnasol amrywio rhwng gwahanol feysydd yn y datganiadau ariannol: er enghraifft, mae paragraff A20 o ISA (Y DU) 450 yn amlygu amgylchiadau lle gellid ystyried o bosibl nad yw camddosbarthiadau rhwng eitemau ar y fantolen nad ydynt yn effeithio ar y datganiad am berfformiad yn berthnasol.

I-88 Mewn rhai endidau yn y sector cyhoeddus (er enghraifft, y rhai sy'n cynnwys asedau seilwaith mawr neu rwymedigaethau pensiwn), mae gwerth asedau a/neu rwymedigaethau gros yn llawer uwch na gwerth cyfanswm gwariant ac incwm. Caiff y mwyafrif o benderfyniadau gan ddefnyddwyr datganiadau ariannol yr endidau hyn eu gwneud yn seiliedig yn bennaf ar drafodion yn ystod y flwyddyn yn hytrach na balansau mawr yr asedau neu rwymedigaethau, y mae'n aml yn wir nad oes rhyw lawer o ymyriad i'w wneud gan yr endid o un flwyddyn i'r llall (er enghraifft, asedau eiddo hanesyddol neu arbenigol neu gynlluniau pensiwn statudol). Fodd bynnag, gall defnyddwyr hefyd o bryd i'w gilydd wneud penderfyniadau economaidd yn seiliedig ar yr asedau a rhwymedigaethau ar y cyfan (er enghraifft, penderfyniadau i ailariannu asedau seilwaith neu i drosglwyddo rhwymedigaethau pensiwn). Lle mae gan yr endid a archwilir asedau cyhoeddus sylweddol dan ei ofal, mae potensial ei wasanaethau'n ffactor pwysig sy'n cyfrannu at allu'r endid i ddarparu ei wasanaethau hanfodol, a all eu gwneud yn feincnod priodol ar gyfer pennu perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd, yn unol â pharagraff A9 o ISA (Y DU) 320. Yn y cyd-destun hwn, mae dull yr archwilydd o bennu lefelau perthnasedd yn adlewyrchu anghenion amrywiol defnyddwyr y datganiadau ariannol at wahanol ddibenion.

Blwch I: Enghreifftiau dangosol lle cymhwyswyd gwahanol feincnodau er mwyn pennu perthnasedd

Nid yw'r enghreifftiau canlynol yn gyfarwyddol, ond maent yn dangos rhai penderfyniadau y byddid yn disgwyl yn gyffredinol iddynt fod yn gyson â gofynion ISA (Y DU) 320 dan amgylchiadau penodol. Gall archwilwyr ystyried, gan ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol, bod dulliau gwahanol o bennu perthnasedd yn briodol, hyd yn oed dan amgylchiadau tebyg i'r rhai a nodir.

Enghraifft 1: prif rôl yr endid yw darparu gwasanaethau ac mae mwyafrif y gwariant yn gysylltiedig â chostau staff - roedd yr archwilydd yn ei hystyried yn briodol defnyddio gwariant gros fel meincnod er mwyn pennu perthnasedd.

Enghraifft 2: cyfrif cynllun pensiwn yw'r endid a archwilir ac mae a wnelo mwyafrif y gwariant a'r incwm â symudiadau ased y cynllun pensiwn - penderfynodd yr archwilydd ddefnyddio'r asedau gros fel meincnod er mwyn pennu perthnasedd.

Enghraifft 3: mae'r endid a archwilir yn rheoli darpariaethau sylweddol hirdymor y llywodraeth, ac mae gwerth y rhwymedigaethau a'r symudiadau cysylltiedig yn fwy arwyddocaol na gwerth eitemau eraill ar y datganiadau ariannol - defnyddiodd yr archwilydd y rhwymedigaethau gros fel meincnod er mwyn pennu perthnasedd.

Enghraifft 4: mae gan yr endid a archwilir asedau anghyfredol sylweddol ond ei brif rôl yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd - penderfynodd yr archwilydd ei bod yn fwy priodol defnyddio gwariant gros fel meincnod er mwyn pennu perthnasedd i adlewyrchu rôl yr endid a buddiant defnyddwyr y datganiadau ariannol.

Enghraifft 5: mae cyfrifon yr endid a archwilir yn cynnwys asedau eiddo, cyfarpar ac offer gwerth uchel, ond mae ei brosesau penderfynu o ddydd i ddydd yn canolbwyntio ar ffrydiau trafodion incwm a gwariant ac iddynt werth is o lawer – fe wnaeth yr archwilydd bennu perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd gan ddefnyddio asedau gros fel meincnod a phennodd hefyd lefel perthnasedd i'w chymhwyso i'r rhan fwyaf neu'r cyfan o ffrydiau trafodion incwm a gwariant, y gellid yn rhesymol ddisgwyl i gamddatganiadau â symiau is na'r lefel perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd ddylanwadu ar benderfyniadau defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol. Gall y lefel perthnasedd a gymhwysir i ffrydiau incwm a gwariant fod yn berthnasol i asedau neu rwymedigaethau y caiff penderfyniadau rheolwyr eu gwneud yn fwy mynych mewn perthynas â hwy na'r balansau cyfrifon mwy (er enghraifft, balansau cyfalaf gweithio neu fuddsoddiadau a reolir yn weithredol).

ISA (y DU) 402: Ystyriaethau archwilio sy'n ymwneud ag endid sy'n defnyddio sefydliad gwasanaeth

I-89 Dyma amcanion yr archwilydd defnyddiwr, lle bydd yr endid defnyddiwr yn defnyddio gwasanaethau sefydliad gwasanaeth:

(a) sicrhau dealltwriaeth o natur ac arwyddocâd y gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad gwasanaeth a'u heffaith ar reolaeth fewnol yr endid defnyddiwr sy'n berthnasol i'r archwiliad, sy'n ddigonol i nodi ac asesu'r risgiau o gamddatganiad perthnasol; a

(b) dylunio a chynnal gweithdrefnau archwilio sy'n ymatebol i'r risgiau hynny (ISA (Y DU) 402, 7).

Defnyddio sefydliadau gwasanaeth yn y sector cyhoeddus

I-90 Mae endidau'r sector cyhoeddus yn aml yn defnyddio cyd-ddarparwyr gwasanaethau. Er enghraifft, gallai gwasanaethau cyflogres neu brosesu trafodion gael eu hanfon allan i endid arall, a allai fod yn endid yn y sector preifat, yn endid arall yn y sector cyhoeddus, neu'n fenter ar y cyd rhwng y ddau sector.

I-91 Bydd archwilwyr yn ystyried sut mae'r corff a archwilir yn goruchwyllo perfformiad y darparydd, ac yn ystyried a yw hyn yn codi'r risg o gamddatgan. Pan fydd asiantaeth archwilio genedlaethol yn archwilio mwy nag un sefydliad defnyddiwr ar gyfer darparydd gwasanaeth, bydd yr asiantaeth yn dod i ddeall sut mae'r sefydliad gwasanaeth yn effeithio ar bob endid defnyddiwr, ac yn cynnal asesiadau unigol o risg a'r effaith ar yr ymgwedd archwilio ar gyfer pob endid defnyddiwr.

Hawliau mynediad i sefydliadau gwasanaeth

I-92 Ar y cyfan, mae gan archwilwyr y sector cyhoeddus hawliau mynediad eang wedi'u sefydlu drwy deddfwriaeth. Fodd bynnag, gallai sefyllfaoedd godi lle nad yw'r hawliau mynediad hynny ar gael, er enghraifft lle bo sefydliad gwasanaeth wedi'i leoli mewn awdurdodaeth wahanol. Mewn achosion o'r fath, gallai fod angen i archwilydd y sector cyhoeddus ddeall y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yn yr awdurdodaeth wahanol er mwyn canfod a ellir sicrhau hawliau mynediad priodol. Gallai archwilydd o'r sector cyhoeddus hefyd sicrhau neu ofyn i'r endid defnyddiwr ymgorffori hawliau mynediad mewn unrhyw gytundeb contractiol rhwng yr endid defnyddiwr a'r sefydliad gwasanaeth (ISA (Y DU) 402, A10 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 402, 9).

I-93 Nid yw ISA (Y DU) 402 ynnddi ei hun yn ddigonol i sicrhau hawliau mynediad i sefydliadau gwasanaeth ar gyfer archwilydd y sector cyhoeddus. Mae'n bwysig, lle bo angen hawliau mynediad o'r fath, bod y corff a archwilir yn gwneud trefniadau priodol i roi sicrwydd i'r archwilydd.

I-94 Gall archwilwyr y sector cyhoeddus ddefnyddio archwilydd arall i gynnal profion ar reolaethau neu weithdrefnau cadarn yng nghyswllt cydymffurfio â chyfraith, rheoliad neu awdurdod arall (ISA (Y DU) 402, A11 sy'n ymwneud â gofynion ISA (Y DU) 402, 9).

I-95 Mewn rhai achosion, gallai cyfraith neu reoliad ei gwneud hi'n ofynnol cynnwys cyfeiriad at waith archwilydd gwasanaeth yn adroddiad yr archwilydd defnyddiwr, er enghraifft, i ddibenion tryloywder yn y sector cyhoeddus. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bosibl y bydd angen caniatâd yr archwilydd gwasanaeth cyn cynnwys y cyfeiriad hwnnw (ISA 402, A43 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA 402, 21).

ISA (y DU) 510: Ymrwymadau archwilio cychwynnol - balansau agoriadol

I-96 Wrth gynnal ymrwymiad archwilio cychwynnol, amcan yr archwilydd mewn perthynas â balansau agoriadol yw caffael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch y canlynol:

(a) a yw balansau agoriadol yn cynnwys camddatganiadau sy'n cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y cyfnod cyfredol; a

(b) mae polisiau cyfrifyddu priodol a adlewyrchir yn y balansau agoriadol wedi'u cymhwyso'n gyson yn natganiadau ariannol y cyfnod cyfredol, neu rhoddir cyfrif priodol am newidiadau iddynt a'u cyflwyno a'u datgelu yn ddigonol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys (ISA (Y DU) 510, 3).

Balansau agoriadol yng nghyd-destun newid peirianwaith llywodraethu

I-97 Mae a wnelo ISA (Y DU) 510 â balansau agoriadol ymrwymadau cychwynnol. Gall hyn ddigwydd pan fydd datganiadau ariannol y cyfnod blaenorol wedi'u harchwilio gan archwilydd arall, ond y mae hefyd yn berthnasol yn achos "newidiadau peirianwaith llywodraethu" sy'n trosglwyddo swyddogaethau o'r naill ran o'r sector cyhoeddus i ran arall fel busnes gweithredol.

I-98 Lle gellir adnabod balansau agoriadol yn glir o ddatganiadau ariannol archwiliedig y cyfnod blaenorol ar gyfer yr endid sy'n trosglwyddo, bydd yr archwilydd yn mabwysiadu'r gofynion ym mharagraffau 6 a 7 o ISA (Y DU) 510.

I-99 Lle nad oes modd adnabod balansau agoriadol yn glir o ddatganiadau ariannol archwiliedig y cyfnod blaenorol ar gyfer yr endid sy'n trosglwyddo, ond eu bod wedi'u casglu o falansau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau hynny, bydd yr archwilydd yn holi archwilydd y sefydliad blaenorol a oes gwybodaeth ar gael a fyddai'n dystiolaeth gadarn o'r balansau agoriadol. Yn absenoldeb dystiolaeth o'r fath, bydd yr archwilydd yn cynnal profion cadarn o falansau agoriadol i gadarnhau eu bod wedi'u dwyn ymlaen yn briodol yn unol â thelerau'r trosglwyddiad, ar sail prisiad priodol yn unol â pholisiau cyfrifyddu'r corff sy'n derbyn.

I-100 Lle bo balansau agoriadol wedi'u cyfrifo yn rhan o ymarfer datgyfuno neu uno ar wahân, yn amodol ar adolygiad ac adroddiad manwl ar wahân gan archwilydd, bydd yr archwilydd yn ystyried cwmpas a chanlyniadau'r adolygiad ar wahân hwnnw, ac yn ystyried a ellir dibynnu ar y casgliadau yn unol ag ISA (Y DU) 500. Pan na ellir defnyddio'r gwaith o'r adolygiad manwl ar wahân, bydd yr archwilydd yn ystyried cynnal profion cadarn ar falansau agoriadol.

I-101 Pan fydd balansau agoriadol wedi'u cyfrifo yn rhan o ymarfer datgyfuno/uno ar wahân, ond nad ydynt yn destun adolygiad ac adroddiad manwl ar wahân, bydd yr archwilydd yn ystyried cynnal profion cadarn ar falansau agoriadol. Gall cyflawnder yr asedau a'r rhwymedigaethau, ynghyd â phrisiad priodol, fod yn risgiau mewn ymarfer datgyfuno, ac ymgysylltir â'r corff a archwilir yn fuan yn y broses.

I-102 Pan na all yr archwilydd gaffael digon o dystiolaeth archwilio briodol am falansau agoriadol yr endid, ar ôl cynnal y gweithdrefnau a ddisgrifir uchod, bydd yr archwilydd yn ystyried goblygiadau hynny o ran adroddiad yr archwilydd.

Archwiliad o falansau agoriadol gan yr archwilydd newydd

I-103 Yn y sector cyhoeddus, er budd effeithlonrwydd ac er mwyn lleihau'r baich archwilio, mae'r asiantaethau archwilio cenedlaethol, y Codau Ymarfer Archwilio neu'r telerau penodi yn disgwyl i'r archwilydd blaenorol fabwysiadu ymagwedd gydweithredol wrth ymdrin ag ymholiadau a cheisiadau am wybodaeth gan yr archwilydd newydd.

I-104 Bydd trefniadau i gefnogi ymagwedd gydweithredol fel arfer yn cynnwys galluogi'r archwilydd newydd i gynnal adolygiad o ddogfennau archwilio'r flwyddyn gynt, neu gael mynediad at adroddiadau neu bapurau neilltuol y gellid bod eu hangen yn hytrach na throsglwyddo'r holl bapurau neu'r data perthnasol. Er bod disgwyliad clir i archwilwyr gydweithredu er mwyn cefnogi trefniadau trosglwyddo effeithiol, mae'r archwilydd newydd yn dal i fod yn gyfrifol am fodloni gofynion ISA (Y DU) 510.

I-105 Yn y sector cyhoeddus, mae'n bosibl y ceir cyfyngiadau cyfreithiol neu reoleiddiol ar yr wybodaeth y gall yr archwilydd cyfredol ei chaffael gan archwilydd blaenorol. Er enghraifft, os bydd endid yn y sector cyhoeddus a archwiliwyd yn flaenorol gan archwilydd a benodwyd yn statudol (er enghraifft, Archwilydd Cyffredinol, neu unigolyn arall â chymwysterau addas a benodir ar ran yr Archwilydd Cyffredinol) yn cael ei breifateiddio, mae'n bosibl y bydd cyfreithiau neu reoliadau preifatrwydd neu gyfrinachedd yn cyfyngu ar fynediad at y papurau gwaith a gwybodaeth arall y gall yr archwilydd a benodwyd yn statudol eu darparu i'r archwilydd sydd newydd ei benodi. Mewn sefyllfaoedd lle ceir cyfyngu ar ohebiaeth o'r fath, efallai y bydd angen defnyddio dulliau eraill i gaffael tystiolaeth archwilio ac, os na ellir caffael digon o dystiolaeth archwilio briodol, ystyrir effaith hynny ar farn yr archwilydd (ISA (Y DU) 510, A1 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 510, 6).

I-106 Os bydd archwilydd a benodwyd yn statudol yn rhoi'r gwaith o archwilio endid yn y sector cyhoeddus ar gontract allanol i gwmni archwilio yn y sector preifat, a bod yr archwilydd a benodwyd yn statudol yn penodi cwmni archwilio gwahanol i'r cwmni a archwiliodd ddatganiadau ariannol yr endid sector cyhoeddus o'r cyfnod blaenorol, ni ystyrir fel arfer bod yr archwilwyr wedi newid o safbwynt yr archwilydd a benodwyd yn statudol. Yn dibynnu ar drefniant y contract allanol, fodd bynnag, gellir ystyried yr ymrwymiad archwilio yn ymrwymiad archwilio cychwynnol o safbwynt archwilydd y sector preifat wrth gyflawni ei gyfrifoldebau, ac felly mae [ISA (Y DU) 510] yn berthnasol (ISA (Y DU) 510, A2 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 510, 6).

ISA (y DU) 540: Archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig

I-107 Amcan yr archwilydd yw caffael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch a yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol yn rhesymol yng nghyd-destun fframwaith adrodd ariannol cymwys (ISA (Y DU) 540, 11).

Risg o ogwydd gan reolwyr mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn y sector cyhoeddus

I-108 Yn y sector cyhoeddus, gall ffactorau y tu hwnt i gwmpas y fframwaith adrodd ariannol gael cryn ddylanwad ar amcangyfrifon rheolwyr. Er enghraifft, bydd adrannau llywodraeth ganolog yn cadw at reolaethau cyllidebol Trysorlys EM, felly gall effaith amcangyfrifon y datganiadau ariannol ar derfynau gwariant adrannau neu'r gyllideb weinyddu ddylanwadu ar yr amcangyfrifon hynny. Mewn modd tebyg, yn y sector iechyd gall derfynau neu dargedau statudol ddylanwadu ar benderfyniadau rheolwyr.

I-109 Bydd archwilwyr yn dod i ddeall y dylanwadau hyn, y mae rhai ohonynt yn dod o rannau eraill o fewn grŵp adrannol neu sector, wrth ystyried priodoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a'r rhagdybiaethau a gymhwysir gan reolwyr.

Ffactorau risg cynhenid sy'n berthnasol i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y sector cyhoeddus

I-110 Mae ffactorau risg cynhenid a allai fod yn berthnasol i amcangyfrifon cyfrifyddu a baratowyd gan endidau'r sector cyhoeddus yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

- llawer iawn o ansicrwydd wrth amcangyfrif oherwydd bod angen edrych ar ragolygon ymhell i'r dyfodol, ee ar gyfer darpariaethau'n gysylltiedig â gwaredu gwastraff niwclear neu rwymedigaethau'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio;
- meysydd lle bo'r sgiliau neu'r wybodaeth gysylltiedig yn hynod arbenigol neu brin, neu lle bo diffyg cymaryddion ar gael ar gyfer amcangyfrifon sy'n unigryw i'r sector cyhoeddus, fel gwerthuso asedau neu rwymedigaethau cyhoeddus pwysig yn gysylltiedig â'r gost o gyflawni swyddogaethau cyhoeddus, gan gynnwys prisiau eiddo;
- bodolaeth ymrwymadau adeiladol posibl a gafodd eu creu drwy ddatganiadau gwleidyddol neu drwy'r arfer yn y gorffennol o weithredu camau a allai fod yn ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus ond nad ydynt yn ofynnol yn ôl y gyfraith; a
- bod ansicrwydd gwleidyddol cyffredinol a'r posibilrwydd o newidiadau yn y dyfodol mewn polisi cyhoeddus yn effeithio ar y rhagdybiaethau a ddefnyddir i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu.

Defnyddio amcangyfrifon trydydd parti yn y datganiadau ariannol

I-111 Mae rhai o endidau'r sector cyhoeddus yn dibynnu ar amcangyfrifon cyfrifyddu a ddarperir gan endidau eraill o fewn y sector cyhoeddus. Mae'r archwilydd yn deall sut y lluniwyd yr amcangyfrifon hyn, a gallai fod angen iddo gyfathrebu ag archwilwyr yr endidau sy'n llunio'r amcangyfrifon cyfrifyddu y mae corff y sector cyhoeddus yn dibynnu arnynt.

Defnyddio ffynonellau gwybodaeth allanol

I-112 Mae Paragraffau A127-A129 o ISA (Y DU) 540, ynghyd â pharagraff A31 o ISA 500, yn nodi ystyriaethau'r archwilydd ynghylch dibynadwyedd gwybodaeth o ffynhonnell wybodaeth allanol⁸.

I-113 Yn y sector cyhoeddus, gall ffynhonnell wybodaeth allanol o'r fath fod yn gorff arall sy'n rhan o'r un llywodraeth, neu sy'n cael ei reoli ganddi. Er enghraifft, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn darparu gwybodaeth sy'n addas i'w defnyddio gan ystod eang o ddefnyddwyr. Lle bo archwilydd y sector cyhoeddus o'r farn y gallai dylanwad gwleidyddol dros yr endid a archwilir a'r ffynhonnell wybodaeth allanol leihau gwrthrychedd y ffynhonnell wybodaeth allanol, bydd yr archwilydd yn ystyried a oes angen gweithdrefnau ychwanegol er mwyn cadarnhau'r wybodaeth o'r ffynhonnell allanol.

Asedau anghyfredol yn y sector cyhoeddus

I-114 Mae'n bosibl y bydd endidau'r sector cyhoeddus yn dal asedau arbenigol sylweddol (er enghraifft, ysbytai, ysgolion, pontydd neu rwydweithiau rheilffordd a ffyrdd) nad oes unrhyw ffynonellau gwybodaeth dibynadwy ar gael yn rhwydd ar eu cyfer er mwyn mesur eu gwerth ar sail deg, nac ar sail arall gyfredol, na chyfuniad o'r ddau dull. Yn aml ni fydd asedau arbenigol a ddelir yn cynhyrchu llifoedd arian parod, ac nid oes ganddynt farchnad weithredol. Gan hynny bydd angen amcangyfrif unrhyw fesuriad gwerth teg fel arfer, a gallai hynny fod yn gymhleth; efallai y bydd y dulliau a ddefnyddir yn wahanol i'r technegau mwy cyffredin fel amcangyfrif llif arian yn y dyfodol.

ISA (y DU) 550: Partïon cysylltiedig

I-115 Dyma amcanion yr archwilydd:

(a) P'un a yw'r fframwaith adrodd ariannol cymwys yn sefydlu gofynion ar gyfer partïon cysylltiedig ai peidio, cael dealltwriaeth ddigonol o berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig i allu:

(i) adnabod ffactorau risg yn gysylltiedig â thwyll, os o gwbl, sy'n deillio o berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig sy'n berthnasol wrth adnabod ac asesu'r risgiau o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll; a

(ii) casglu, ar sail y dystiolaeth archwilio a gaffaelwyd, a yw'r datganiadau ariannol, i'r graddau yr effeithir arnynt gan y perthnasoedd a'r trafodion hynny:

- yn sicrhau cyflwyniad teg (ar gyfer fframweithiau cyflwyniad teg); neu
- heb fod yn gamarweiniol (ar gyfer fframweithiau cydymffurfio); a

(b) yn ogystal â hyn, lle bo'r fframwaith adrodd ariannol cymwys yn sefydlu gofynion ar gyfer partïon cysylltiedig, caffael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch a yw

⁸Diffinnir ffynonellau gwybodaeth allanol yn ISA 500, 5 (cA).

perthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig wedi'u nodi, y rhoddwyd cyfrif amdanynt a'u datgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith (ISA (Y DU) 550, 9).

Ystyriaethau penodol i'r sector cyhoeddus o ran trafodion partïon cysylltiedig

I-116 Gall y mandad archwilio neu rwymedigaethau ar endidau'r sector cyhoeddus sy'n deillio o gyfraith, o reoliad neu o awdurdod arall, effeithio ar gyfrifoldebau archwilydd y sector cyhoeddus yng nghyswllt perthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig. O ganlyniad i hynny, mae'n bosibl na fydd cyfrifoldebau archwilydd y sector cyhoeddus wedi'u cyfyngu i ymdrin â'r risgiau o gamddatganiad perthnasol sy'n gysylltiedig â pherthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig, ond y byddant hefyd yn cynnwys cyfrifoldeb ehangach i ymdrin â'r risgiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfraith, rheoliad ac awdurdod arall sy'n llywodraethu cyrff y sector cyhoeddus, sy'n pennu gofynion penodol ynghylch cynnal busnes â phartïon cysylltiedig. Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd angen i archwilydd y sector cyhoeddus roi sylw i ofynion adrodd ariannol y sector cyhoeddus ar gyfer perthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig a allai fod yn wahanol i rai'r sector preifat (ISA (Y DU) 550, A8 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 550, 11).

I-117 Bydd fframweithiau adrodd ariannol yn sefydlu gofynion cyfrifyddu a datgelu penodol ar gyfer perthnasoedd, trafodion a balansau partïon cysylltiedig er mwyn galluogi defnyddwyr y datganiadau ariannol i ddeall eu natur a'r effeithiau gwirioneddol neu bosibl ar y datganiadau ariannol. Yn benodol, efallai y bydd angen i'r corff archwiliedig ystyried y diffiniad o barti cysylltiedig mewn perthynas â chyrff y sector cyhoeddus. Nid yw corff y sector cyhoeddus o reidrwydd yn barti sy'n gysylltiedig â chorff arall y sector cyhoeddus oherwydd eu bod yn yr un dosbarth. Ceir cyfyngiadau penodol ar natur a chwmpas y perthnasoedd y gall partïon cysylltiedig endidau'r sector cyhoeddus ymrwymo iddynt â'r endid. Mae'r rhain yn rhagnodi arferion a allai fod yn dderbyniol mewn perthnasoedd y tu allan i'r sector cyhoeddus.

I-118 Mae gan yr archwilydd gyfrifoldeb i gynnal gweithdrefnau archwilio i nodi, asesu ac ymateb i'r risgiau o gamddatganiad perthnasol sy'n deillio o fethiant ar ran yr endid i roi cyfrif priodol am berthnasoedd, trafodion neu falansau partïon cysylltiedig, neu eu datgelu, yn unol â gofynion y fframwaith adrodd ariannol.

ISA (y DU) 560: Digwyddiadau dilynol

I-119 Dyma amcanion yr archwilydd:

(a) caffael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch a yw digwyddiadau rhwng dyddiad y datganiadau ariannol a dyddiad adroddiad yr archwilydd, y mae angen addasu ar eu cyfer, neu eu datgelu, yn y datganiadau ariannol wedi'u hadlewyrchu'n briodol yn y datganiadau ariannol hynny, yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys; a

(b) ymateb yn briodol i ffeithiau sydd wedi dod yn hysbys i'r archwilydd ar ôl dyddiad adroddiad yr archwilydd. a fyddai, pe baent wedi bod yn hysbys i'r archwilydd ar y dyddiad hwnnw, wedi achosi'r archwilydd i ddiwygio adroddiad yr archwilydd (ISA (Y DU) 560, 4).

Ystyriaethau ychwanegol o ran digwyddiadau dilynol yn y sector cyhoeddus

I-120 Yn y sector cyhoeddus, gall yr archwilydd ddarllen cofnodion swyddogol o achosion perthnasol y ddeddfwrfa ac ymholi ynghylch materion yr ymdrinnir â hwy yn yr achosion nad oes cofnodion swyddogol ar gael ar eu cyfer eto (ISA (Y DU) 560, A10 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 560, 7).

I-121 Yn ogystal â rhoi barn archwilio ar y datganiadau ariannol, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i archwilydwr rhai endidau llywodraeth leol ac iechyd:

- gyflawni cyfrifoldebau a dyletswyddau statudol penodol; a
- chyhoeddi tystysgrif i gadarnhau bod yr archwiliad a'r holl gyfrifoldebau a dyletswyddau cysylltiedig wedi'u cwblhau'n unol â'r ddeddfwriaeth.

I-122 Wrth gyhoeddi'r dystysgrif cwblhau archwiliad bydd yr archwilydd yn gorffen arfer ei bwerau a'i ddyletswyddau yn gysylltiedig â'r archwiliad statudol hwnnw.

I-123 Gallai cyfrifoldebau a dyletswyddau statudol eraill yr archwilydd achosi oedi sylweddol rhwng yr adeg pan fydd yr archwilydd wedi caffael digon o dystiolaeth archwilio briodol i roi'r farn ar y datganiadau ariannol a phan fydd yr archwilydd mewn sefyllfa i gyhoeddi'r dystysgrif cwblhau archwiliad.

I-124 Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr archwilydd yn asesu a allai'r camau y mae'r archwilydd yn disgwyl eu cymryd wrth gyflawni'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau statudol ychwanegol hynny godi materion a allai gael effaith o bwys ar y datganiadau ariannol. Os yw'r archwilydd o'r farn y bydd cyflawni'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau statudol ychwanegol hynny'n debygol o godi materion a fyddai'n cael effaith o bwys ar y datganiadau ariannol, ni fydd yr archwilydd yn rhoi barn ar y datganiadau ariannol nes bo'r camau ychwanegol hynny wedi'u cwblhau.

I-125 Mae barn a roddir ar ddatganiadau ariannol endid llywodraeth leol neu iechyd cyn cyhoeddi'r dystysgrif cwblhau archwiliad yn:

- farn derfynol ar y datganiadau ariannol i ddibenion cydymffurfio â ISAs (y DU); ac
- wedi'i chyhoeddi i gyd-daro â'r dyddiad arfaethedig ar gyfer cyhoeddi'r datganiadau ariannol gan y pwyllgor archwilio.

I-126 Os nad yw'r archwilydd wedi cyhoeddi tystysgrif cwblhau archwiliad ar gyfer archwiliad y flwyddyn gynt, ni fydd tystysgrif cwblhau archwiliad yn cael ei chyhoeddi ar gyfer archwiliad y flwyddyn gyfredol, nes bo'r dystysgrif cwblhau archwiliad yn gysylltiedig yn gysylltiedig â'r flwyddyn gynt wedi'i chyhoeddi.

Pennu'r dyddiadau perthnasol

I-127 Gall y fframwaith adrodd ariannol fanylu ar y dyddiad pan ystyrir awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol. Er enghraifft, yn *Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM*, nodir bod y dyddiad hwn fel arfer yr un peth â'r dyddiad ar dystysgrif y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfer endidau'r llywodraeth ganolog. Mae'r dyddiad hwn yn berthnasol, er enghraifft, ar gyfer endidau sy'n cymhwyso

Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 10 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd, lle ceir digwyddiadau o'r fath rhwng diwedd y cyfnod adrodd a dyddiad awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

I-128 Mae dyddiad cyhoeddi'r datganiadau ariannol yn berthnasol i ofynion yr archwilydd o dan ISA (Y DU) 560.

I-129 Yn achos y sector cyhoeddus, mae'n bosibl mai dyddiad cyhoeddi'r datganiadau ariannol fydd dyddiad cyflwyno'r datganiadau ariannol archwiliedig ac adroddiad yr archwilydd arnynt i'r ddeddfwrfa neu'r dyddiad pan fyddant yn cael rhannu fel arall â'r cyhoedd (ISA (Y DU) 560, A5 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA(Y DU) 560, 5). Ar gyfer endidau fel cyrff llywodraeth leol nad ydynt yn cyflwyno eu cyfrifon i ddeddfwrfa, mae hyn yn golygu mai dyddiad cyhoeddi'r datganiadau ariannol fydd y dyddiad pan fydd datganiadau ariannol archwiliedig ac adroddiad yr archwilydd yn cael eu rhannu â'r cyhoedd.

I-130 Ystyrir bod datganiadau ariannol endidau llywodraeth ganolog yn cael eu cyhoeddi ar y dyddiadau canlynol:

Endidau llywodraeth ganolog lle bydd y datganiadau ariannol wedi'u gosod yn un neu ddau o'r Senedd-dai.	Dyddiad gosod y datganiadau ariannol gerbron y Senedd-dy(dai).
Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi a chysylltiedig, ac endidau GIG Cymru	Dyddiad gosod y datganiadau ariannol gerbron Senedd Cymru.
Endidau llywodraeth ganolog yn yr Alban	Dyddiad gosod y datganiadau ariannol gerbron Senedd yr Alban.
Endidau llywodraeth ganolog ac iechyd yng Ngogledd Iwerddon	Dyddiad gosod y datganiadau ariannol gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon.
Endidau llywodraeth ganolog lle bo'r datganiadau ariannol wedi'u gosod gerbron amryw o ddeddfwrfeydd, lle bo hynny'n digwydd ar sawl dyddiad gwahanol	Dyddiad gosod gerbron y ddeddfwrfa gyntaf lle gosodir y datganiadau ariannol.

I-131 Mewn llywodraeth ganolog, bydd datganiadau ariannol y rhan fwyaf o endidau adrodd fel arfer yn cael eu gosod gerbron: Tŷ'r Cyffredin; Tŷ'r Arglwyddi; Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi; Senedd Cymru; Cynulliad Gogledd Iwerddon neu Senedd yr Alban. Fodd bynnag, ar gyfer endidau penodol, cyrff cyhoeddus hyd braich fel arfer, efallai y bydd corff canolraddol (bwrdd, ymddiriedolwyr neu gorff cyfatebol) hefyd yn ystyried y datganiadau ariannol cyn iddynt gael eu gosod yn ffurfiol gerbron y Senedd, naill ai gan y corff canolraddol, gan Ysgrifennydd Gwladol yr adran sy'n gyfrifol am yr endid, neu gan Drysorlys EM. Pan geir hierarchaeth adrodd o'r fath, bydd yr archwilydd yn ystyried digwyddiadau dilynol y bydd yr archwilydd yn dod yn ymwybodol ohonynt sy'n digwydd o ddyddiad adroddiad yr archwilydd hyd at ddyddiad gosod y datganiadau ariannol gerbron y Senedd neu'r Cynulliad.

I-132 Ni fydd datganiadau ariannol rhai endidau llywodraeth ganolog yn cael eu gosod yn ffurfiol gerbron y Senedd-dai, ond gall yr adran sy'n eu hariannu eu cyflwyno i lyfrgelloedd Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Gan na chaiff datganiadau ariannol yr endidau hyn eu gosod yn ffurfiol gerbron y Senedd, ni

fydd yr archwilydd ond yn ystyried digwyddiadau dilynol hyd at ddyddiad cyhoeddi'r datganiadau ariannol. Fel arall, bydd archwilydd endid llywodraeth ganolog yn dilyn gofynion ISA (Y DU) 560 ar gyfer digwyddiadau dilynol a geir rhwng y dyddiad cyhoeddi a dyddiad gosod gerbron y Senedd neu'r Cynulliad.

Ffeithiau a ddaw'n hysbys i'r archwilydd ar ôl dyddiad adroddiad yr archwilydd ond cyn cyhoeddi'r datganiadau ariannol

I-133 Ar ôl dyddiad adroddiad yr archwilydd nid oes unrhyw reidrwydd i archwilydd gynnal gweithdrefnau archwilio yn gysylltiedig â'r datganiadau ariannol hynny. Yn unol â hynny, ar ôl y dyddiad hwn, nid oes unrhyw ofyniad i'r archwilydd chwilio am wybodaeth a allai greu goblygiadau i'r farn archwilio a roddwyd eisoes.

I-134 Ar ôl dyddiad adroddiad yr archwilydd ond cyn dyddiad cyhoeddi'r datganiadau ariannol, os daw ffaith yn hysbys i'r archwilydd a fyddai, pe bai'n hysbys i'r archwilydd ar ddyddiad adroddiad yr archwilydd, wedi achosi i'r archwilydd ddiwygio adroddiad yr archwilydd:

- Mae Paragraffau 10 i 13 o ISA (Y DU) 560 yn ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd gynnal gweithdrefnau pellach; ac
- Ar ôl cwblhau'r cyfryw weithdrefnau, os bydd yr archwilydd yn casglu bod gwybodaeth berthnasol a fyddai wedi effeithio ar y farn ar y datganiadau ariannol, bydd yr archwilydd yn cyfeirio at y materion hynny yn y dystysgrif cwblhau'r archwiliad.

I-135 Os bydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn penderfynu peidio â diwygio'r datganiadau ariannol, lle bo'r archwilydd o'r farn fod angen eu hadolygu, bydd yr archwilydd yn ystyried cymryd camau priodol yn amserol i atal dibyniaeth ar adroddiad yr archwilydd:

- os bydd y datganiadau ariannol yn cael eu hystyried gan gorff canolraddol cyn cael eu hanfon at Ysgrifennydd Gwladol yr adran ariannu, a chyn eu gosod gerbron y Senedd, bydd yr archwilydd yn ystyried gwneud datganiad i'r corff hwnnw, yn dibynnu ar berthynas yr archwilydd â'r corff canolraddol, fel y nodir, o bosib, yn nhelerau ymrwymiad yr archwilydd, ac yng ngoleuni unrhyw gyngor cyfreithiol ynghylch sefyllfa'r archwilydd. ac
- os nad oes corff canolradd, a bod yr endid wedi anfon y datganiadau ariannol at Ysgrifennydd Gwladol yr adran ariannu, ond nad yw'r datganiadau wedi'u gosod eto gerbron y Senedd, yn amodol ar unrhyw gyngor cyfreithiol ynghylch sefyllfa'r archwilydd, bydd yr archwilydd yn ystyried adrodd wrth yr adran am bryderon yr archwilydd. Os bydd cynnwys llythyr penodi'r archwilydd yn seiliedig ar y canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, bydd gan yr archwilydd fel arfer hawl mynediad i adrodd wrth yr adran am unrhyw faterion pwysig sy'n deillio o waith yr archwilydd.

I-136 Yn y sector cyhoeddus, gallai'r camau a gymerir yn unol â pharagraff 13 [o ISA (Y DU) 560] lle nad yw'r rheolwyr yn diwygio'r datganiadau ariannol hefyd gynnwys adrodd ar wahân wrth y ddeddfwrfa, neu gorff arall perthnasol yn yr hierarchaeth adrodd, ar

oblygiadau'r digwyddiad dilynol i'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd (ISA (Y DU) 560, A14 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 560, 13).

I-137 Pan fydd y datganiadau ariannol yn cael eu cynhyrchu gan endid a archwilir gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, gall yr archwilydd adrodd ar wahân wrth y Senedd ar oblygiadau'r digwyddiad dilynol i'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd. Bydd trefniadau tebyg yn galluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i adrodd ar wahân wrth Senedd Cymru, Archwilydd Cyffredinol y Alban i adrodd wrth Senedd yr Alban, a'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Gogledd Iwerddon i adrodd wrth Gynulliad Gogledd Iwerddon. Ar gyfer endidau llywodraeth leol neu iechyd, bydd archwiliad yn dod i ben, a'r archwilydd yn rhoi'r gorau i arfer ei bwerau pan gyhoeddir y dystysgrif cwblhau archwiliad.

I-138 Os cafwyd y digwyddiad dilynol ar ôl dyddiad adroddiad yr archwilydd, gall yr archwilydd, yn ogystal â gofyn am gyngor cyfreithiol, drafod y mater â Phrif Weithredwr yr endid, a chyda'r adran ariannu, er mwyn canfod a fyddai'n bosibl tynnu adroddiad yr archwilydd yn ôl cyn gosod y datganiadau ariannol gerbron y Senedd neu'r Cynulliad.

Ffeithiau sy'n dod i'r amlwg ar ôl cyhoeddi'r datganiadau ariannol

I-139 Mewn rhai awdurdodaethau, gall cyfraith neu reoliad wahardd endidau yn y sector cyhoeddus rhag cyhoeddi datganiadau ariannol diwygiedig. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai fod yn briodol i'r archwilydd weithredu drwy adrodd wrth y corff statudol priodol (ISA (Y DU) 560, A17 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 560, 15).

I-140 Yn y sector cyhoeddus, bydd yr archwiliad yn dod i ben pan gyhoeddir barn archwilio statudol yr archwilydd ac, ar gyfer rhai o ymrwymadau archwilio'r sector cyhoeddus ni ellir diwygio'r datganiadau ariannol ar ôl eu chyhoeddi, ac ni ellir ailgyhoeddi adroddiad yr archwilydd. Os bydd mater yn codi ar ôl cyhoeddi'r datganiadau ariannol y mae angen ei gyfeirio i sylw rhanddeiliaid, ac nad oes modd ailgyhoeddi'r farn archwilio, mae mecanweithiau eraill ar gael i'r archwilydd wneud datganiad cyhoeddus. Er enghraifft, yn y sector llywodraeth ganolog gall yr Archwilydd Cyffredinol perthnasol adrodd wrth y Senedd/Cynulliad neu gall archwilwyr lleol neu'r Rheolwr Archwilio yn yr Alban neu'r Archwilydd Cyffredinol yng Nghymru ystyried cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd.

ISA (y DU) 570: Busnes gweithredol

I-141 Dyma amcanion yr archwilydd:

(a)cael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch y canlynol, a llunio casgliadau ynghylch hynny:

- a oes ansicrwydd perthnasol yn gysylltiedig â busnes gweithredol; a
- phriodoldeb defnydd rheolwyr o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a

(b)adrodd yn unol ag [ISA (y DU) 570] (ISA (Y DU) 570, 9-1).

Egwyddorion allweddol

I-142 Yn yr adran hon o Nodyn Ymarfer 10 rhoddir canllawiau ar gymhwysio ISA (Y DU) 570 i endidau'r sector cyhoeddus, sy'n seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

- a) Bod yr ymagwedd at fusnes gweithredol yn cydymffurfio'n llwyr ag ISAs (Y DU).
- b) Serch hynny, yn llawer o endidau'r sector cyhoeddus (ond nid pob un ohonynt), ni fydd yr archwilydd yn canolbwyntio rhyw lawer o'i amser a'i adnoddau ar y defnydd o'r sail busnes gweithredol, gan fod y fframweithiau adrodd ariannol perthnasol yn rhagweld y bydd y sail gyfrifyddu busnes gweithredol yn berthnasol lle bo gwasanaethau'r endid yn parhau i gael eu darparu gan y sector cyhoeddus. Mewn achosion o'r fath, nid yw'n debygol y ceir ansicrwydd o bwys yn gysylltiedig â busnes gweithredol.
- c) Oherwydd hyn, bydd hi'n aml yn briodol mabwysiadu ymagwedd syml a safonedig at gydymffurfio ag ISA (Y DU) 570 ar gyfer endidau o'r math y cyfeirir ato yn (b).
- d) Hyd yn oed lle nad yw'r fframwaith adrodd ariannol yn cynnwys darpariaethau o'r math y cyfeirir atynt yn (b), mae'r ffaith bod endidau'r sector cyhoeddus yn debygol o allu derbyn cymorth oddi wrth y llywodraeth i wireddu eu hasedau a bodloni eu rhwymedigaethau yn golygu y gallai'r sail busnes gweithredol fod yn fwy perthnasol nag ar gyfer endidau'r sector preifat sydd mewn sefyllfa ariannol debyg (er na fydd hynny'n wir bob tro). Bydd yr archwilydd yn adlewyrchu'r amgylchiadau hyn wrth lunio casgliadau ynghylch busnes gweithredol i ddibenion adroddiad yr archwilydd.
- e) Ar gyfer llawer o endidau'r sector cyhoeddus, mae cynaliadwyedd ariannol yr endid sy'n adrodd a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo yn fwy tebygol o fod o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd na chymhwysio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol. Nid yw'r materion hyn yn berthnasol yn uniongyrchol i farn yr archwilydd, ond efallai y bydd yr archwilydd am ddefnyddio pwerau adrodd ychwanegol i dynnu sylw'r defnyddiwr at bryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol.

Busnes gweithredol yn y sector cyhoeddus

I-143 Yn y sector cyhoeddus, gall gofynion y fframwaith adrodd ariannol, yn hytrach na chynaliadwyedd ariannol yr endid sy'n adrodd, ysgogi defnydd rheolwyr o sail gyfrifyddu busnes gweithredol Pan fo'r archwilydd o'r farn fod defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol yn briodol, ond bod problemau cynaliadwyedd ariannol serch hynny i'w dwyn i sylw defnyddiwr y cyfrifon, bydd yr archwilydd yn defnyddio'r pwerau adrodd hynny a ystyrir yn briodol yn yr amgylchiadau. Mae'n bosibl na fydd adroddiad yr archwilydd yn cael ei addasu o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Mae'r canllawiau a ganlyn ar ISA (Y DU) 570 yn ymdrin yn bennaf â busnes gweithredol yn hytrach nag adroddiadau ar gynaliadwyedd ariannol.

I-144 Mae'r canllawiau cymhwyso yn ISA (Y DU) 570 yn rhoi'r enghreifftiau canlynol o faterion busnes gweithredol a allai godi yn y sector cyhoeddus. **Maent yn cynnwys sefyllfaoedd lle bydd endidau'r sector cyhoeddus yn gweithredu ar sail elw, lle gallai cymorth gan y llywodraeth fod wedi'i ostwng neu ei dynnu'n ôl, neu yn achos preifateiddio ymhlith sefyllfaoedd eraill. Gall digwyddiadau neu amodau sy'n bwrw amheuaeth sylweddol dros allu endid i barhau fel busnes gweithredol yn y sector cyhoeddus gynnwys sefyllfaoedd lle nad oes gan endid y sector cyhoeddus gyllid er mwyn parhau i fodoli, neu pan fo penderfyniadau polisi yn cael eu gwneud sy'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir gan endid y sector cyhoeddus (ISA (Y DU) 570, A2 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 570, 2).**

I-145 Bydd archwilwyr yn adrodd ar sail eithriadau ar gadernid asesiad y rheolwyr a digonolrwydd datgeliadau yn gysylltiedig â'r prif risgiau o flaen yr endid, a'r risgiau i'r endid sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal ag adrodd ar ansicrwydd sylweddol yn gysylltiedig â busnes gweithredol mewn adran ar wahân o adroddiad yr archwilydd.

Canllawiau sector-benodol

I-146 Yn ogystal â gofynion ISAs (Y DU) a'r Nodyn Ymarfer hwn, mae archwilydd y sector cyhoeddus yn rhoi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan awdurdodau perthnasol ynghylch archwilio busnes gweithredol, a all gynnwys enghreifftiau dangosol, lle mae canllawiau o'r fath yn ymwneud â sector neu amgylchiadau penodol yr endid a archwilir. Er enghraifft, mae archwilwyr awdurdodau lleol a chyrrff lleol y GIG yn rhoi sylw i nodiadau cyfarwyddyd a gyhoeddwyd yn unol â *Deddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014*⁹.

Cynllunio'r ymagwedd at fusnes gweithredol

I-147 I ddechrau, bydd yr archwilydd yn penderfynu ar ymagwedd gymesur at fusnes gweithredol sy'n seiliedig ar amgylchiadau'r endid a archwilir, a'r fframwaith adrodd ariannol cymwys.

I-148 Mae'n bosibl y bydd y fframwaith adrodd ariannol yn cynnwys darpariaeth i dybio y bydd y disgwyliad i wasanaeth barhau i gael ei ddarparu yn y dyfodol yn dystiolaeth ddigonol i baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol. Er enghraifft, mae *Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM* yn cynnwys darpariaeth o'r fath. Bydd helaethrwydd gweithdrefnau'r archwilydd ar fusnes gweithredol yn dibynnu ar bresenoldeb neu absenoldeb y ddarpariaeth honno.

I-149 Os bydd y fframwaith adrodd ariannol yn darparu ar gyfer mabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol gan fod disgwyl i wasanaeth barhau i gael ei ddarparu yn y dyfodol, bydd yr archwilydd yn cymhwyso'r ymagwedd darpariaeth gwasanaeth barhaus a nodir yn yr adran hon o Nodyn Ymarfer 10 (yr adrannau o dan y teitlau 'Ymagwedd darpariaeth gwasanaeth barhaus - gweithdrefnau asesu risg' ac 'Ymagwedd darpariaeth gwasanaeth barhaus - gwerthuso asesiad y rheolwyr').

⁹ Mae *Nodyn Cyfarwyddyd Atodol (SGN) 01 Going concern – auditor's responsibilities for local public bodies* a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym mis Medi 2021 yn ffynhonnell berthnasol ar gyfer cyfarwyddyd i archwilwyr lleol yn Lloegr at ddiben y paragraff hwn.

I-150 Os nad yw'r fframwaith adrodd ariannol yn darparu ar gyfer mabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar sail disgwyl i wasanaeth barhau i gael ei ddarparu yn y dyfodol, bydd yr archwilydd yn cymhwyso ISA (Y DU) 570, gan ystyried gweddill adran ISA (Y DU) 570 o Nodyn Ymarfer 10.

I-151 Mae'r fframweithiau adrodd ariannol sy'n cynnwys y darpariaethau hyn yn eu cynnwys i adlewyrchu amgylchiadau neilltuol sy'n berthnasol i endidau'r sector cyhoeddus. Yn y sector cyhoeddus, gallai endidau fod â diffyg incwm dros wariant neu ormod o rwymedigaethau dros asedau. Fodd bynnag, ni fydd endid yn y sector cyhoeddus bob amser yn peidio gweithredu, nac o dan orfodaeth i leihau graddfa ei weithrediadau, o ganlyniad i ddiffyg gallu i ariannu ei weithrediadau neu ei rwymedigaethau net. Dyma'r rhesymau am hynny:

- cyrff statudol yw endidau llywodraeth leol y mae'n ofynnol iddynt barhau i ddarparu swyddogaethau sy'n hanfodol i gymunedau lleol; maent hwy eu hunain yn gyrff sy'n codi referniw ac mae posibilrwydd iddynt, ar gais, adennill colledion dros gyfnod o amser;
- ceir rhagdybiaeth gyffredinol na fydd unrhyw ran o'r GIG yn cael rhoi'r gorau i weithredu oni fydd llywodraeth ganolog yn ei chau'n fwriadol, ar ôl cyhoeddi hynny ymlaen llaw. Mae deddfwriaeth ar waith lle bydd rhwymedigaethau ymddiriedolaethau'r GIG yn cael eu trosglwyddo i endid cyhoeddus arall os caiff yr ymddiriedolaeth ei chau; a
- gall adrannau o'r llywodraeth weithredu i osgoi methiannau ariannol gan endidau unigol mewn llywodraeth leol ac yn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i gael eu darparu drwy hynny.

Ymagwedd darpariaeth gwasanaeth barhaus - gweithdrefnau asesu risg a gweithgareddau cysylltiedig

I-152 Bydd yr archwilydd yn cynnal gweithdrefnau asesu risg ar fusnes gweithredol, fel sy'n ofynnol ym mharagraffau 10-1 a 10-2 o ISA (Y DU) 570. Bydd yr archwilydd yn sefydlu dealltwriaeth o'r canlynol mewn perthynas â busnes gweithredol: yr endid a'i amgylchedd; y fframwaith adrodd ariannol cymwys; a system rheolaeth fewnol yr endid.

I-153 Byddai disgwyl i'r ystyriaethau ym mharagraff A4-1 o ISA (Y DU) 570¹⁰ fod yn berthnasol gan amlaf i endid cyhoeddus lle bo'r fframwaith adrodd ariannol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer mabwysiadu rhagdybiaeth o fusnes gweithredol ar sail y disgwyl i wasanaeth barhau i gael ei ddarparu yn y dyfodol.

¹⁰ Gallai natur, amseriad a helaethrwydd gweithdrefnau asesu risg yr archwilydd i gaffael y ddealltwriaeth sy'n ofynnol ym mharagraffau 10-1 i 10-2 o ISA (Y DU) 570 ddibynnu ar y graddau y mae'r mater(ion) unigol yn berthnasol yn yr amgylchiadau. Yn unol â hynny, gallai rhai ystyriaethau ynghylch natur a helaethrwydd y trefniadau goruchwylio a llywodraethu y mae'r endid wedi'u sefydlu fod yn llai perthnasol neu'n anghymwys. Ar ben hynny, gallai dull rheolwyr o asesu gallu'r endid i barhau fel busnes gweithredol fod yn syml, gan fod digwyddiadau ac amodau a allai, gyda'i gilydd neu ar wahân, fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r endid i barhau fel busnes gweithredol yn effeithio ar y busnes i raddau

I-154 Os bydd archwilydd yn cymhwyso'r ymagwedd darpariaeth gwasanaeth barhaus at fusnes gweithredol, er mwyn cynnal y gweithdrefnau asesu risg sy'n ofynnol gan ISA (Y DU) 570 bydd angen i'r archwilydd gaffael tystiolaeth ddigonol i gasglu'r canlynol:

- a) oherwydd natur yr endid, er gwaethaf unrhyw fwriad i ddiddymu'r endid neu roi terfyn ar ei weithrediadau ar eu ffurf gyfredol, y bydd yn parhau i fod yn briodol mabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oherwydd, mewn amgylchiadau o'r fath, gellir disgwyl i'r gwasanaethau a ddarperir ganddo barhaus i gael eu darparu gan awdurdodau cyhoeddus cysylltiedig ac y bydd paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol yn dal i roi cynrychiolaeth gywir o'r eitemau yn y datganiadau ariannol;
- b) bod y fframwaith adrodd ariannol yn caniatáu i'r endid baratoi ei ddatganiadau ariannol ar sail y rhagdybiaeth a nodir o dan (a) uchod; a
- c) bod system rheolaeth fewnol yr endid i nodi digwyddiadau neu amodau sy'n berthnasol i fusnes gweithredol yn gymesur â'r risg isel bod ansicrwydd sylweddol yn bodoli yn gysylltiedig â busnes gweithredol.

I-155 Fodd bynnag, os bydd asesiad risg yr archwilydd yn casglu y gallai fod yn amhriodol tybio bod y gwasanaethau a ddarperir gan yr endid yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol rhagweladwy, bydd yr archwilydd yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r ymagwedd darpariaeth gwasanaeth barhaus ac yn dychwelyd at weithdrefnau amgen er mwyn cyflawni gofynion ISA (Y DU) 570, gan ystyried gweddill adran ISA(Y DU) 570 o Nodyn Ymarfer 10.

I-156 Mae'r asesiad risg a nodir yn yr adran hon yn seiliedig ar ystyried a fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr endid a archwilir yn dal i gael eu defnyddio. Gallai'r gwasanaethau hynny, yn y dyfodol, gael eu darparu gan yr un endid, gan endid arall neu endidau eraill yn y sector cyhoeddus, neu y tu allan i'r sector cyhoeddus. Nid yw parhad, neu fel arall, ym modolaeth endid o'r fath a'r cyllid ar ei gyfer, ynddo'i hun, yn berthnasol i weithdrefnau asesu risg yr archwilydd dros fusnes gweithredol ar gyfer endidau y mae'r fframwaith adrodd ariannol yn darparu ar gyfer mabwysiadu'r dybiaeth busnes gweithredol ar eu cyfer ar sail parhad disgwylidig trefniadau i ddarparu gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'r archwilydd yn cyflawni'r gweithdrefnau asesu risg hyn gan wybod nad yw ansicrwydd ynghylch bodolaeth yr endid a archwilir a/neu gyllid ar ei gyfer yn y dyfodol yn creu ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â busnes gweithredol ar gyfer endidau o'r fath, ar yr amod nad yw'r ansicrwydd hwn yn ymestyn hefyd i ddarparu'r gwasanaethau yn y dyfodol.

Ymagwedd darpariaeth gwasanaeth barhaus - gwerthuso asesiad y rheolwyr

I-157 Yn y sector cyhoeddus, efallai na fydd y rheolwyr bob tro yn cynnal asesiad manwl neu benodol o fusnes gweithredol gan fod yr asesiad o fusnes gweithredol yn ymddangos yn syml mewn achosion tebyg

llai. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae gweithdrefnau asesu risg yr archwilydd yn debygol o fod yn llai helaeth. (ISA (Y DU) 570, A4-1).

i'r rhai a ddisgrifir uchod. Fodd bynnag, mae'n dal yn ofynnol i'r archwilydd gynnal gweithdrefnau i werthuso asesiad rheolwyr o fusnes gweithredol (ISA (Y DU) 570, 12-1 i 12.3).

I-158 Mae Paragraff A8-1 o ISA (Y DU) 570¹¹ yn nodi ystyriaethau a allai fod yn berthnasol i endidau y mae'r fframwaith adrodd ariannol yn cynnwys darpariaeth iddynt fabwysiadu'r rhagdybiaeth busnes gweithredol ar sail y disgwyliad y bydd gwasanaeth yn parhau i gael ei ddarparu yn y dyfodol.

I-159 Er gwaethaf hyn, er y gall yr archwilydd ddod i gasgliad heb ddadansoddiad manwl gan y rheolwyr, mae paragraff 10-3 o ISA (Y DU) 570 yn ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd wneud cais i'r rheolwyr gynnal asesiad o allu'r endid i barhau fel busnes gweithredol os nad ydynt wedi gwneud hynny.

I-160 Wrth gynnal y gweithdrefnau sy'n ofynnol ym mharagraff 12-2 o ISA (Y DU) 570, lle bo'r archwilydd yn cynllunio i gynnal gweithdrefnau asesu risg llai helaeth dros fusnes gweithredol, yn unol â'r ymgwedd a nodir yn yr adran hon o Nodyn Ymarfer 10, gallai gwerthusiad yr archwilydd o:

- ddull y rheolwyr o asesu gallu'r endid i barhau fel busnes gweithredol (12-2(a));
- perthnasedd a dibynadwyedd y data sylfaenol (12-2(b)); a
- phriodoldeb y rhagdybiaethau sylfaenol (12-2(c))

olygu bod angen i'r archwilydd gaffael tystiolaeth ddigonol o'r materion a ganlyn i gasglu'r canlynol:

a) naill ai:

- (lle bo'r rheolwyr wedi cynnal asesiad syml o allu'r endid i barhau fel busnes gweithredol): ei bod hi'n glir bod asesiad y rheolwyr yn briodol yn yr amgylchiadau; neu
- (lle nad yw'r rheolwyr cynnal unrhyw asesiad er gwaethaf cais o dan baragraff 10-3 o ISA (Y DU) 570): bod yr archwilydd yn gallu casglu yn absenoldeb dadansoddiad manwl gan reolwyr yn unol â pharagraff A8-1 o ISA (Y DU) 570; a

b) naill ai:

¹¹ Nid cyfrifoldeb yr archwilydd yw cywiro diffyg dadansoddi gan reolwyr. Mewn rhai amgylchiadau, fodd bynnag, efallai na fydd diffyg dadansoddi manwl gan reolwyr i gefnogi eu hasesiad yn atal yr archwilydd rhag casglu a yw defnydd rheolwyr o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol yn briodol yn yr amgylchiadau. Bryd hynny, bydd modd cynnal gwerthusiad yr archwilydd o briodoldeb asesiad rheolwyr heb gynnal gweithdrefnau gwerthuso manwl os yw gweithdrefnau archwilio eraill yr archwilydd yn ddigonol i alluogi'r archwilydd i gasglu a yw defnydd rheolwyr o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol yn yr amgylchiadau (ISA (Y DU) 570, A8-1).

- (Ile bo'r rheolwyr wedi cynnal asesiad syml o allu'r endid i barhau fel busnes gweithredol): nad oes unrhyw ddata sylfaenol yn bodoli gan nad yw asesiad y rheolwyr yn seiliedig ar ffactorau meintiol; neu
 - (Ile nad yw'r rheolwyr cynnal unrhyw asesiad er gwaethaf cais o dan baragraff 10-3 o ISA (Y DU) 570): nad oes unrhyw ddata na rhagdybiaethau sylfaenol i'w hasesu gan nad yw'r rheolwyr wedi cynnal eu hasesiad eu hunain; a
- c) bod rhagdybiaeth sylfaenol briodol, oherwydd natur yr endid, er gwaethaf unrhyw fwrriad i ddiddymu'r endid neu roi terfyn ar ei weithrediadau ar eu ffurf gyfredol, y gellir disgwyl i'r gwasanaethau a ddarperir gan yr endid barhau i gael eu darparu gan awdurdodau cyhoeddus cysylltiedig, ac y bydd paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol yn dal i roi cynrychiolaeth gywir o'r eitemau yn y datganiadau ariannol; a
- ch) bod y fframwaith adrodd ariannol yn caniatáu i'r endid baratoi ei ddatganiadau ariannol ar sail y rhagdybiaeth a nodir o dan (c) uchod.

I-161 Fodd bynnag, os na all yr archwilydd gaffael digon o dystiolaeth i ategu'r rhagdybiaeth y bydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr endid yn parhau i gael eu darparu hyd y gellir rhagweld, ac felly na all ddod i'r casgliadau a amlinellir yn y paragraff blaenorol, bydd yr archwilydd yn rhoi'r gorau i gymhwyso'r ymagwedd darpariaeth gwasanaeth barhaus ac yn dychwelyd at weithdrefnau amgen er nwyn cyflawni gofynion ISA (Y DU) 570, gan ystyried gweddill adran ISA (Y DU) 570 o Nodyn Ymarfer 10.

I-162 Ar gyfer endidau a archwilir y mae'r fframwaith adrodd ariannol yn darparu ar gyfer mabwysiadu'r dybiaeth busnes gweithredol ar eu cyfer ar sail parhad disgwyliedig trefniadau i ddarparu gwasanaeth yn y dyfodol, mae casgliadau'r archwilydd ynghylch asesiad y rheolwyr, fel a nodir yn yr adran hon, yn ymwneud â pha un a fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr endid a archwilir yn parhau i gael eu darparu. Nid oes angen i asesiad y rheolwyr – a gwerthusiad yr archwilydd ohono – fynd i'r afael ag unrhyw ansicrwydd ynghylch parhad, neu fel arall, ym modolaeth endid o'r fath a'r cyllid ar ei gyfer, ar yr amod nad yw'r ansicrwydd hwn hefyd yn ymestyn i ddarparu'r gwasanaethau yn y dyfodol.

I-163 Wrth ffurfio barnau wrth werthuso asesiad y rheolwyr, bydd yr archwilydd yn rhoi sylw i'r ystyriaethau yn yr adran isod o dan y teitl 'Cyfrifoldebau'r archwilydd i ystyried priodoldeb y sail busnes gweithredol'.

Cyfrifoldeb yr archwilydd i ystyried priodoldeb y sail busnes gweithredol

I-164 Wrth ffurfio barn ynghylch gallu'r endid i barhau â'i weithrediadau, bydd ystyriaeth archwilydd y sector cyhoeddus o fusnes gweithredol yn cynnwys dau ffactor sydd ar wahân ond weithiau'n gorgyffwrdd â'i gilydd:

- y risg sy'n gysylltiedig â newidiadau yng nghyfeiriad polisi; a
- risg weithredol neu fusnes.

I-165 Bydd yr archwilydd yn cadarnhau a oes bwriad hysbys gan y Senedd/Cynulliad i ddiddymu, trosglwyddo neu breifateiddio gweithgareddau'r endid a archwilir.

I-166 Pan ddaw'r archwilydd yn ymwybodol o wybodaeth sy'n nodi bod y Senedd/Cynulliad wedi gwneud, neu'n bwriadu gwneud, penderfyniad sy'n debygol o effeithio ar fodolaeth weithredol barhaus yr endid, bydd yr archwilydd yn gyntaf yn sefydlu a yw gweithgareddau gweithredol yr endid yn debygol o gael eu trosglwyddo i ran arall o'r sector cyhoeddus. Os ydynt, waeth a fydd yr endid yn parhau i weithredu ai peidio, mae'n debygol y bydd hi'n dal yn briodol defnyddio'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Os nad ydynt i gael eu trosglwyddo o fewn y sector cyhoeddus, wrth ystyried y rhagdybiaeth busnes gweithredol, efallai y bydd yr archwilydd yn gofyn i'r endid a archwilir sicrhau llythyr o gefnogaeth ariannol gan yr adran neu gorff gweithredol perthnasol, yn cadarnhau bod yr endid yn parhau i gael cefnogaeth ariannol i ddefnyddio ei asedau a bodloni rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae'r penderfyniad i gaffael tystiolaeth o gymorth yn ystyriol o ganlyniadau eraill asesiad y rheolwyr neu'r archwilydd o fusnes gweithredol, er enghraifft asesu rhagolygon, adnoddau sydd ar gael ac ansicrwydd perthnasol.

I-167 Efallai y bydd gan rai o gyrff y sector cyhoeddus ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb. Gallai bodolaeth gofyniad o'r fath ddylanwadu ar gwmpas a natur gweithdrefnau archwilio; er enghraifft, gallai fod yn briodol ystyried perfformiad ariannol yr endid, gan gynnwys effeithiolrwydd cynlluniau adennill ariannol. Nid yw methu mantoli'r gyllideb ynddo'i hun yn destun pryder yn achos busnes gweithredol.

I-168 Mae bwriad y Senedd/Cynulliad yn ystyriaeth allweddol yn y sector cyhoeddus. Oherwydd hynny, mewn rhai achosion gall archwilydd y sector cyhoeddus ystyried gwneud cais i'r endid sicrhau cadarnhad uniongyrchol gan yr adran neu'r corff gweithredol sy'n gyfrifol am roi cefnogaeth ariannol i'r endid nad oes unrhyw gynlluniau a fyddai'n debygol o effeithio ar barhad yr endid fel busnes gweithredol. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bosibl na fydd sylwadau gan y Swyddog Cyfrifyddu/Atebol neu swyddog cyllid atebol yr endid y bydd y gefnogaeth ariannol yn parhau i cael ei derbyn yn ddigonol fel sicrwydd ystyrlon ynghylch dyfodol endid. Y rheswm am hyn yw y gallai'r sylwadau fod yn seiliedig ar ragdybiaeth o wybod ffeithiau ynghylch bwriadau'r cefnogwr ariannol nad yw'r endid yn eu gwybod neu farn ynghylch amodau'n gysylltiedig â chefnogi'r endid yn y dyfodol, nad yw'r endid yn gallu ei ffurfio.

I-169 Lle ceir arwyddion y gallai'r endid roi'r gorau i weithredu, a lle bo'r archwilydd yn barnu bod y sail busnes gweithredol yn briodol er mwyn paratoi datganiadau ariannol endid y sector cyhoeddus, a hynny i raddau sylweddol ar sail cadarnhadau trydydd parti a dderbynnir gan yr adran neu'r corff gweithredol sy'n gyfrifol am roi cefnogaeth ariannol, bydd yr archwilydd yn ystyried a yw hyn yn fater

mor arwyddocaol fel bod cyfeiriad at y cadarnhadau hynny yn cael ei gynnwys yn y datganiadau ariannol ac yn adroddiad yr archwilydd fel ffactorau sy'n berthnasol er mwyn cael dealltwriaeth gywir o sail barn yr archwilydd. Hyd yn oed os bernir nad oes angen cyfeirio at y cadarnhadau yn y datganiadau ariannol, os yw'n ofynnol i'r archwilydd adrodd o dan baragraff 21-1(d) o ISA (Y DU) 570¹², gall yr archwilydd ystyried ei bod hi'n briodol cyfeirio at y defnydd o gadarnhadau fel tystiolaeth archwilio yn adroddiad yr archwilydd wrth ddisgrifio'r gweithdrefnau a gynhaliwyd mewn perthynas â'r rhagdybiaeth o fusnes gweithredol.

I-170 Os na ellir caffael sylwadau na chadarnhadau priodol, bydd yr archwilydd yn ystyried a oes ansicrwydd perthnasol sy'n golygu bod angen cynnwys adran ar wahân o dan y pennawd 'Ansicrwydd perthnasol yn gysylltiedig â busnes gweithredol' yn adroddiad yr archwilydd.

Ystyriaeth o'r dyfodol rhagweladwy

I-171 Mae penderfyniadau i ddiddymu, trosglwyddo neu breifateiddio swyddogaethau cyrff y sector cyhoeddus yn eu hanfod yn destun ansicrwydd gwleidyddol; er enghraifft, oherwydd newid llywodraeth neu newid swyddi gweinidogion. Fodd bynnag, mae'n anghyffredin peidio gallu rhagfynegi'r dyfodol gyda rhywfaint o sicrwydd ar gyfer y cyfnod hyd at flwyddyn ar ôl dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Yn aml gall penderfyniadau gwleidyddol, yn enwedig trosglwyddo swyddogaethau rhwng gwahanol endidau fod mor ansicr â'r risgiau cwbl anrhagweladwy hynny a wynebwr gan holl gwmnïau'r sector preifat, neu'n fwy ansicr na hynny - risgiau na allai'r cyfarwyddwyr na'r archwilydd fod yn ymwybodol ohonynt.

Amgylchiadau lle ceir amheuaeth ynghylch y sail busnes gweithredol

I-172 Mae'r endid yn fwyaf tebygol o ddod i ben yn sgil newid deddfwriaethol neu benderfyniad a wneir gan y Senedd/Cynulliad. Gellir gwneud penderfyniad i:

- ddirwyn endid i ben a'i ddiddymu'n gyfan gwbl, lle bo llywodraeth ganolog yn penderfynu na does angen swyddogaethau'r endid mwyach;
- dirwyn i ben a diddymu endid cyfan neu ran ohono, ond trosglwyddo rhai neu'r cyfan o'i swyddogaethau i endid arall yn yr un sector neu sector arall;
- uno'r endid, neu ran ohono, ag endid arall yn yr un sector; neu
- breifateiddio endid, neu ran ohono, lle bo'r llywodraeth yn penderfynu y gallai'r sector preifat gyflawni rhai swyddogaethau'n well.

I-173 Ym mhob un o'r achosion hyn, bydd bodolaeth weithredol yr holl endid neu gyfran ohono yn dod i ben, ond dim ond pe bai'r endid yn cael ei ddiddymu heb barhau ag unrhyw weithrediadau y byddai'n amlwg nad yw'r sail busnes gweithredol yn briodol. Mewn achosion eraill, bydd yr archwilydd

¹²Gweler yr adran isod o dan y pennawd 'Cyfeiriad yn adroddiad yr archwilydd at fusnes gweithredol'.

yn ystyried y sail ar gyfer trosglwyddo'r gweithgareddau, o safbwynt yr endid sy'n ildio'r asedau a'r rhwymedigaethau ar y dyddiad cyfrifyddu.

I-174 Yn y sector cyhoeddus nid yw'n anghyffredin i gyrff statudol roi gwarantiau na ellir, o alw amdanynt, eu bodloni drwy'r adnoddau sydd ar gael i'r sefydliad ar y pryd. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr archwilydd yn ystyried a yw'r datgeliadau a wnaed gan y rheolwyr yn gysylltiedig â busnes gweithredol yn ddigonol, ac a oes angen cyfeirio at y mater yn adroddiad yr archwilydd.

I-175 Pan fo endid llywodraeth ganolog yn gweithredu hyd braich oddi wrth y llywodraeth, yn enwedig mewn swyddogaeth fasnachu, gall yr archwilydd benderfynu bod diffyg incwm dros wariant neu ormodedd o rwymedigaethau dros asedau yn tansilio'r rhagdybiaeth o fusnes gweithredol.

Cyfrifoldebau archwilwyr y sector cyhoeddus ar gyfer adolygu ac adrodd ar drefniadau endid i sicrhau gwerth am arian.

I-176 Efallai y bydd fframweithiau archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr y sector cyhoeddus adolygu ac adrodd ar drefniadau'r endid ar gyfer sicrhau gwerth am arian, ac mewn achosion o'r fath gallai fod yn briodol i archwilwyr ystyried sut mae'r endid yn sicrhau ei fod yn gallu cynnal cynaliadwyedd ei wasanaethau a'i gyllid. Ond lle bydd archwilwyr yn nodi pryderon ynghylch iechyd ariannol cyffredinol endid, neu ei drefniadau i gynnal cynaliadwyedd ei wasanaethau a'i gyllid, nid yw hyn o reidrwydd yn bwrw amheuaeth ar allu'r endid i barhau i baratoi ei ddatganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Cyfeiriadau yn adroddiad yr archwilydd at fusnes gweithredol

I-177 Ar gyfer y cyrff a bennir ym mharagraff 21-1(d) o ISA (Y DU) 570¹³, mae'r adran o adroddiad yr archwilydd sy'n dwyn y teitl 'Casgliadau yn gysylltiedig â busnes gweithredol' yn cynnwys esboniad o'r modd yr aeth yr archwilydd ati i werthuso asesiad rheolwyr o allu'r endid i barhau fel busnes gweithredol a, lle bo'n berthnasol, arsylwadau allweddol sy'n codi mewn perthynas â'r gwerthusiad hwnnw. Lle bo casgliadau'r archwilydd yn seiliedig ar ystyriaethau a nodir yn yr adran hon o Nodyn Ymarfer 10, fel rheidrwydd i barhau i ddarparu'r gwasanaeth a ddarperir gan endid y sector cyhoeddus ar ryw ffurf, bydd yr archwilydd yn cyfeirio at yr ystyriaethau hyn yn adran 'Casgliadau yn gysylltiedig â busnes gweithredol' o adroddiad yr archwilydd.

I-178 Pan fo'r sefyllfa'n gysylltiedig â statws endid y sector cyhoeddus o natur gymhleth, neu pan fo pryderon sylweddol yn gysylltiedig â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaethau a ddarperir, bydd yr archwilydd yn ystyried defnyddio unrhyw bwerau adrodd ychwanegol i adrodd ymhellach ar yr ystyriaethau hyn.

¹³ Mae'r endidau hyn, fel y nodir ym mharagraff 21-1(d) o ISA (y DU) 570, yn endidau budd cyhoeddus, yn endidau eraill sydd wedi'u rhestru, yn endidau y mae'n ofynnol iddynt adrodd sut maent wedi cymhwyso Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, a rhai sy'n dewis gwneud hynny o'u gwirfodd, ac endidau eraill sy'n ddarostyngedig i ofynion llywodraethu *Rheoliadau Cwmnïau (Adroddiadau Amrywiol) 2018*.

I-179 Wrth baratoi adroddiad yr archwilydd, bydd yr archwilydd ystyried a fyddai'n fuddiol cynnwys esboniad o'r Casgliadau yn gysylltiedig â busnes gweithredol sy'n cyfleu ystyr y cysyniad o fusnes gweithredol yn glir, fel y trafodir yng ngwaith yr archwilydd. Gallai'r adran hon o adroddiad yr archwilydd, os yw'n cael ei chynnwys, esbonio nad yw'r casgliadau a roddir yn gyfystyr â sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd ariannol yr endid yn gyfredol nac yn y dyfodol.

I-180 Nodir ystyriaethau ychwanegol sy'n berthnasol i gynnwys adroddiad yr archwilydd yn yr adrannau uwchben o dan y teitl 'Cyfrifoldebau'r archwilydd dros ystyried priodoldeb y sail busnes gweithredol' a 'Busnes gweithredol lle bo endidau'r sector cyhoeddus yn paratoi datganiadau ariannol ar sail arian parod'.

ISA (y DU) 580: Sylwadau ysgrifenedig

I-181 Dyma amcanion yr archwilydd:

(a) caffael sylwadau ysgrifenedig gan reolwyr a, lle bo'n briodol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, eu bod o'r farn eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldeb o ran paratoi'r datganiadau ariannol a chyflawnder yr wybodaeth a ddarparwyd i'r archwilydd;

(b) cynnwys sylwadau ysgrifenedig i gefnogi tystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol, os bydd yr archwilydd yn tybio bod angen hynny, neu os yw hynny'n ofynnol mewn ISAs (y DU) eraill; ac

(c) ymateb yn briodol i sylwadau ysgrifenedig a ddarperir gan reolwyr a, lle bo'n briodol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, neu os nad yw'r rheolwyr neu, lle bo'n briodol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn darparu'r sylwadau ysgrifenedig y mae'r archwilydd yn gofyn amdanynt. (ISA (Y DU) 580, 6).

Nodi pwy sy'n gymwys i roi sylwadau ysgrifenedig yn y sector cyhoeddus

I-182 Bod yr archwilydd yn gofalu i sicrhau na dderbynnir sylwadau ond gan rai sy'n gymwys i'w rhoi, fel bod:

- cydnabyddiaeth o gyfrifoldebau "cyfarwyddwyr" dros y datganiadau ariannol yn cael ei rhoi gan rai yr ymddiriedir y cyfrifoldebau hynny iddynt; a
- sylwadau'r rheolwyr ar faterion sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol yn cael eu cyfleu gan unigolion sydd yn gwybod y ffeithiau neu a chanddynt awdurdod i wneud y dyfarniad neu fynegi'r farn.

I-183 Mewn endidau llywodraeth ganolog ac iechyd, fel rheol ceir sylwadau gan y Swyddog Cyfrifyddu neu'r Swyddog Atebol. Mewn cyrff llywodraeth leol, bydd gan y swyddog cyllid cyfrifol gyfrifoldeb statudol dros weinyddu materion ariannol yr endid mewn modd priodol. Felly gall archwilydd endid llywodraeth leol gaffael sylwadau gan y swyddog cyllid cyfrifol.

Cynnwys sylwadau ysgrifenedig yn y sector cyhoeddus

I-184 Gall y mandadau ar gyfer archwilio datganiadau ariannol o endidau yn y sector cyhoeddus fod yn ehangach na rhai endidau eraill. O ganlyniad i hyn, mae'n bosibl y bydd y sail, yn gysylltiedig â chyfrifoldebau rheolwyr, y cynhelir archwiliad o ddatganiadau ariannol endid y sector cyhoeddus arni yn esgor ar fwy o sylwadau ysgrifenedig. Gallai'r rhain gynnwys sylwadau ysgrifenedig yn cadarnhau bod trafodion a digwyddiadau wedi'u cynnal yn unol â chyfraith, rheoliad neu awdurdod arall (ISA 580, A9 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA 580, 10-11).

ISA (y DU) 600: Ystyriaethau arbennig - archwiliadau o ddatganiadau ariannol grwpiau (gan gynnwys gwaith archwilwyr cydrannol)

I-185 Dyma amcanion yr archwilydd:

(a) penderfynu a ddylid gweithredu fel archwilydd y datganiadau ariannol grŵp; a

(b) os yw'n gweithredu fel archwilydd y datganiadau ariannol grŵp:

(i) cyfathrebu'n glir ag archwilwyr cydrannol ynghylch cwmpas ac amseriad eu gwaith ar wybodaeth ariannol yn gysylltiedig â chydrannau a'u canfyddiadau; a

(ii) caffael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch yr wybodaeth ariannol am gydrannau o'r broses gyfuno i fynegi barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol grŵp wedi'u paratoi, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys (ISA (Y DU) 600, 8).

I-186 Yn rhai rhannau o'r sector cyhoeddus lle bydd darpariaethau statudol yn rheoli cyfrifoldebau prif archwilwyr ac archwilwyr eraill, gall y rhain fod yn drech na darpariaethau ISA (y DU) 600 (ISA (Y DU) 600, A1-1 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 600, 3).

I-187 Yn y sector cyhoeddus, mae'n bosibl na fydd yr archwilydd yn gallu dewis gwrthod neu dynnu'n ôl o ymrwymiad oherwydd natur y mandad neu ystyriaethau budd y cyhoedd. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd ISA (y DU) 600 yn dal yn berthnasol i'r archwiliad grŵp, ac ystyrir diffyg gallu tîm yr ymrwymiad grŵp i gaffael digon o dystiolaeth archwilio briodol yn nhermau ISA (y DU) 705.

I-188 Lle bo archwilydd grŵp yn defnyddio gwaith archwilwyr cydrannol, bydd yr archwilydd grŵp yn penderfynu ynghylch perthnasedd y cydrannau. Yn benodol, gallai fod angen i archwilwyr grŵp roi ystyriaeth ofalus i oblygiadau archwilwyr gwahanol endidau o fewn y grŵp, y gallai rhai ohonynt fod yn gwmnïau, gan ddefnyddio meincnod gwahanol i bennu perthnasedd y corff a archwilydd ganddynt. Bydd yr archwilydd grŵp yn ystyried a yw perthnasedd cydrannau'n briodol o ran perthnasedd y grŵp.

I-189 Mae grwpiau'n gyffredin yn rhai rhannau o'r sector cyhoeddus. Er enghraifft, bydd llywodraeth ganolog yn y Deyrnas Unedig yn cyhoeddi datganiadau ariannol cyfunol ar gyfer adrannau llywodraeth a Chyfrifon Llywodraeth Gyfan. Gall endidau unigol yn y sector cyhoeddus fod yn berchen ar gwmnïau neu feddu ar berchnogaeth ynddynt.

I-190 Atgoffir archwilwyr ynghylch deongliadau'r sector cyhoeddus penodol mewn perthynas â pharatoi'r cyfrifon grŵp a'r diffiniad o reolaeth. Gallai'r rhain fod wedi'u cynnwys yn y fframwaith adrodd ariannol cymwys, fel *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM* ar gyfer endidau llywodraeth ganolog. Ar sail yr wybodaeth honno, bydd yr archwilydd yn asesu a ddylai'r endid archwiliedig lunio datganiadau ariannol grŵp a pha endidau y dylid eu cyfuno.

Datganiadau ariannol cyfun sy'n cynnwys cydrannau heb riant

I-191 Gall endidau cyhoeddus lunio datganiadau ariannol cyfun sy'n cydgasglu'r wybodaeth ariannol a baratowyd gan gydrannau heb riant. Bydd archwilydd y datganiadau ariannol cyfun yn cymhwyso'r egwyddorion yn ISA (Y DU) 600 i archwilio datganiadau ariannol cyfun.

I-192 Bydd archwilwyr cydrannau datganiadau ariannol cyfun o'r fath yn ceisio hwyluso mynediad at archwilydd y datganiadau ariannol cyfun ar sail debyg i'r mynediad sydd gan archwilydd grŵp at waith archwilwyr cydrannau o dan ISA (Y DU) 600. Bydd darpariaethau paragraffau 13 ac A14 hyd at A19 o ISA (Y DU) 600 ar 'Mynediad at wybodaeth' yn berthnasol yn yr amgylchiadau hyn, fel pe bai'r endid yn paratoi'r datganiadau ariannol cyfun yn rhiant i grŵp.

I-193 Gall datganiadau ariannol cyfun yn y sector cyhoeddus fod yn llawn cydrannau dibwys. Bryd hynny, ni fydd yn rhaid i ymagwedd yr archwilydd gynnwys adolygiad o bapurau gwaith archwilwyr cydrannau dibwys. Gall yr archwilydd gynnal gweithdrefnau eraill sy'n rhoi digon o sicrwydd priodol ynghylch gwybodaeth ariannol gyfun y cydrannau. Bydd y gweithdrefnau hyn yn helaethach na'r mân weithdrefnau dadansoddol sy'n ofynnol ym mharagraff 28 o ISA (Y DU) 600; gallai'r gweithdrefnau gynnwys, er enghraifft, profi sampl o gydrannau a dargedir.

I-194 Yng nghyd-destun y math hwn o archwiliad, bydd yr archwilydd yn dehongli'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (fel y'u diffinnir ym mharagraff 10 (a) o ISA (Y DU) 260) fel cyfeiriad at y sawl neu'r sefydliad(au) sy'n gyfrifol am oruchwylio'r broses adrodd ariannol sy'n gysylltiedig â'r datganiadau ariannol cyfun. Gallai'r grŵp hwn fod yn gyfrifol am oruchwylio'r cyfeiriad strategol a rhwymedigaethau'n gysylltiedig ag atebolrwydd y sector y mae'r wybodaeth ariannol yn y datganiadau ariannol cyfun yn berthnasol iddo.

I-195 Gall y dehongliad a ddisgrifir yn y paragraff rhagflaenol (at ddiben adnabod y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn yr archwiliad o ddatganiadau ariannol cyfun sy'n cynnwys cydrannau heb riant) fod yn berthnasol hefyd i adnabod y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yng nghyd-destun mathau eraill o archwiliad grŵp, lle mae hyn yn agored i ddehongliad.

ISA (y DU) 610: Defnyddio gwaith archwilwyr mewnol

I-196 Dyma amcanion yr archwilydd allanol, lle bo gan yr endid swyddogaeth archwilio fewnol, a lle bo'r archwilydd allanol yn disgwyl defnyddio gwaith y swyddogaeth i addasu natur neu amseriad, neu leihau helaethrwydd gweithdrefnau archwilio i'w cyflawni'n uniongyrchol gan yr archwilydd allanol, neu ddefnyddio archwilwyr mewnol i roi cymorth uniongyrchol:

(a) penderfynu a ellir defnyddio gwaith y swyddogaeth archwilio fewnol neu gymorth uniongyrchol gan archwilwyr mewnol, ac os felly, ym mha feysydd ac i ba raddau;

ac ar ôl penderfynu hynny:

(b) os yw'n defnyddio gwaith y swyddogaeth archwilio fewnol, penderfynu a yw'r gwaith hwnnw'n ddigonol i ddibenion yr archwiliad; ac

(c) os yw'n defnyddio archwilwyr mewnol i roi cymorth uniongyrchol, cyfarwyddo, goruchwyllo ac adolygu eu gwaith yn briodol. (ISA (Y DU) 610, 13).

Defnyddio gwaith archwilio mewnol mewn perthynas â chyfrifoldebau eraill yr archwilydd.

I-197 Efallai y bydd gan yr archwilydd gyfrifoldebau i adolygu'r systemau rheolaeth fewnol, yn ogystal ag archwilio datganiadau ariannol, er enghraifft i roi sicrwydd negyddol ynghylch y Datganiad Llywodraethu. Gellir asesu gwaith y swyddogaeth archwilio mewnol i'r dibenion hyn, hyd yn oed os yw'r archwilydd o'r farn na fydd yn bosibl neu'n ddymunol i ddefnyddio ei gwaith mewn meysydd penodol er mwyn cynnal yr archwiliad allanol o'r datganiadau ariannol.

I-198 Gellir ystyried gwaith archwilio mewnol hefyd mewn perthynas â chyfrifoldebau eraill yr archwilydd. Pan ddaw materion i sylw'r archwilydd yn gysylltiedig â gwaith archwilio mewnol, bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu hadolygu'n briodol yn unol ag ISA (Y DU) 610 i weld sut y gallent effeithio ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol.

ISA (y DU) 620: Defnyddio gwaith arbenigwr archwilydd

I-199 Dyma amcanion yr archwilydd:

(a) penderfynu a ddylid defnyddio gwaith arbenigwr archwilydd; a

(b) os yw'n defnyddio gwaith arbenigwr archwilydd, penderfynu a yw'r gwaith hwnnw'n ddigonol i ddibenion yr archwilydd (ISA (Y DU) 620, 5).

I-200 Yn y sector cyhoeddus, mae'n bosibl y bydd amgylchiadau'n codi (yn ychwanegol at y rhai a ddisgrifir yn ISA (y DU) 620), lle mae'n ofynnol i'r archwilydd ddefnyddio gwaith arbenigwr archwilydd. Er enghraifft, er mwyn archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu arbenigol neu gymhleth efallai y bydd angen i'r archwilydd benodi arbenigwr er mwyn cael dealltwriaeth o'r broses amcangyfrif. Enghraifft arall yw lle

bydd un archwilydd yn penodi arbenigwr i roi sicrwydd i nifer o archwilwyr, er enghraifft, yng nghyswllt prisiau eiddo proffesiynol neu gynllun pensiwn.

ISA (y DU) 700: Ffurio barn ac adrodd ar ddatganiadau ariannol

I-201 Dyma amcanion yr archwilydd:

(a)ffurfio barn ar y datganiadau ariannol yn seiliedig ar werthusiad o'r casgliadau a dynnwyd o'r dystiolaeth archwilio a gafwyd; a

(b)mynegi'r farn honno'n glir drwy adroddiad ysgrifenedig (ISA 700, 6).

I-202 Mae'r adran hon o'r canllawiau ar adroddiadau estynedig yr archwilydd yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai o archwilwyr y sector cyhoeddus yn adrodd o dan ISA 701.

Derbynydd adroddiad yr archwilydd yn y sector cyhoeddus

I-203 Mae ISA (y DU) 700 yn ei gwneud hi'n ofynnol nodi'r sawl y mae adroddiad yr archwilydd wedi'i gyfeirio ato yn y teitl. Fel rheol, dyma'r sawl y mae'r archwiliad yn cael ei gynnal ar ei ran, a bydd hynny'n amrywio ar draws y sector cyhoeddus, yn dibynnu ar y fframwaith archwilio perthnasol.

Adroddiadau gan archwilwyr ar gontract allanol i asiantaethau archwilio cenedlaethol

I-204 Pan gynhelir archwiliad ar sail "contract allanol" gall y contract rhwng y cwmni a'r asiantaeth archwilio nodi bod y cwmni yn cyflwyno adroddiad archwilio i'r asiantaeth archwilio. Bydd yr amgylchiadau hyn y tu hwnt i gwmpas ISA (y DU) 700 a'r contract rhwng y cwmni a'r asiantaeth archwilio fydd yn diffinio'r trefniadau adrodd. Bydd yr adroddiad a gyflwynir gan y cwmni i'r asiantaeth archwilio yn adlewyrchu cwmpas yr ymrwymiad o dan delerau'r contract.

Y gofyniad i ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau yn y sector cyhoeddus

I-205 Ar gyfer endidau penodol mae'n ofynnol ardystio bod yr archwiliad wedi'i gynnal neu ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau. Mae'r naill yn rhan annatod o'r farn archwilio fel sy'n ofynnol yn y ddeddfwriaeth ar gyfer cyrff cyhoeddus penodol, ac wedi'i ymgorffori yng ngeiriad y paragraff rhagarweiniol yn adroddiad yr archwilydd. Mae'r llall yn gyfrifoldeb ehangach i archwilwyr llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr ac endidau iechyd yn Lloegr ac mae angen deall ei gysylltiad â'r farn ar y datganiadau ariannol. Efallai y bydd archwilwyr yn cyfeirio at ganllawiau ar wahân ar y mater hwn a gyhoeddir gan yr asiantaeth archwilio genedlaethol berthnasol.

Cyfeiriad at sail yr archwiliad yn adroddiad archwilydd y sector cyhoeddus

I-206 Pan ddarperir ar gyfer y gofyniad i archwilio datganiadau ariannol endid o dan statud, bydd yr archwilydd yn cyfeirio at y Ddeddf Seneddol berthnasol a'r cyfarwyddyd cyfrifyddu wrth nodi bod y

datganiadau ariannol wedi cael eu harchwilio. Bydd y Ddeddf Seneddol a'r cyfarwyddyd cyfrifyddu yn amrywio ar draws y sector cyhoeddus.

Goblygiadau geiriad rhagnodedig y farn archwilio i gydymffurfiaeth â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU)

I-207 Er bod angen cynnwys barn, yn achos y rhan fwyaf o ddatganiadau ariannol y sector cyhoeddus, ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn creu darlun cywir a theg, mae rhai fframweithiau ariannol yn ei gwneud hi'n ofynnol cynnwys barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn cyflwyno trafodion neu falansau'r endid mewn modd teg neu briodol. Beth bynnag fo'r geiriad a ddefnyddir, ni fydd hynny'n effeithio ar y graddau y bydd yr archwilydd yn cadw at ofynion safonau archwilio.

Adroddiadau estynedig gan archwilwyr

I-208 Nid yw endidau rhestredig yn gyffredin yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, gall endidau'r sector cyhoeddus fod yn sylweddol oherwydd eu maint, eu cymhlethdod neu agweddau ar fudd y cyhoedd. Mewn achosion o'r fath, gallai fod yn ofynnol yn ôl cyfraith neu reoliad i archwilydd endid y sector cyhoeddus gyfleu materion archwilio allweddol yn adroddiad yr archwilydd, neu gallai benderfynu gwneud hynny p'run bynnag (ISA (Y DU) 700, A43 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 700, 31).

I-209 Efallai y bydd gan archwilwyr endidau sector cyhoeddus hefyd y gallu yn unol â chyfraith neu reoliad i adrodd yn gyhoeddus ar rai materion, naill ai yn adroddiad yr archwilydd neu mewn adroddiad atodol, a all gynnwys gwybodaeth sy'n gyson ag amcanion ISA (Y DU) 701. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd angen i'r archwilydd deilwra rhai agweddau ar gyfathrebu materion archwilio allweddol yn adroddiad yr archwilydd sy'n ofynnol yn ISA (Y DU) 701 neu gynnwys cyfeiriad yn adroddiad yr archwilydd at ddisgrifiad o'r mater yn yr adroddiad atodol (ISA (Y DU) 700, A75 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 700, 50).

I-210 Mae gofynion adrodd estynedig yr archwilydd, yn cynnwys materion archwilio allweddol (fel y'u pennir yn ISA (Y DU) 701)¹⁴, yn berthnasol yn y sector cyhoeddus, lle bo'r rheoleiddiwr yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r corff a archwilir fabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU neu lle bo'r archwilydd mabwysiadu'r Cod hwnnw o'i wirfodd. Er nad yw llawer o gyrff y sector cyhoeddus yn bodloni'r meini prawf hyn, gall yr archwilydd ei hystyried yn briodol cynnwys yr wybodaeth hon sy'n ofynnol yn ISA (Y DU) 701 yn yr adroddiad archwilio neu gyhoeddi adroddiad ar wahân i fod yn agored a sicrhau tryloywder, neu lle bo hynny'n ofynnol mewn Codau Ymarfer Archwilio perthnasol, neu godau cyfatebol.

I-211 Efallai y bydd gan rai o archwilwyr y sector cyhoeddus bwerau a chyfrifoldebau statudol ychwanegol i adrodd ar faterion sydd o ddiddordeb i'r Senedd, y Cynulliad neu'r rheoleiddiwr

¹⁴Mae ISA (Y DU) 701 mewn grym ar gyfer archwiliadau o ddatganiadau ariannol ar gyfer cyfnodau'n dechrau ar 17 Mehefin 2016 neu ar ôl hynny. Caniateir cymhwyso'r Safon yn fuan.

perthnasol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gwybodaeth gefndir am y sail ar gyfer y farn archwilio, am reolaeth ariannol annigonol neu faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb.

Materion y dylid adrodd arnynt ar sail eithriad yn y sector cyhoeddus

I-212 Mae *Deddf Cwmnïau 2006* yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr cwmnïau adrodd ar rai materion ar sail eithriad, gan gynnwys y sefyllfaoedd canlynol:

- Lle na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu lle na chafwyd manylion digonol ar gyfer yr archwiliad gan ganghennau na ymwelwyd â hwy yn ystod yr archwiliad; neu
- Lle nad yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion neu'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- Lle nad ydynt wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu harchwiliad.

I-213 Bydd archwilwyr y sector cyhoeddus yn adrodd ar y materion hyn ar sail eithriad, fel y nodir yn nhelerau'r ymrwymiad.

Egluro i ba raddau yr ystyrir bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

I-214 Mae paragraff 29-1 yn ISA (Y DU) 700 yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad yr archwilydd egluro i ba raddau yr ystyrir bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Fel a ddisgrifir ym mharagraff I-43 y Nodyn Ymarfer hwn, defnyddir y term 'afreoleidd-dra' yn ISAs (Y DU) i gyfeirio at achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Yng nghyd-destun barn ynglŷn â rheoleidd-dra, mae 'trafodion afreolaidd' yn cyfeirio at drafodion nad oeddent yn unol â'r fframwaith awdurdodau, fel a ddisgrifir yn Rhan 2. Fel a ddisgrifir ym mharagraff I-44, efallai na fydd trafodiad afreolaidd yn afreoleidd-dra dan ISAs (Y DU), er y gallai unrhyw afreoleidd-dra a ganfyddir gynnwys trafodion afreolaidd.

ISA (Y DU) 701: Cyfleu materion archwilio allweddol yn adroddiad yr archwilydd annibynnol

I-215 Amcanion yr archwilydd yw pennu materion archwilio allweddol ac, ar ôl ffurfio barn ar y datganiadau ariannol, cyfleu'r materion hynny drwy eu disgrifio yn adroddiad yr archwilydd (ISA (Y DU) 701, 7).

I-216 Lle bo archwilydd endid o'r sector cyhoeddus yn rhoi barn sy'n cynnwys rheoleidd-dra neu werth am arian trafodion yn y datganiadau ariannol a'i bod yn ofynnol iddo gyfleu materion archwilio allweddol yn adroddiad yr archwilydd o dan ISA (Y DU) 701, neu ei fod yn dewis gwneud hynny, bydd yr archwilydd yn ystyried a ddylai adrodd ar faterion archwilio allweddol yn gysylltiedig â rheoleidd-dra neu werth am arian, fel bo'n briodol.

ISA (y DU) 706: Paragraffau 'pwyslais ar fater' a pharagraffau mater eraill yn adroddiad yr archwilydd annibynnol

I-217 Amcan yr archwilydd, ar ôl ffurfio barn ar y datganiadau ariannol, yw tynnu sylw defnyddwyr, pan fo angen gwneud hynny ym marn yr archwilydd, drwy ohebiaeth glir ychwanegol yn adroddiad yr archwilydd, at y canlynol;

(a) mater, er ei fod wedi'i gyflwyno neu ei ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol, sydd mor bwysig fel ei fod yn hanfodol er mwyn i ddefnyddwyr ddeall y datganiadau ariannol; neu

(b) fel sy'n briodol, unrhyw fater arall sy'n berthnasol i ddealltwriaeth defnyddwyr o'r archwiliad, cyfrifoldebau'r archwilydd neu adroddiad yr archwilydd (ISA (Y DU) 706, 6).

I-218 Yn y sector cyhoeddus efallai na fydd hi bob amser yn bosibl tynnu'n ôl o'r archwiliad. Lle bo'r opsiwn hwn yn ffafriol, ond nad yw'n bosibl, gall yr archwilydd hefyd ystyried bod angen cynnwys paragraff Mater Arall yn adroddiad yr archwilydd, neu adrodd am faterion perthnasol wrth y corff statudol priodol.

ISA (y DU) 720: Cyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â gwybodaeth arall

I-219 Amcanion yr archwilydd, ar ôl darllen yr wybodaeth arall, yw:

(a) ystyried a oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol;

(b) ystyried a oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r wybodaeth a gafodd yr archwilydd yn yr archwiliad;

(c) ymateb yn briodol pan fo'r archwilydd yn nodi ei bod hi'n ymddangos bod anghysondebau sylweddol o'r fath yn bodoli, neu pan fo'r archwilydd yn dod yn ymwybodol fel arall fod gwybodaeth arall yn ymddangos fel pe bai wedi'i chamddatgan i raddau sylweddol;

(ch) lle bo'n ofynnol yn ôl cyfraith neu reoliad, ffurfio barn ynghylch a yw'r wybodaeth a roddwyd yn yr wybodaeth arall yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r wybodaeth a gafodd yr archwilydd yn yr archwiliad; a

(d) i adrodd yn unol ag [ISA (y DU) 720] (ISA (Y DU) 720, 11).

Cyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â'r adroddiad blynyddol

I-220 Mae'n ofynnol i lawer o endidau'r sector cyhoeddus gynnwys adroddiad blynyddol yn yr un dogfennau â'r datganiadau ariannol. Ar y cyfan, mae'n ofynnol i endidau ymgorffori elfennau Adroddiad Strategol a Chyfarwyddwyr y Ddeddf Cwmnïau yn y deunydd ychwanegol hwn. Mae telerau ymrwymiad yr asiantaeth archwilio genedlaethol hefyd fel arfer yn ei gwneud hi'n ofynnol ffurfio barn ynghylch cysondeb y deunydd hwnnw â'r datganiadau ariannol a archwilir. Mae'n bosibl bod y deunydd wedi'i wasgaru mewn gwybodaeth arall amgylchynol a gyhoeddwyd gyda'r cyfrifon, felly mae'n bwysig nodi yn yr adroddiad archwilio yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y farn ar gysondeb.

I-221 Yn ychwanegol at y farn hon ar gysondeb, mae ISA (Y DU) 720 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r archwilydd ddarllen yr holl wybodaeth a gyhoeddwyd gyda'r datganiadau ariannol, sy'n cynnwys yr holl ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn y farn ar gysondeb. Unwaith eto, bydd yr adroddiad archwilio yn egluro pa gynnwys sydd wedi cael ei ddarllen.

I-222 Drwy gytundeb â'r cyrff perthnasol lle bo angen, os nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau perthnasol, bydd rhai o archwilyddwyr y sector cyhoeddus yn adrodd am hynny. Cyfrifoldeb yr archwilydd mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu yw ystyried y datganiad. Ni fwriedir i'r adolygiad hwn roi sicrwydd ynghylch y datganiad, ond:

- ystyried cyflawnder y datgeliadau o ran bodloni'r gofynion adrodd;
- nodi a yw'r datgeliadau'n gamarweiniol; a
- nodi unrhyw anghysondebau rhwng y datgeliadau a'r wybodaeth y mae'r archwilydd yn ymwybodol ohoni o waith archwilio.

I-223 Bydd y gofynion i gyhoeddi gwybodaeth arall ochr yn ochr â datganiadau ariannol yn amrywio yn dibynnu ar natur gweithrediadau'r endid a'r gofynion adrodd. Yn nodweddiadol, gallai'r rhain gynnwys datganiad yn nodi cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu/Atebol neu'r swyddog cyfatebol a datganiad llywodraethu corfforaethol.

I-224 Gall y fframwaith adrodd gynnwys gofyniad bod yr wybodaeth arall a gyflwynir yn 'deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy'.¹⁵ Enghraifft o fframwaith adrodd sy'n cynnwys gofyniad o'r fath yw *Llawlyfr Adrodd Ariannol* Trysorlys EM ar gyfer endidau llywodraeth ganolog. Yn yr achos hwn, os bydd yr archwilydd yn nodi bod unrhyw agwedd ar yr wybodaeth arall heb ei chyflwyno mewn modd teg, cytbwys a dealladwy, bydd yr archwilydd yn ystyried goblygiadau hynny i'r adroddiad. Bydd yr archwilydd yn ystyried a yw'r wybodaeth wedi'i chyflwyno mewn modd a fyddai'n ddealladwy i ystod eang o ddefnyddwyr posibl, gyda lefelau amrywiol o arbenigedd.

¹⁵Mae'r gofyniad i adroddiadau fod yn 'deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy' yn tarddu o God Llywodraethu Corfforaethol y DU. Gellir gweld y Cod a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018 yma: <https://www.frc.org.uk/getattachment/88bd8c45-50ea-4841-95b0-d2f4f48069a2/2018-UK-Corporate-Governance-Code-FINAL.pdf>

Adrodd i'r ddeddfwrfa

I-225 Yn y sector cyhoeddus, efallai na fydd yn bosibl tynnu'n ôl o'r ymrwymiad. Mewn achosion o'r fath, gall yr archwiliad gyflwyno adroddiad i'r ddeddfwrfa yn rhoi manylion y mater, neu gymryd camau priodol eraill (ISA (Y DU) 720, A47 sy'n gysylltiedig â gofynion ISA (Y DU) 720, 18).

Gwybodaeth statudol arall

I-226 Gall adroddiadau a chyfrifon blynyddol y sector cyhoeddus gynnwys gwybodaeth sy'n cael ei thrin fel gwybodaeth statudol arall oherwydd cyfrifoldebau adrodd statudol penodol neu delerau'r ymrwymiad. Er enghraifft, mae *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol* Trysorlys EM yn cynnwys darpariaeth i archwilwyr gyfleu barn ar ddatgeliadau neilltuol yn yr Adroddiad Atebolrwydd, ac i nodi ac archwilio'r wybodaeth hon yn glir. Bydd yr archwilydd yn gwneud datganiad cadarnhaol yn adroddiad yr archwilydd ynghylch yr wybodaeth hon yn unol â pharagraff A58-1 o ISA (Y DU) 700 ac yn cynnal gweithdrefnau priodol mewn perthynas â'r wybodaeth.

Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019

Egwyddorion trosfwaol

I-227 Dylai'r cwmni, ei bartneriaid a'r holl staff ymddwyn ag uniondeb a gwrthrychedd yn yr holl weithgareddau a pherthnasoedd proffesiynol a busnes (Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019, A1).

I-228 Mewn perthynas â phob ymrwymiad, dylai'r cwmni, a phob person a gwmpesir, sicrhau (yn achos person a gwmpesir, i'r graddau y gall wneud hynny) bod y cwmni a phob person a gwmpesir yn rhydd rhag unrhyw amodau a pherthnasoedd a fyddai'n ei gwneud yn debygol y byddai trydydd parti gwrthrychol, rhesymol a gwybodus yn dod i'r casgliad bod annibyniaeth y cwmni neu unrhyw berson a gwmpesir wedi'i pheryglu (Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019, A2).

Aseiniadau staff ar fenthyg

I-229 Ni ddylai cwmni ddod yn rhan o gytundeb gydag endid sy'n berthnasol i ymrwymiad, na chyda chwmnïau cysylltiedig i endid o'r fath, i ddarparu unrhyw bartner neu gyflogai i weithio am gyfnod dros dro fel pe bai'r unigolyn hwnnw'n un o gyflogeion unrhyw gwmni o'r fath neu ei gwmnïau cysylltiedig. Ceir eithriad: mewn perthynas â staff a gyflogir gan un o asiantaethau archwilio cenedlaethol y DU, mewn rôl heb gyfrifoldebau rheoli; pan nad yw'r rôl sydd i'w llenwi mewn endid mewn perthynas ag ymrwymiad yn cynnwys unrhyw gyfrifoldebau rheolaeth llinell na rheoli; am gyfnod nad yw'n ddim hwy na thri mis (neu nad yw'n ddim hwy na chwe mis ar gyfer aelod o staff o asiantaeth archwilio genedlaethol a gyflogir ar gontract hyfforddi); a lle na fyddai'r gwasanaeth sydd i'w ddarparu'n cael ei wahardd gan y Safon Foesegol (Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019, 2.36)

Partneriaid ac aelodau o dîm yr ymrwymiad yn ymuno ag endid sy'n berthnasol i ymrwymiad

I-230 O dan yr amgylchiadau sydd wedi'u cynnwys gan baragraff 2.45 [o Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019]¹⁶, lle mae'r cyfrifoldeb am yr ymrwymiad wedi'i neilltuo gan

¹⁶ Mae paragraff 2.45 yn Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 yn ymwneud ag amgylchiadau lle mae partner, neu rywun arall (gan gynnwys rhywun y mae ei wasanaethau ar gael i'r cwmni neu dan reolaeth y cwmni) a gymeradwyir yn bersonol fel archwilydd statudol fel a ddisgrifir ym mharagraff 2.40 y Safon, yn cael ei benodi'n gyfarwyddwr, yn aelod o bwyllgor archwilio neu gorff sy'n cyflawni swyddogaethau cyfatebol, neu i swydd reoli allweddol gydag endid sy'n berthnasol i ymrwymiad, ac yntau/a hithau yn flaenorol wedi bod yn berson a gynhwysir:

- (a) yn achos partner, ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd cyn y penodiad hwnnw; neu
- (b) yn achos rhywun arall, ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn cyn y penodiad hwnnw,

ddeddfwriaeth neu reoliad a bod yr archwilydd yn methu ag ymddiswyddo o'r ymgysylltiad (e.e. ar gyfer rhai cyrff yn y sector cyhoeddus) dylai'r cwmni gymhwyso mesurau diogelu amgen i leihau bygythiadau i uniondeb neu wrthrychedd i lefel lle na fyddai perygl i annibyniaeth (Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019, 2.46).

Cysylltiad hir ag ymrwymadau ac ag endidau sy'n berthnasol i ymrwymadau

I-231 Lle mae gan bartneriaid a staff mewn uwch swyddi gysylltiad hir neu ymwneud helaeth a/neu reolaidd ag endid sy'n berthnasol i'r ymrwymiad, dylai'r cwmni asesu'r bygythiadau i uniondeb, gwrthrychedd ac annibyniaeth y cwmni a phersonau a gwmpesir a dylai:

- gymhwyso mesurau diogelu i leihau'r bygythiadau i lefel lle na fyddai annibyniaeth yn cael ei pheryglu; a
- datgelu'r ymrwymadau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y cwmni ar gyfer endid sy'n berthnasol i'r ymrwymiad wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a, lle y bo'n berthnasol, unrhyw bersonau neu endidau eraill y cyfarwyddir y cwmni i'w cynghori.

Lle na ellir cymhwyso mesurau diogelu priodol, ni ddylai'r cwmni dderbyn yr ymrwymiad, dylai ymddiswyddo o'r ymrwymiad neu beidio â chynnig ei hun i gael ei ailbenodi, fel y bo'n briodol. Lle mae'r cyfrifoldeb am yr ymrwymiad wedi'i aseinio gan ddeddfwriaeth neu reoliad a bod y cwmni'n methu ag ymddiswyddo o'r ymrwymiad (e.e. yn achos rhai cyrff yn y sector cyhoeddus) dylai'r cwmni gymhwyso mesurau diogelu amgen (Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019, 3.1).

I-232 Yn y sector cyhoeddus, gall deddfwriaeth sefydlu'r penodiadau a'r telerau swydd ar gyfer yr archwilydd â chyfrifoldeb partner ymrwymo. O ganlyniad, efallai na fydd yn bosibl cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion cylchdroi partner ymrwymo a ddychmygir ar gyfer endidau rhestredig. Serch hynny, ar gyfer endidau'r sector cyhoeddus yr ystyrir eu bod yn arwyddocaol, gall fod er budd y cyhoedd os yw sefydliadau'r sector cyhoeddus yn sefydlu polisiau a gweithdrefnau i hybu cydymffurfiaeth ag ysbryd y cyfrifoldeb i gylchdroi partner ymrwymo.

Ffioedd

I-233 Nid yw paragraffau 4.23 i 4.34 [Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019]¹⁷ yn berthnasol i ymrwymadau endidau lle mae'r cyfrifoldeb am yr ymrwymiad wedi'i aseinio gan

ac mae'n ei gwneud yn ofynnol bod y cwmni'n ymddiswyddo o'r ymrwymiad lle y bo'n bosibl dan gyfraith berthnasol neu reoliad perthnasol ac yn peidio â derbyn ymrwymiad arall ar gyfer yr endid am gyfnod penodedig.

¹⁷ Mae paragraffau 4.23 a 4.24 yn Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 yn ymwneud ag amgylchiadau lle:

ddeddfwriaeth a bod y cwmni'n methu ag ymddiswyddo o'r ymrwymiad, ni waeth beth fo'r ystyriaethau o ran dibyniaeth economaidd (e.e. ar gyfer rhai cyrff yn y sector cyhoeddus) (Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019, 4.22).

-
- disgwylir y bydd cyfanswm y ffioedd am wasanaethau sydd i'w derbyn gan endid budd y cyhoedd neu endid rhestredig arall a'i is-gwmnïau sy'n berthnasol i ymrwymiad mynych gan y cwmni'n rheolaidd yn uwch na 10% o incwm ffioedd blynyddol y cwmni; neu
 - disgwylir y bydd cyfanswm y ffioedd am wasanaethau sydd i'w derbyn gan endid anrhestredig nad yw'n gwmni budd y cyhoedd a'i is-gwmnïau sy'n berthnasol i ymrwymiad mynych gan y cwmni'n rheolaidd yn uwch na 15% o incwm ffioedd blynyddol y cwmni,

ac maent yn ei gwneud yn ofynnol na fydd y cwmni'n gweithredu fel darparwr yr ymrwymiad ar gyfer yr endid hwnnw ac y bydd naill ai'n ymddiswyddo neu'n peidio â chynnig ei hun i gael ei ailbenodi, fel y bo'n briodol.

Rhan 2: Archwilio rheoleidd-dra

Cyflwyniad

2-1 Yn y rhan hon o'r Nodyn Ymarfer, nodir y canllawiau ar ystyriaethau archwilwyr y sector cyhoeddus ynghylch rheoleidd-dra a materion cysylltiedig. Mae'n trafod:

- dealltwriaeth o'r cysyniad o reoleidd-dra;
- sut mae rheoleidd-dra yn gysylltiedig â chysyniadau eraill, gan gynnwys priodoldeb a chydymffurfiaeth â'r gyfraith a rheoliadau;
- archwilio rheoleidd-dra - trosolwg;
- deall yr endid a'i amgylchedd;
- deall rheolaethau mewnol yr endid;
- perthnasedd ar gyfer archwilio rheoleidd-dra;
- asesu'r risg o drafodion afreolaidd perthnasol;
- cynllunio a chynnal gweithdrefnau archwilio;
- meysydd sydd angen ystyriaeth arbennig;
- sylwadau ysgrifenedig;
- defnyddio gwaith eraill;
- gwerthuso trafodion afreolaidd;
- y risg o dwyll wrth archwilio rheoleidd-dra;
- barn rheoleidd-dra ar y datganiadau ariannol; ac
- adroddiadau eraill ar reoleidd-dra.

2-2 Efallai y bydd gan archwilwyr y sector cyhoeddus bwerau a chyfrifoldebau statudol yn gysylltiedig â'r modd y bydd cyrff a archwilir yn defnyddio cronfeydd cyhoeddus. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni drwy archwilio rheoleidd-dra, lle bo hynny'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth. Mae'r archwiliad o reoleidd-dra yn gysylltiedig ag archwilio datganiadau ariannol, ac felly wedi'i gynnwys yn y Nodyn Ymarfer hwn. Efallai y bydd hefyd yn ofynnol i archwilwyr roi adroddiad yn gysylltiedig â phriodoldeb neu ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian) y defnydd o arian cyhoeddus. Ni thrafodir y rhain yn y Nodyn Ymarfer hwn, ac yn lle hynny gall yr archwilwyr gyfeirio at y fframwaith deddfwriaethol penodol a chanllawiau eraill; er enghraifft, Codau Ymarfer Archwilio a ddatblygir gan asiantaeth archwilio berthnasol.

2-3 Mae'r rhan hon o'r Nodyn Ymarfer yn canolbwyntio ar archwilio rheoleidd-dra i roi barn sicrwydd rhesymol. Efallai y bydd rhai o endidau'r sector cyhoeddus yn ei gwneud hi'n ofynnol cynnal ymrwymadau sicrwydd cyfyngedig neu sicrwydd arall yn rhan o rwymedigaethau ariannu neu amodau grant, a osodir gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus. Nid yw canllawiau ar ymrwymadau o'r fath wedi'u cynnwys yn y Nodyn Ymarfer hwn, ac yn lle hynny bydd yr archwilwyr yn gwirio gwybodaeth arall berthnasol am yr ymrwymadau hynny Er enghraifft, mae'n ofynnol i ymddiriedolaethau academi a chorfforaethau coleg yn Lloegr gomisiynu archwilwyr allanol, fel cyfrifwyr adrodd, i gynnal adolygiad blynyddol o reoleidd-dra (sydd, yn yr achos hwn, yn fath o ymrwymiad sicrwydd cyfyngedig) yn rhan o'u hamodau ariannu. Gall yr archwilwyr gyfeirio at y ddogfen fframwaith berthnasol (ee cyfarwyddyd cyfrifon neu gytundeb teiran) a chanllawiau proffesiynol eraill (fel datganiad technegol ICAEW ar adrodd ar reoleidd-dra ar gyfer academiâu neu Safon Ryngwladol ar Ymrwymadau Sicrwydd (ISAE) 3000) i gael rhagor o wybodaeth am ymrwymadau sicrwydd eraill yn gysylltiedig â rheoleidd-dra.

Dealltwriaeth o'r cysyniad o reoleidd-dra

2-4 Rheoleidd-dra yw'r cysyniad bod yn rhaid i drafodion sy'n cael eu hadlewyrchu yn natganiadau ariannol endid a archwilir fod yn unol â fframwaith perthnasol o awdurdodau.

2-5 Fframweithiau allanol, sy'n benodol ar gyfer yr endid a archwilir, yw fframweithiau awdurdodau, a bydd yn rhaid i drafodion yr endid a archwilir gydymffurfio â'r fframweithiau hynny. Sefydlir y fframweithiau hyn gan gyrff sy'n gallu cyhoeddi ac/neu orfodi'r awdurdodau ar gyfer yr endid hwn, a gallent gynnwys, er enghraifft:

- deddfwriaeth awdurdodi;
- rheoliadau a gyhoeddir o dan ddeddfwriaeth llywodraethu;
- awdurdodau seneddol (gan gynnwys cyfreithiau cyllidebol, er enghraifft amcangyfrifon cyllideb y pleidleisiwyd drostynt gan y Senedd/Cynulliad perthnasol); a
- llywodraeth neu awdurdodau cysylltiedig (er enghraifft *Rheoli Arian Cyhoeddus*¹⁸ a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM).

2-6 Mae'r cysyniad o reoleidd-dra yn adlewyrchu pryderon defnyddwyr cyfrifon y sector cyhoeddus bod arian cyhoeddus a godir yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a fwriedir yn y fframwaith perthnasol o awdurdodau yn unig. Mae datganiadau ariannol wedi'u paratoi gan gyrff cyhoeddus yn ffordd bwysig o'u dal yn atebol am y defnydd o arian cyhoeddus.

¹⁸Mae *Managing Public Money* yn rhoi canllawiau ar sut i drin arian cyhoeddus ac yn pennu'r fframwaith rheoleidd-dra ar gyfer llywodraeth ganolog yn y DU. Ceir hyd i'r ddogfen ar y wefan ganlynol: www.gov.uk/government/publications/managing-public-money

2-7 Ar gyfer archwilio llywodraeth ganolog (neu gyfatebol) a rhai cyrff iechyd, ceir gofyniad statudol eglur i'r archwilydd ffurfio barn archwilio ychwanegol ynghylch a yw gwariant ac incwm (taliadau a derbyniadau), ym mhob ffordd berthnasol, wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd lle bo'n berthnasol, ac yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Gall yr archwilydd fabwysiadu ymagwedd archwilio integredig sy'n cynnwys archwiliad o'r datganiadau ariannol wedi'i ategu gan brofion rheoleidd-dra ychwanegol, lle bo angen.

Sut mae rheoleidd-dra yn gysylltiedig â chysyniadau eraill, gan gynnwys priodoldeb a chydymffurfiaeth â'r gyfraith a rheoliadau

2-8 Tra bo rheoleidd-dra yn ymwneud â chydymffurfio â fframwaith perthnasol o awdurdodau, mae priodoldeb yn ymwneud yn fwy â safonau ymddygiad a llywodraethu corfforaethol. Mae'n cynnwys materion fel tegwch, uniondeb, osgoi elw personol o fusnes cyhoeddus, tegwch wrth benodi staff, cystadleuaeth agored wrth osod contractau ac osgoi gwastraff ac afradlondeb.

2-9 Nid yw'n rhwydd dilysu priodoldeb yn wrthrychol, a chan hynny, ni cheir cyfeiriad eglur ato yn y farn ar y datganiadau ariannol. Pan ddaw materion priodoldeb i'r amlwg wrth gynnal yr archwiliad o ddatganiadau ariannol, bydd yr archwilydd yn ystyried a geir adrodd amdanynt, ac os felly, sut.

2-10 Gallai priodoldeb fod yn rhan o rôl statudol ehangach yr archwilydd neu gallai fod wedi'i gynnwys yn nhelerau'r ymrwymiad archwilio. Er enghraifft, yn yr Alban, mae Deddf Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (Yr Alban) 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i archwiliadau o gyfrifon y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol amdanynt gynnwys adroddiadau archwilydd sy'n nodi'r canfyddiadau o ran a ysgwyddwyd neu a gymhwyswyd y gwariant a'r derbyniadau a ddangosir yn y cyfrif yn unol â darpariaethau statudol perthnasol ac unrhyw ganllawiau cymwys (boed y rheiny'n ymwneud â phriodoldeb neu agweddau eraill) a gyhoeddir gan Weinidogion yr Alban.

2-11 Yn rhan o'r archwiliad o reoleidd-dra, bydd yr archwilydd yn asesu cydymffurfiaeth y corff a archwilir â deddfau a rheoliadau perthnasol. Mae'r ystyriaeth hon yn cyfrannu at waith a gyflawnir gan yr archwilydd o dan **ISA (y DU) 250A**. Gellir gweld y canllawiau ar gymhwyso'r ISA (Y DU) hon yn **Rhan I** o'r Nodyn Ymarfer hwn.

2-11A Mae paragraffau 1-44A i 1-44D yn Rhan I o Nodyn Ymarfer 10 yn nodi sut y mae cysyniad rheoleidd-dra'n rhyngweithio â chyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â thwyll dan ISA (Y DU) 240, gan gynnwys twyll a allai ddwyn goblygiadau ar gyfer y farn ynglŷn â rheoleidd-dra, ynghyd â materion sy'n ymwneud â therminoleg 'afreoleidd-dra'. Ymdrinnir hefyd â'r risg o dwyll wrth archwilio rheoleidd-dra ym mharagraffau 2-79 i 2-82 yn Rhan 2 o Nodyn Ymarfer 10.

Archwilio rheoleidd-dra - trosolwg

2-12 Mae ymagwedd yr archwilydd at archwilio rheoleidd-dra yn natganiadau ariannol endidau'r sector cyhoeddus yn debyg i'r ymagwedd archwilio a nodir yn ISA (Y DU) 250A: *Ystyried cyfreithiau a rheoliadau wrth archwilio datganiadau ariannol*. Gellir crynhoi hyn fel a ganlyn:

- cael dealltwriaeth ddigonol o'r fframwaith o awdurdodau sy'n benodol i'r endid. Bydd yr archwilydd yn cael dealltwriaeth eang sy'n ddigonol i'w alluogi i adnabod trafodion neu ddigwyddiadau a allai gael effaith sylweddol ar reoleidd-dra trafodion yn y datganiadau ariannol. Bydd yr archwilydd hefyd yn ystyried y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau y cydymffurfir â'r fframwaith o awdurdodau. Bydd yr archwilydd yn dod i ddeall yr amgylchedd rheolaeth fewnol fel bo modd cynnal asesiad rhagarweiniol o reolaethau sy'n lliniaru'r risg o drafodion afreolaidd perthnasol;
- cael digon o dystiolaeth briodol i gael sicrwydd ynghylch rheoleidd-dra. Gan ystyried perthnasedd, bydd yr archwilydd yn cynnal gweithdrefnau archwilio ar drafodion drwy gyfuniad o brofion ar reolaethau a gweithdrefnau cadarn. Gellir integreiddio gweithdrefnau archwilio â'r rhai sy'n ymwneud ag archwilio'r datganiadau ariannol; ac
- adrodd ar reoleidd-dra drwy roi barn eglur ar wahân ar reoleidd-dra neu drwy roi adroddiadau ar wahân ar faterion rheoleidd-dra.

2-13 Mewn rhai rhannau o'r sector cyhoeddus, mae'r egwyddorion a'r gweithdrefnau a gymhwysir i gaffael digon o dystiolaeth briodol i gefnogi barn ar reoleidd-dra yn debyg i'r rhai a gymhwysir i archwilio'r datganiadau ariannol. Gan hynny, wrth ffurfio barn ar reoleidd-dra, bydd yr archwilydd yn ceisio rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag trafodion afreolaidd perthnasol. Er enghraifft, bydd yr archwilydd yn pennu trothwy perthnasedd ar gyfer y farn ar reoleidd-dra, yn debyg i'r farn ar y datganiadau ariannol, gan gymhwyso'r canllawiau yn ISA (Y DU) 320 a'r canllawiau ategol yn adran ISA (Y DU) 320 o Nodyn Ymarfer I0. Mae'n bosibl y bydd y trothwy perthnasedd ar gyfer rheoleidd-dra yr un peth â'r trothwy ar gyfer y datganiadau ariannol, ond nid o reidrwydd. Bydd ystyriaethau ansoddol o berthnasedd yn gymwys i'r farn ar reoleidd-dra yn yr un modd ag i'r farn ar y datganiadau ariannol, ond mae'n bosibl y bydd ystyriaethau ansoddol gwahanol yn berthnasol i'r ddwy farn wahanol, yn dibynnu ar amgylchiadau'r endid sy'n adrodd.

2-14 Fodd bynnag, gall ystyriaethau neilltuol godi'n gysylltiedig ag asesiad yr archwilydd o berthnasedd, risg a dyluniad gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â rheoleidd-dra, sydd wedi'u cynnwys yn y Nodyn Ymarfer hwn. Yn ogystal â'r ystyriaethau hyn, gall yr archwilydd roi sylw arbennig i reoleidd-dra derbyniadau, datgelu trafodion yn unol â'r fframwaith perthnasol o awdurdodau, a sicrhau sylwadau gan reolwyr.

2-15 Disgwylir i'r archwilydd, wrth archwilio rheoleidd-dra, gydymffurfio â safonau moesegol, archwilio a rheoli ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol a'r canllawiau a geir yn y Nodyn Ymarfer hwn.

Deall yr endid a'i amgylchedd

2-16 Bydd gan archwilydd y sector cyhoeddus ddealltwriaeth o'r fframwaith o awdurdodau sy'n llywodraethu'r corff a archwilir a'i weithgareddau, neu bydd yn dod i ddeall y fframwaith hwnnw, a hynny i raddau digonol er mwyn ei alluogi i adnabod digwyddiadau, trafodion ac arferion a allai gael effaith berthnasol ar reoleidd-dra trafodion yn y datganiadau ariannol.

2-17 Bydd maint gwaith yr archwilydd mewn perthynas â chael dealltwriaeth ddigonol o'r fframwaith rheoleiddio yn dibynnu ar gymhlethdod y cyfreithiau a'r rheoliadau. Mewn amgylcheddau rheoleiddio cymhleth, bydd yr archwilydd yn ystyried trosi'r fframwaith o awdurdodau yn rheolau a gweithdrefnau perthnasol a ddefnyddir gan yr endid a archwilir.

2-18 Ar bob cyfrif, bydd yr endid a archwilir yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra ei drafodion ac am ddatgelu'r trafodion hyn yn y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, mae gan yr archwilydd gyfrifoldeb i ddeall y fframwaith o awdurdodau ac ni all ddibynnu'n llwyr ar sylwadau rheolwyr ynghylch y fframwaith, gan fod barn yr archwilydd ar reoleidd-dra yn seiliedig ar dystiolaeth o gydymffurfio â'r fframwaith o awdurdodau, yn hytrach nag ar dystiolaeth o gydymffurfio â dealltwriaeth yr endid o'r fframwaith hwnnw.

2-19 Gall yr archwilydd ddefnyddio nifer o ffynonellau i bennu'r fframwaith o awdurdodau, gan gynnwys:

- dogfen fframwaith neu gyfarwyddyd cyfrifon, lle cawsant eu cyhoeddi o dan y deddfwriaeth awdurdodi;
- profiad blaenorol gyda'r endid neu endidau tebyg;
- adolygiad o ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n llywodraethu'r corff a archwilir;
- trafodaethau â'r staff a gyflogir gan yr endid (swyddogion cyllid, archwilio mewnol, canghennau cyfreithiol a pholisi); neu
- ddogfennau a gynhyrchir gan yr endid (er enghraifft: cofnodion cyfarfodydd y bwrdd a phrif bwyllgorau eraill; gohebiaeth a chofnodion o gyfarfodydd â chyrff awdurdodi perthnasol; adroddiadau ariannol a blynyddol y blynyddoedd cynt; cyllidebau; adroddiadau rheolaeth fewnol; llawlyfrau polisi rheoli; llawlyfrau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol; a rhaglenni rheoli cynlluniau).

2-20 Wrth ystyried y fframwaith o awdurdodau, bydd yr archwilydd yn gwahaniaethu rhwng yr awdurdodau hynny sy'n benodol i'r endid ac sy'n rhoi awdurdod uniongyrchol penodol ar gyfer ei drafodion ariannol a'r cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n creu'r fframwaith cyffredinol a ddefnyddir ganddo i gynnal ei weithgareddau.

2-21 Ymhlith y cyfreithiau a rheoliadau sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith cyffredinol ceir, er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud â iechyd a diogelwch, diogelu'r amgylchedd a chyflogaeth. Er na fyddai peidio cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n creu'r fframwaith cyfreithiol cyffredinol yn effeithio ar farn yr archwilydd ar reoleidd-dra trafodion, gallai rhai o'r rhain fod yn berthnasol i asesiad yr archwilydd o gydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau o dan [ISA \(y DU\) 250 Adran A](#).

2-22 Bydd deall y fframwaith o awdurdodau a defnyddio'r wybodaeth honno'n briodol yn cynorthwyo'r archwilydd i ddatblygu'r cynllun archwilio ac wrth ganfod achosion posibl o drafodion afreolaidd perthnasol yn y datganiadau ariannol, er enghraifft, yn sgil deddfwriaeth newydd a chymhleth neu gamddehongli deddfwriaeth a'i chwmpas. Mae dealltwriaeth yr archwilydd o'r awdurdodau yn cynnwys gwybodaeth am y rhesymau wrth wraidd y deddfwriaeth a'i hamcanion, oherwydd bydd hyn o gymorth i'r archwilydd ddeall unrhyw is-ddeddfwriaeth neu is-reoliadau. Bydd natur a chymhlethdod y ddeddfwriaeth berthnasol ac awdurdodau eraill yn effeithio ar faint y gwaith a gyflawnir gan yr archwilydd ar reoleidd-dra.

Y fframwaith o awdurdodau a gynhwysir yn adroddiad yr archwilydd.

2-23 Mae trafodiad yn rheolaidd os yw'n unol â'r fframwaith o awdurdodau. Os nad yw'n unol â'r fframwaith o awdurdodau, nid yw'n rheolaidd. Efallai y bydd y ddeddfwriaeth a ddefnyddir yn sail i benodi'r archwilydd yn pennu'r awdurdodau sydd o fewn cwmpas barn yr archwilydd ar reoleidd-dra. Os bydd yr archwilydd yn rhoi barn ar reoleidd-dra nad yw'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth, gall yr archwilydd ddefnyddio ffurf debyg ar y farn a roddir fel arfer ar gyfer archwiliadau lle penodir yr archwilydd hwnnw drwy statud, a bydd y geiriad a ddefnyddir yn yr adroddiad yn pennu cwmpas y farn ar reoleidd-dra. Er enghraifft:

- Lle bo'n ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol roi barn ar reoleidd-dra o dan Adran 6 o *Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000*, bydd yr adroddiad yn trafod a yw'r arian a ddarparwyd gan y Senedd wedi'i wario i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, bod adnoddau a awdurdodwyd gan y Senedd i'w defnyddio wedi cael eu defnyddio i'r dibenion sy'n gysylltiedig â'r defnydd a awdurdodwyd, a bod y trafodion ariannol yn unol ag unrhyw awdurdod perthnasol. Bydd y senedd yn cyfleu ei bwriadau drwy ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, felly'n amlwg bydd y rhain yn rhan o'r fframwaith o awdurdodau. Yn ogystal â hynny, drwy gonfensiwn hirsefydlog mae gan Drysorlys EM rôl wrth sefydlu rheolau ar gyfer gwariant adrannau Llywodraeth¹⁹, sy'n golygu bod canllawiau a gyhoeddir gan y Trysorlys yn awdurdod perthnasol. Gall awdurdodau eraill hefyd fod yn awdurdodau perthnasol, a bydd yr archwilydd yn ystyried pa awdurdodau sy'n berthnasol i ddiben y farn ar reoleidd-dra (gweler paragraff **2-24** isod). Ar gyfer barnau ar reoleidd-dra a roddir gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar wahân i'r barnau a roddir o dan *Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000*, bydd ffurf y farn fel arfer wedi'i seilio ar y patrwm hwn, felly bydd ystyriaethau tebyg yn berthnasol wrth ystyried beth sy'n rhan o'r fframwaith o awdurdodau.
- Pan fydd Archwilydd Cyffredinol yr Alban neu unigolyn a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn rhoi barn ar reoleidd-dra o dan Adran 22 o *Ddeddf Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd* (Yr

¹⁹Gweler <https://publications.parliament.uk/pa/ld201213/ldselect/ldconst/165/16505.htm> am ymdriniaeth bellach â'r pwynt hwn.

Alban) 2000, bydd yr adroddiad yn ystyried a oedd y trafodion yn y cyfrif yn unol ag unrhyw ddeddfiadau a chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan Weinidogion yr Alban, Deddf y Gyllideb (yr Alban) sy'n trafod y flwyddyn ariannol, ac adrannau 4 i 7 o Ddeddf Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (yr Alban) 2000 a'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban er mwyn bodloni'r gwariant a ddangoswyd yn y datganiadau ariannol a gymhwyswyd yn unol ag adran 65 o Ddeddf yr Alban 1998. Mae'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati'n benodol yn rhan o'r fframwaith o awdurdodau. Yn ogystal â hyn, bydd yr archwilydd yn ystyried pa ganllawiau gan Weinidogion yr Alban sy'n berthnasol i ddibenion y farn ar reoleidd-dra (gweler paragraff **2-24** isod).

2-24 Ceir cyfeiriad penodol at rai awdurdodau (fel deddfwriaeth) yng ngeiriad y farn ar reoleidd-dra. Mewn achosion eraill, bydd ffurf y farn yn cyfeirio at awdurdodau 'perthnasol' neu 'gymwys', ac yn yr achos hwn bydd yr archwilydd yn penderfynu pa awdurdodau sydd o fewn cwrmpas y farn. Wrth ystyried y materion hyn, gall yr archwilydd fabwysiadu'r egwyddor bod awdurdod yn berthnasol neu'n gymwys pe bai'r Senedd/Cynulliad neu gorff arall y mae adroddiad yr archwilydd wedi'i gyfeirio ato o'r farn fod yr awdurdod yn berthnasol neu'n gymwys i drafodion ariannol yr endid a archwilir.

Deall rheolaethau mewnol yr endid

2-25 Wrth gynllunio'r archwiliad o reoleidd-dra, bydd yr archwilydd yn ystyried sut mae rheolwyr yr endid yn cydymffurfio â'r fframwaith a, lle bo'n berthnasol, yn ymdrin â'r risg o drafodion afreolaidd perthnasol drwy reolaethau. Mae hyn yn cynnwys asesu'r amgylchedd rheolaeth gyffredinol ar lefel yr endid, a'r gweithdrefnau rheolaeth sy'n gysylltiedig â ffrydiau unigol o drafodion sydd wedi'u dylunio i atal neu ganfod a chywiro achosion o drafodion afreolaidd perthnasol.

2-26 Yn rhan o adolygiad yr archwilydd o'r amgylchedd rheolaeth, bydd yr archwilydd yn ystyried y fframwaith rheolaeth cyffredinol ar gyfer sicrhau rheoleidd-dra, gan gynnwys:

- strwythur trefniadol yr endid, a'r graddau y mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau rheoleidd-dra wedi'i ddirprwyo;
- dulliau o sicrhau rheoleidd-dra ac atebolrwydd lle bo'r cyfrifoldeb dros hynny wedi'i ddirprwyo;
- canlyniadau unrhyw waith archwilio mewnol perthnasol sy'n trafod rheolaethau dros gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau neu reoleidd-dra; a
- threfniadau llywodraethu corfforaethol yr endid, i'r graddau bod y trefniadau'n ymdrin â chydymffurfiaeth â rheoliadau, yn enwedig y gwaith a gyflawnwyd gan yr endid i gefnogi'r datganiadau llywodraethu corfforaethol, a gwaith yr archwilydd ei hun wrth adolygu'r datganiadau.

2-27 Gall rheolaethau a gweithdrefnau a weithredir gan y corff a archwilir i sicrhau rheoleidd-dra ffrydiau unigol o drafodion gynnwys, er enghraifft:

- cymhwyso cyfarwyddiadau desg i'r staff sy'n trosi gofynion statudol yn gyfres o weithdrefnau;

- monitro cydymffurfiaeth â memoranda ariannol; neu
- dderbyn adroddiadau ar gydymffurfio oddi wrth archwilwyr endidau eraill.

2-28 Weithiau bydd yn rhaid i'r archwilydd ystyried deddfwriaeth bwysig neu newydd sy'n effeithio ar y trafodion ariannol neu ystyried a yw rheoliadau wedi'u trosi'n briodol yn rheolau a gweithdrefnau perthnasol. Nid oes angen i waith yr archwilydd ar ddeddfwriaeth neu reoliadau ond canolbwyntio ar yr awdurdodau hynny sy'n berthnasol i drafodion ariannol yr endid, fel y rhai sy'n llywodraethu pwerau'r endid i wneud taliadau neu dderbyn arian, neu bennu gwerth taliadau neu dderbyniadau o'r fath. Nid yw'n ymwneud â rheolau na rheoliadau gweinyddol nad ydynt wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â thrafodion ariannol.

2-29 Gall ystyriaeth yr archwilydd o drosiad y fframwaith o awdurdodau gynnwys adolygu'r ddeddfwriaeth i nodi'r darpariaethau sy'n awdurdodi gweithgareddau ac adolygu'r broses o'u trosi a'u dehongli mewn is-reoliadau a chanllawiau. Gall hefyd ymestyn i gynnwys y broses ar gyfer trosi'r rheoliadau hynny'n llawlyfrau gwaith neu'n ddogfennau eraill allweddol. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, bydd yr archwilydd yn rhoi sylw neilltuol i'r rheoliadau statudol sy'n llywodraethu, er enghraifft:

- pwerau cyrff perthnasol i bennu'r rheolau a'r gweithdrefnau;
- y rheolaethau i'w gweithredu gan yr endid sy'n gyfrifol am weinyddu cynllun;
- cymhwysedd buddiolwyr i dderbyn grantiau neu fathau eraill o gymorth ariannol o dan gynllun;
- cyfrifo grantiau neu unrhyw daliadau eraill; a
- phennu ffioedd a thaliadau a mathau eraill o refeniw.

2-30 Wrth ystyried rheolau a gweithdrefnau perthnasol sy'n ymwneud â chynlluniau, mae'r archwilydd hefyd yn nodi'r rheolaethau hynny sydd wedi'u cynllunio i atal neu ganfod a chywiro trafodion afreolaidd perthnasol.

2-31 Pan geir nifer sylweddol o gyfreithiau neu reoliadau, efallai y bydd gan endidau systemau ar gyfer dylunio a monitro gweithdrefnau a rheolaethau er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn bodloni gofynion deddfwriaethol.

2-32 Bydd yr archwilydd yn cadw golwg am broblemau sylweddol y bydd y corff a archwilir yn dod ar eu traws yn gysylltiedig â dehongli deddfwriaeth newydd a phresennol, neu wrth gymhwyso rheoliadau, a'u heffaith ar yr archwiliad.

Perthnasedd ar gyfer archwilio rheoleidd-dra

2-33 Mae'r cysyniad o berthnasedd yn berthnasol wrth archwilio rheoleidd-dra. Mae'n ofynnol i'r archwilydd gael digon o dystiolaeth archwilio briodol bod y corff a archwilir wedi cydymffurfio â'r fframwaith perthnasol o awdurdodau "ym mhob ffordd berthnasol". Mae hyn yn gydnabyddiaeth glir o'r ffaith na all yr archwilydd ganfod pob achos o drafodion afreolaidd drwy'r gwaith archwilio. Mae

perthnasedd yn effeithio ar y modd y bydd yr archwilydd yn cynllunio'r gwaith archwilio ar reoleidd-dra ac yn gwerthuso ac yn adrodd ar ganlyniadau'r gwaith hwnnw.

2-34 Mae'r archwilydd yn dilyn **ISA (y DU) 320** wrth bennu perthnasedd yng nghyd-destun rheoleidd-dra. Fodd bynnag, gall y trothwy perthnasedd ar gyfer archwilio rheoleidd-dra fod yn wahanol i berthnasedd y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd.

2-34A Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd pan all archwilydd, gan ddibynnu ar ei grebwyll proffesiynol, bennu trothwy perthnasedd ar gyfer yr archwiliad o reoleidd-dra sy'n wahanol i'r un ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn cynnwys y canlynol:

- lle mae'r endid a archwilir yn gwneud taliadau i unigolion neu gyrff eraill y mae iddynt arwyddocâd sylweddol fwy i fudd y cyhoedd na swyddogaethau gweinyddol yr endid ei hun;
- lle mae'r meincnod a ddefnyddir i bennu perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd wedi cynyddu'n sylweddol (er enghraifft, am bod gweithrediadau'r endid a archwilir wedi ehangu) ond bod diddordeb o hyd gan ddefnyddwyr yn rheoleidd-dra trafodion ar lefel fwy gronynnog;
- lle mae agweddau ar fframwaith awdurdodau a/neu gyfundrefn goruchwyliaeth reoleiddiol yr endid a archwilir yn dynodi y byddai diffyg cydymffurfio â'r fframwaith awdurdodau sy'n fach o ran maint yn cael ei ystyried yn fwy difrifol nag a fyddai'n amlwg o asesu'r symiau yn erbyn perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd; neu
- lle mae'r meincnod a ddefnyddir i bennu perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn seiliedig ar asedau neu rwymedigaethau a bod y symiau hyn yn anghymesur â'r trafodion gwariant ac incwm y mae'r farn ynglŷn â rheoleidd-dra'n ymwneud â hwy.

2-34B Bydd asesiad yr archwilydd o'r hyn sy'n berthnasol yn fater o farn, a bydd y farn honno'n cynnwys ystyriaethau meintiol ac ansoddol. Mae hyn oherwydd gallai fod gan ddefnyddwyr fuddiant mewn achosion o fynd yn groes i awdurdod hyd yn oed lle bo'r symiau o arian dan sylw yn fach o'u cymharu â chyfanswm gwariant y datganiadau ariannol.

2-35 Gallai hyn olygu bod angen ystyried rhai dosbarthiadau o drafodion, balansau cyfrifon neu ddatgeliadau yn erbyn trothwy is na'r lefel perthnasedd. Er enghraifft, yng nghyd-destun rheoleidd-dra mewn llywodraeth ganolog y Deyrnas Unedig, gall yr archwilydd ystyried eitemau perthnasol sy'n cynnwys y canlynol, ymhlith eraill: unrhyw wariant a ysgwyddwyd sy'n uwch na'r symiau a awdurdodwyd gan y Senedd; unrhyw wariant ar dal aelodau uwch o staff nad yw wedi'i gymeradwyo'n briodol; ac unrhyw wariant ar weithgareddau sy'n gyfystyr ag osgoi treth.

2-36 Bydd yr archwilydd yn parhau i fod yn effro i natur yr achosion o drafodion afreolaidd ac yn ystyried eu harwyddocad gan roi sylw i fuddiant defnyddwyr y datganiadau ariannol yn y mater hwn.

2-37 Bydd gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, a'r wybodaeth ariannol sydd ei hangen ar gyrff deddfu a'r cyhoedd yn gysylltiedig â rhaglenni'r sector cyhoeddus yn ffactorau dylanwadol wrth bennu perthnasedd yn y sector cyhoeddus. Bydd y rhestr o faterion yn amrywio rhwng y naill gorff archwiliedig a'r llall, ond gallai ystyriaethau gynnwys:

- yr angen i fod yn agored a thryloywder, er enghraifft ynghylch tâl aelodau uwch o staff neu aelodau bwrdd;
- y posibilrwydd y bydd angen datgelu ar wahân ar sail disgwyliadau'r cyhoedd a budd y cyhoedd; a'r
- cyd-destun lle bydd mater yn ymddangos, er enghraifft os yw'r mater yn mynnu cydymffurfiaeth â'r fframwaith o awdurdodau, deddfwriaeth neu reoliadau.

Asesu'r risg o drafodion afreolaidd perthnasol

2-38 Bydd yr archwilydd yn ystyried y risgiau o drafodion afreolaidd perthnasol drwy broses lle bydd yn dod i ddeall yr endid, ei amgylchedd a'i reolaethau mewnol.

2-39 Er mwyn asesu'r risg gynhenid o drafodion afreolaidd perthnasol, bydd yr archwilydd yn defnyddio barn a phrofiad blaenorol a gwybodaeth am yr endid a'i amgylchedd i werthuso ystod o ffactorau, er enghraifft:

- cymhlethdod y rheoliadau;
- cyflwyno deddfwriaeth bwysig newydd neu newidiadau i reoliadau deddfwriaethau sy'n bodoli eisoes;
- gwasanaethau a rhaglenni a ddarperir drwy drydydd partion; a
- thaliadau a derbyniadau a wneir ar sail hawliadau neu ddatgeliadau.

2-40 Bydd yr archwilydd yn ystyried y rheolaethau sydd yn lliniaru'r risg y gallai trafodion afreolaidd perthnasol ddigwydd mewn balans cyfrif neu ddsbarth o drafodion, ac na fyddai modd i'r systemau cyfrifyddu a rheolaeth ei atal, ei ganfod na'i gywiro'n amserol. Pan fo'r archwilydd yn disgwyl gallu dibynnu ar weithrediad rheolaethau mewnol i leihau maint y gweithdrefnau cadarn yn gysylltiedig â rheoleidd-dra, bydd yr archwilydd yn asesu dyluniad a gweithrediad y rheolaethau hynny ac yn cynllunio a chynnal profion o'u heffeithiolrwydd.

2-41 Dyma grynodedeb o feysydd risg a rheolaethau lliniarol posibl yn gysylltiedig â rheoleidd-dra:

Risg	Disgrifiad	Rheolaethau Lliniaru
Cymhlethdod y rheoliadau	Po fwyaf cymhleth yw'r rheoliadau, y mwyaf yw'r risg o gamgymeriad. Gall hyn ddigwydd naill ai drwy gamddeall neu gamddehongli'r rheoliad neu drwy	Gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer trosi gofynion statudol yn gyfarwyddiadau ar gyfer gweithredu Rhaglenni rheoli ffurfiol wedi'u paratoi a'u monitro gan reolwyr cynlluniau.

	gamgymeriad wrth ei weithredu.	Adolygu rhaglenni rheoli cynlluniau a llawlyfrau gweithredu gan yr adran archwilio mewnol neu ryw swyddogaeth archwilio arall annibynnol.
Deddfwriaeth newydd	Efallai y bydd angen cyflwyno gweithdrefnau gweinyddol a rheolaethol newydd yn sgil deddfwriaeth newydd. Gall hyn arwain at wallau naill ai yn nyluniad neu gweithrediad rheolaethau sydd eu hangen i sicrhau rheoleidd-dra.	Bod y rheolaethau a nodir uchod yn cynnwys gweithdrefnau ffurfiol er mwyn trosi'r gofynion statudol yn rheolau ar gyfer cynlluniau. Bydd rhaglenni rheoli ffurfiol a'r adolygiad annibynnol o gyfarwyddiadau gweithredu a chynlluniau rheoli hefyd yn berthnasol pan fo cynlluniau'n cael eu cyflwyno yn dilyn deddfwriaeth newydd.
Gwasanaethau a rhaglenni a ddarperir drwy drydydd partion	Lle bo rhaglenni'n cael eu gweinyddu gan asiantau, bydd adrannau'n colli rhywfaint o reolaeth uniongyrchol ac efallai y bydd angen iddynt ddibynnu ar asiantau er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag awdurdodau.	Cytundebau ffurfiol rhwng yr endid a'r asiant yn diffinio gweithdrefnau rheoli i'w cymhwyso wrth weinyddu gwasanaethau. Y rheolwyr yn rheoli ac yn monitro gweithgareddau trydydd parti. Ymweliadau archwilio gan y gwasanaeth archwilio mewnol â thrydydd partion i adolygu systemau a gweithdrefnau, gan gynnwys rhai sy'n berthnasol i reoleidd-dra. Adroddiad sicrwydd annibynnol ar daliadau a derbyniadau, neu ardstiad ohonynt, gan gyfrifydd neu

		<p>archwilydd adrodd y trydydd partïon.</p> <p>Meini prawf wedi'u sefydlu er mwyn cyflwyno hawliadau, wedi'u nodi'n glir mewn cyfarwyddiadau adrannol ac mewn canllawiau i hawlwyr.</p>
<p>Taliadau a derbyniadau a wneir ar sail hawliadau neu ddatgeliadau</p>	<p>Gallai gallu'r endid i gadarnhau cydymffurfiaeth â'r awdurdodau fod yn gyfyngedig, er enghraifft, os na fydd meini prawf a nodwyd ar gyfer derbyn grant yn cae eu gwirio'n uniongyrchol.</p>	<p>Gofynion safonol i gyflwyno dogfennau fel tystiolaeth i gefnogi hawliadau. (Gallai hyn fod yn amod ar gyfer talu grant, neu'n ofyniad ar ôl cwblhau'r gweithgarwch a gefnogwyd drwy'r grant).</p> <p>Archwiliad manwl o gofnodion hawlwyr ac ati, i gadarnhau cymhwystra.</p> <p>Gweithdrefnau ar gyfer asesu sefyllfa ariannol hawlwyr cyn dyfarnu grant ac ar gyfer monitro hydaledd parhaus.</p> <p>Sicrwydd annibynnol i adrodd ar y defnydd o grant, neu ardystio hynny, gan gyfrifydd sy'n adrodd neu archwilydd allanol.</p>

2-42 Bydd yr archwilydd yn ystyried arwyddocad y risgiau o drafodion afreolaidd perthnasol a nodwyd wrth bennu natur, amseriad a helaethrwydd gweithdrefnau cadarn sydd eu hangen er mwyn lleihau risg archwilio hyd at lefel dderbyniol. Yn rhan o'r asesiad risg, bydd yr archwilydd yn pennu pa un o'r risgiau a nodwyd y mae angen rhoi ystyriaeth arbennig iddi o safbwynt archwilio.

Cynllunio a chynnal gweithdrefnau archwilio

2-43 Mae natur, amseriad a helaethrwydd y gweithdrefnau archwilio yn dibynnu ar gymhlethdod y fframwaith o awdurdodau. Er enghraifft, pan fo endid yn talu grantiau y ceir cyfyngiadau manwl arnynt yn y cytundeb grant, bydd yr archwilydd yn cynllunio a chynnal gweithdrefnau digonol i gael sicrwydd bod yr endid sy'n derbyn y grant wedi cydymffurfio â'r cyfyngiadau hyn.

2-44 Bydd gweithdrefnau archwilio wedi'u cynllunio i gael sicrwydd ynghylch rheoleidd-dra trafodion fel arfer wedi'u seilio ar gyfuniad o profion a rheolaethau a gweithdrefnau cadarn. Bydd yr archwilydd yn cynnal y rhain yn unol ag ISA (y DU) 330.

2-45 Er mwyn profi'r rheolyddion, bydd yr archwilydd yn pennu a yw'r rheolaethau wedi'u cynllunio a'u gweithredu'n ddigonol, a'u bod yn gweithredu'n effeithiol i atal neu ganfod a chywiro achosion perthnasol o drafodion afreolaidd. Os bydd yr archwilydd yn casglu nad yw'r rheolaethau'n effeithiol, ni fydd yr archwilydd yn cael unrhyw sicrwydd ohonynt.

2-46 Ar gyfer gweithdrefnau cadarn, bydd yr archwilydd yn cadarnhau bod trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r fframwaith o awdurdodau, gyda'r ystod a'r cwmpas yn dibynnu ar y risgiau o drafodion afreolaidd perthnasol a nodwyd, a'r graddau y mae tystiolaeth o brofion ar reolaeth yn rhoi sicrwydd archwilio.

2-47 Os bydd yr archwilydd yn cael tystiolaeth foddhaol ynghylch effeithiolrwydd gweithredol rheolaethau'r endid mewn perthynas â rheoleidd-dra, mae'n bosibl y bydd yr archwilydd yn ceisio lleihau'r gweithdrefnau cadarn. Efallai y bydd yr archwilydd hefyd yn rhoi sylw i'r gwaith a gyflawnwyd ar adolygiad yr archwilydd o'r Datganiad Llywodraethu.

2-48 Gellir casglu tystiolaeth yn gysylltiedig â rheoleidd-dra yn rhan o ymagwedd integredig at archwilio datganiadau ariannol. Bydd yr archwilydd yn ystyried a yw'r dystiolaeth archwilio sydd ar gael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn cael sicrwydd ynghylch rheoleidd-dra trafodion.

2-49 Bydd gweithdrefnau dadansoddol ar eu pen eu hunain yn annhebygol o roi digon o dystiolaeth briodol i'r archwilydd i gefnogi rheoleidd-dra. Serch hynny, gallant gynorthwyo'r archwilydd i asesu a yw symiau a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn gyson â disgwyliadau. Er enghraifft, pan fo lwfansau o dan gynllun yn amodol ar uchafswm gwerth a bod nifer y derbynwyr yn hysbys, gall yr archwilydd ddefnyddio gweithdrefnau dadansoddol i nodi a allai'r endid fod wedi torri rheolau'n gysylltiedig â'r uchafswm a ganiateir.

2-50 Gall yr archwilydd gynnal gweithdrefnau archwilio penodol i nodi gweithgareddau a thrafodion nad ydynt yn unol â'r fframwaith o awdurdodau. Gallai'r profion gynnwys:

- adolygu datganiadau ariannol ac unrhyw ddeddfwriaeth benodol;
- adolygu cyfrifon rheoli'r endid i ganfod unrhyw ffrydiau anarferol o drafodion neu falansau cyfrifon, neu unrhyw ddadansoddiad anghywir o drafodion a
- chynnal profion cadarn o drafodion a balansau cyfrifon.

Meysydd sydd angen ystyriaeth arbennig

2-51 Efallai y bydd yr archwilydd yn ei chael hi'n anodd cael tystiolaeth archwilio ynghylch rhai agweddau ar reoleidd-dra, er enghraifft cymhwysra i gael grantiau. Yn ddelfrydol, bydd angen i'r archwilydd gael tystiolaeth uniongyrchol i fodloni amcan y prawf hwn. Os nad yw'r dystiolaeth honno ar gael, bydd yr archwilydd yn ystyried sut mae'r endid wedi'i fodloni ei hun ynghylch rheoleidd-dra. Gallai wneud hyn drwy waith swyddogaeth arolygu ar wahân neu drwy dderbyn cyngor neu sicrwydd gan drydydd parti annibynnol.

2-52 Yn hytrach na thalu grantiau yn uniongyrchol i'r derbynwyr a fwriadwyd gan fframwaith perthnasol o awdurdodau, gall cyrff y sector cyhoeddus ariannu cyrff eraill i weinyddu cynllun. Lle bo hyn yn wir, gall archwilydd y corff asesu'r trefniadau a sefydlwyd gan y corff i sicrhau atebolrwydd priodol am y grantiau hynny. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth o unrhyw waith a gyflawnwyd gan archwilydd y corff arall ar reoleidd-dra gwariant.

2-53 Bydd gan archwilydd sy'n ymwneud ag archwilio gwariant ar gynlluniau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd yn ystyried cydymffurfiaeth trafodion â'r ddeddfwriaeth Ewropeaidd berthnasol, ac effaith unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio ar yr archwiliad o reoleidd-dra. Yn benodol, bydd yr archwilydd yn dod i ddeall cysondeb unrhyw reoliadau a sefydlwyd yn y DU â'r darpariaethau yn Rheoliad y Cyngor neu Gomisiwn Ewropeaidd sy'n llywodraethu, a bod y darpariaethau'n cael eu trosi'n gyfarwyddiadau a gweithdrefnau priodol.

2-54 Bydd yr archwilydd hefyd yn parhau i fod yn effro i unrhyw gamau cyfreithiol sy'n herio darpariaethau deddfwriaeth genedlaethol neu ddirprwyedig sy'n gweithredu deddfwriaeth Ewropeaidd, drwy wneud ymholiadau i'r endid a chael sylwadau.

2-55 Bydd yr archwilydd yn rhoi sylw i ystyriaethau neilltuol wrth archwilio rheoleidd-dra ffioedd a thaliadau a godir gan endidau'r sector cyhoeddus, er enghraifft:

- adolygu'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol i gadarnhau ei fod yn darparu awdurdod priodol i'r corff archwiliedig godi ffioedd a thaliadau am y gwasanaethau dan sylw;
- cadarnhau bod gorchmynion ffioedd a mathau eraill o Offerynnau Statudol a gyhoeddir o dan y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu yn unol â'r awdurdodau hynny; a
- chadarnhau bod y ddeddfwriaeth berthnasol yn rhoi'r awdurdod priodol i ddefnyddio'r derbyniadau i gyfrannu at wariant yn hytrach na'u bod yn cael eu defnyddio i greu gwaged (eu bod wedi'u sefydlu ar sail adennill costau).

2-56 Yn ogystal â phennu'r awdurdodau ar gyfer codi ffioedd a thaliadau, bydd yr archwilydd hefyd yn cadarnhau bod derbyniadau'n cael eu defnyddio a'u datgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol, fel yr awdurdodir yn y ddeddfwriaeth briodol.

2-57 Yn dibynnu ar y fframwaith adrodd ariannol, efallai y ceir gofynion ychwanegol ar gyfer datgeliadau yn y datganiadau ariannol, mewn perthynas â rheoleidd-dra. Yn benodol, efallai y bydd yn ofynnol i'r corff a archwilir ddatgelu unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio â fframweithiau o awdurdodau. O ystyried perthnasedd cyfrifon, bydd yr archwilydd yn ystyried goblygiadau diffyg datgelu neu ddatgelu annigonol ar

y farn archwilio rheoleidd-dra, a'r angen i gyflwyno adroddiad ar wahân ar y mater i awdurdod perthnasol.

Sylwadau ysgrifenedig

2-58 Cesglir tystiolaeth archwilio ar reoleidd-dra o'r gweithdrefnau archwilio. Fodd bynnag, gall yr archwilydd hefyd ofyn am sylwadau gan reolwyr (er enghraifft, Swyddogion Cyfrifyddu neu Swyddogion Atebol) ynghylch y modd yr aethant ati i gyflawni eu cyfrifoldeb dros reoleidd-dra trafodion. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn meysydd fel cynlluniau grant a budd-dal, lle na fydd tystiolaeth uniongyrchol ar gael i'r archwilydd o bosib.

2-59 Fel arfer, disgwylir i'r rheolwyr roi datganiad ffurfiol ar y modd yr aethant ati i gyflawni eu cyfrifoldeb bob blwyddyn. Pan fydd y datganiad hwn wedi'i gynnwys yn y datganiadau ariannol, bydd yr archwilydd yn cyfeirio at y datganiad neu'n datgelu, yn yr adran cyfrifoldebau yn adroddiad yr archwilydd, y ffaith nad yw'r datganiad wedi'i gynnwys neu nad yw'n pennu cyfrifoldebau'r rheolwyr mewn modd cynhwysfawr. Ni fydd hyd na ffurfioldeb sylwadau rheolwyr ar reoleidd-dra yn dylanwadu ar gwmpas gweithdrefnau'r archwilydd wrth gaffael tystiolaeth i gefnogi'r farn ar reoleidd-dra.

Defnyddio gwaith eraill

2-60 Efallai y bydd yr archwilydd am ddefnyddio gwaith yr archwilydd mewnol i gael digon o dystiolaeth briodol i gefnogi rheoleidd-dra. Pan fydd yr archwilydd yn ystyried gwaith archwilio mewnol, bydd yr archwilydd yn cymhwyso [ISA \(y DU\) 610](#). Yn benodol, gwaherddir yr archwilydd rhag defnyddio staff archwilio mewnol yn uniongyrchol yn rhan o dîm yr ymrwymiad.

2-61 Efallai y bydd yr archwilydd yn ceisio defnyddio gwaith yr archwilydd o endid arall. Gall yr archwilydd ddod ar draws gwaith archwilydd arall, er enghraifft pan fo'r endid:

- yn cyfuno neu'n crynhoi datganiadau ariannol cyrff eraill;
- wedi talu grant i endid arall; neu
- wedi rhoi gwasanaethau ar gontract allanol i sefydliad gwasanaeth.

2-62 Pan fydd yr endid yn paratoi datganiadau ariannol grŵp, bydd archwilydd grŵp yn pennu sut i gael digon o dystiolaeth briodol o reoleidd-dra trafodion y grŵp. Pan fydd archwilydd grŵp yn dymuno defnyddio gwaith archwilydd cymwys wrth archwilio rheoleidd-dra, bydd yr archwilydd yn dilyn y safonau a'r canllawiau yn [ISA \(y DU\) 600](#).

2-63 Ceir fframweithiau o awdurdodau yn benodol i bob endid, ac nid yw'r ffaith bod endid wedi'i gyfuno yn golygu bod yr endid hwnnw'n gorfod cymhwyso fframwaith o awdurdodau ei riant-endid. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd gan gorff yn y sector cyhoeddus fframwaith penodol o awdurdodau. Gan hynny, efallai na fydd angen archwilio rheoleidd-dra'r gydran i ddibenion barn ar reoleidd-dra grŵp, ac eithrio ar gyfer ystyriaethau o dwyll. Fodd bynnag, pan fydd gan endid wedi'i gyfuno fframwaith o awdurdodau ond na chynhaliwyd archwiliad o reoleidd-dra arno, gall yr archwilydd grŵp gynnal

gweithdrefnau archwilio (neu gyfarwyddo archwilydd cydran i wneud hynny) er mwyn cael sicrwydd ynghylch trafodion y gydran.

2-64 Bydd yr archwilydd grŵp yn cael sylwadau gan yr archwilydd cydrannol ynghylch annibyniaeth yr archwilydd hwnnw ar yr endid, a'i gydymffurfiaeth â'r gofynion archwilio a moesegol perthnasol. Bydd hyn hefyd yn berthnasol os bydd yr archwilydd grŵp yn defnyddio datganiadau ariannol archwiliedig, wedi'u llofnodi gan archwilydd y gydran, sy'n cynnwys barn benodol ar reoleidd-dra.

2-65 Pan fydd endid y sector cyhoeddus wedi talu grant i endid arall, bydd fel arfer yn sefydlu rheolaethau wedi'u dylunio i sicrhau bod y derbynnydd yn cydymffurfio â'r amodau grant. Efallai y bydd y rheolwyr yn nodi yn y memoranda ariannol neu'r amodau grant bod yn rhaid derbyn adroddiad neu dystysgrif archwilydd ar reoleidd-dra.

2-66 Efallai y bydd angen i'r archwilydd archwilio ceisiadau am grantiau a delir i endidau eraill drwy, er enghraifft:

- archwilio'r dystiolaeth sydd ar gael yn y prif endid, gan gynnwys adroddiadau gan eu swyddogaeth archwilio fewnol eu hunain.
- defnyddio gwaith archwilydd allanol yr endid arall;
- ystyried gwaith swyddogaeth archwilio mewnol yr endid arall; a
- mynediad uniongyrchol i'r endid arall a chynnal gweithdrefnau archwilio priodol.

2-67 Gall yr archwilydd ddefnyddio'r dystysgrif a'r adroddiadau a gyhoeddwyd gan archwilydd derbynnydd y grant drwy:

- gadarnhau bod y cyfarwyddiadau a roddwyd i'r archwilydd hwnnw yn ymdrin â'r ystyriaethau rheoleidd-dra i raddau boddhaol;
- cytuno ar y cwmpas; ac
- adolygu canlyniadau'r adolygiad rheoli ansawdd.

2-68 Pan nad oes gan archwilydd endid sector cyhoeddus hawl mynediad i'r endid arall neu i ffynonellau eraill i gael digon o dystiolaeth briodol, bydd yr archwilydd yn ystyried a oes cyfyngiad ar gwmpas yr archwiliad yn unol ag ISA (y DU) 705.

2-69 Pan fydd yn ofynnol i archwilydd arall roi adroddiad neu dystysgrif rheoleidd-dra i'r prif endid, bydd hi fel arfer yn cymryd amser sylweddol ar ôl y cyfnod ariannol sy'n cael ei archwilio i hynny ddigwydd. Bydd yr archwilydd yn sicrhau mai ond y dystiolaeth sydd ar gael i'r prif endid sy'n gysylltiedig â'r cyfnod adrodd a ddefnyddir. Lle nad yw hyn yn bosibl, neu os oes gan y prif endid ac endidau eraill ddyddiadau diwedd blwyddyn gwahanol, efallai y bydd yn rhaid i'r prif archwilydd gynnal gweithdrefnau ychwanegol, gan gynnwys arfer hawliau arolygu, lle bo'n briodol.

2-70 Lle bo endid y sector cyhoeddus wedi rhoi gwasanaethau ar gcontract allanol i sefydliad gwasanaeth, bydd yr angen i gael mynediad i'r sefydliad hwnnw, ac/neu i'w archwilydd, yn dibynnu ar

natur y gwasanaethau a ddarperir, yr wybodaeth sydd ar gael yn y prif endid a thelerau ymrwymiad yr archwilydd arall.

2-71 Pan fo archwiliad o'r sector cyhoeddus yn ystyried yr angen i gael barn gyfreithiol ynghylch dehongli statudau neu reoliadau, bydd yr archwilydd yn dilyn y safonau a'r canllawiau yn [ISA \(y DU\) 620](#).

2-72 Wrth benderfynu a ddylid ceisio cyngor cyfreithiol ar fater rheoleidd-dra, bydd yr archwilydd yn ystyried:

- perthnasedd y mater yng nghyd-destun y datganiadau ariannol;
- y risg o drafodion afreolaidd ar sail natur a chymhlethdod y fframwaith o awdurdodau; ac
- argaeledd tystiolaeth archwilio berthnasol arall, yn enwedig lle bo'r endid wedi gwneud cais am ei gyngor cyfreithiol ei hun.

2-73 Fel arfer lle bo amheuaeth ynghylch rheoleidd-dra trafodion, gall rheolwyr ofyn am eglurhad ynghylch y sefyllfa gyfreithiol. Lle bo'r endid yn amharod i geisio cyngor cyfreithiol, neu lle bo gan yr archwilydd bryderon ynghylch y cyngor cyfreithiol a roddir i'r endid, efallai y bydd yr archwilydd yn dymuno ceisio barn gyfreithiol ar wahân.

2-74 Lle bo'r archwilydd yn ansicr ynghylch afreoleidd-dra gwariant yn gysylltiedig â'r fframwaith o awdurdodau ar wahân i ddeddfwriaeth, bydd yr archwilydd yn pennu i ddechrau a geisiodd yr endid eglurhad neu, lle bo angen, a gafodd yr endid awdurdod priodol gan y cyrff perthnasol. Gall yr archwilydd hefyd geisio cyngor yn uniongyrchol oddi wrth yr awdurdod perthnasol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr archwilydd yn dilyn camau tebyg i'r rhai y byddai'r archwilydd yn eu cymryd wrth geisio cyngor cyfreithiol.

Gwerthuso trafodion afreolaidd

2-75 Pan amheuir, neu pan ganfyddir, achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau, bydd yr archwilydd yn ystyried goblygiadau ehangach hynny i'r farn archwilio ar reoleidd-dra. Bydd hyn hefyd yn cynnwys ystyried y goblygiadau i asesiad yr archwilydd o risgiau a rheolaethau yn gysylltiedig â thrafodion afreolaidd perthnasol, a maint y sicrwydd y gall yr archwilydd ei gael o'r amgylchedd rheolaeth gyffredinol a sylwadau gan y rheolwyr.

2-76 Bydd yr archwilydd yn ystyried natur a graddfa unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio ac, yn benodol, a yw'n deillio o gamddechongliad sylfaenol o ddeddfwriaeth neu gam-gymhwyso rheolau.

2-77 Mae'n bosibl yr adroddir ar achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau wrth reolwyr yr endid fel bo modd cymryd camau unioni, er enghraifft, drwy adennill grant a ordalwyd. Os nad yw'n bosibl i'r endid gymryd camau unioni, gall y rheolwyr ddatgelu achos o ddiffyg cydymffurfio yn y datganiadau ariannol drwy amlinellu'r amgylchiadau gysylltiedig â thorri rheoliadau, a'r nifer posibl o drafodion afreolaidd. Hyd yn oed pan fo achos o afreoleidd-dra wedi'i ddatgelu, bydd yr archwilydd yn ystyried y goblygiadau i'r farn archwilio ar reoleidd-dra, a'r angen i gyflwyno adroddiad ar wahân ar y mater wrth

yr awdurdod perthnasol. Wrth wneud hynny, bydd yr archwilydd yn ystyried perthnasedd y mater dan sylw.

2-78 Os na fydd rheolwyr yr endid yn derbyn barn yr archwilydd, sef nad yw'r trafodion perthnasol yn cydymffurfio â'r awdurdodau priodol, gall yr archwilydd:

- gyfleu mewn adroddiad wrth reolwyr ar y lefel briodol, neu rai sy'n gyfrifol am lywodraethu, y canfyddiadau o ymchwiliadau'r archwilydd i'r amgylchiadau'n gysylltiedig ag amheuaeth o drafodion afreolaidd a'r casgliadau'n deillio o hynny;
- ystyried a yw'r mater yn fater y mae'n ofynnol i reolwyr adrodd amdano wrth yr awdurdod neu'r rheolwyr grŵp perthnasol ac, os felly, gwneud cais mewn ysgrifen i'r rheolwyr eu hysbysu;
- adrodd yn uniongyrchol wrth reolwyr yr awdurdod neu grŵp perthnasol os yw'n ofynnol i'r rheolwyr wneud hynny, ac na all yr archwilydd sefydlu a yw'r rheolwyr wedi cydymffurfio â'r gofyniad; ac
- ystyried addasu'r farn ar reoleidd-dra.

Y risg o dwyll wrth archwilio rheoleidd-dra

2-79 Dim ond trwy'r fframwaith cyfreithiol cymwys y gellir penderfynu bod trafodiad penodol yn dwyllodrus. Fodd bynnag, bydd yr archwilydd yn aml yn dod ar draws sefyllfaoedd lle ceir amheuaeth o dwyll, wedi'i nodi gan y rheolwyr, gan y gwasanaeth archwilio mewnol, trydydd partïon neu'r archwilydd. Er nad oes gan yr archwilydd yr awdurdod i bennu a gafwyd twyll mewn gwirionedd, bydd yr archwilydd yn ystyried a yw'r trafodion dan sylw, ym marn yr archwilydd, yn cydymffurfio â'r fframwaith perthnasol o awdurdodau.

2-80 Bydd trafodion twyllodrus bob amser yn rheolaidd waeth sut y cawsant eu datgelu, ac i ba raddau y cawsant eu datgelu yn y datganiadau ariannol, gan nad oes awdurdod priodol ar eu cyfer. Mae'r archwilydd yn ystyried effaith achosion wedi'u profi neu amheun o drafodion twyllodrus ar y farn archwilio, o ystyried perthnasedd y trafodion afreolaidd.

2-81 I ddibenion archwilio rheoleidd-dra, ni fydd adroddiadau ariannol twyllodrus ynddynt eu hunain yn afreolaidd, ond gallai'r rheiny guddio trafodion afreolaidd sylfaenol. Fodd bynnag, mae cambriodoli asedau yn gyfystyr ag afreoleidd-dra, ac ystyrir y risg o gambriodoli asedau oherwydd twyll yn gysylltiedig â'r risg bod rheolwyr yn diystyru rheolaethau, ac wrth archwilio rheoleidd-dra.

2-82 Er nad yw ISA (Y DU) 240 wedi'i hysgrifennu i ymdrin â'r archwiliad o reoleidd-dra, mewn rhai achosion gellir defnyddio cydymffurfiaeth â'i gofynion i gael sicrwydd ynghylch rheoleidd-dra, er enghraifft drwy:

- werthuso a yw unrhyw berthnasoedd anghyffredin neu annisgwyl a nodwyd drwy weithdrefnau dadansodol yn arwydd o drafodion afreolaidd perthnasol oherwydd twyll;
- profi priodoldeb cofnodion mewn dyddiaduron; ac

- ystyried y sail resymegol dros drafodion sylweddol a gyflawnir y tu allan i'r busnes arferol.

Barn ar reoleidd-dra

2-83 Wrth archwilio llywodraeth ganolog (neu endid cyfatebol) a rhai cyrff iechyd, bydd yr archwilydd yn rhoi barn ar reoleidd-dra trafodion. Bydd y farn fel arfer wedi'i chynnwys yn y dystysgrif neu'r adroddiad archwilio. Gellir ei chynnwys wrth ymyl y farn cywirdeb a thegwch ar y datganiadau ariannol, neu mewn adran ar wahân o'r adroddiad o dan y teitl "Archwilio rheoleidd-dra" neu fel bo'n briodol. Bydd ffurf y geiriau a ddefnyddir yn y farn ar reoleidd-dra yn gysylltiedig â'r gofynion statudol neu gwmpas yr ymrwymiad y cytunir arno â'r corff a archwilir. I gyd-fynd â'r geiriad cyflwynir y canlynol hefyd:

- datgeliad o gyfrifoldebau'r rheolwyr yn gysylltiedig â rheoleidd-dra yn y datganiad cyfrifoldebau a chyfeiriad at y datgeliad yn yr adran cyfrifoldebau o adroddiad yr archwilydd; neu, ddatgeliad llawn yn yr adran cyfrifoldebau; a
- chynnwys y gwaith cyffredinol a gyflawnir mewn perthynas â rheoleidd-dra yng nghwmpas adran Sail y Farn yn adroddiad yr archwilydd.

2-84 Os yw'r archwilydd yn addasu'r farn archwilio ar reoleidd-dra, bydd yr archwilydd yn cymhwyso egwyddorion [ISA \(Y DU\) 705](#).

2-85 Os daw'r archwilydd i'r casgliad nad yw trafodion ariannol o bwys yn cydymffurfio â'r fframwaith perthnasol o awdurdodau, bydd yr archwilydd yn rhoi barn amodol, gan ddatgan bod y corff a archwilir yn cydymffurfio â fframwaith perthnasol o awdurdodau, ac eithrio lle nodir achos o ddiffyg cydymffurfio. Pan fydd effaith diffyg cydymffurfio yn hollbresennol yn y datganiadau ariannol, bydd yr archwilydd yn rhoi barn anffafriol ynghylch rheoleidd-dra.

2-86 Pan na all yr archwilydd gael digon o dystiolaeth i ffurfio barn, bydd yr archwilydd yn nodi bod y farn ar reoleidd-dra wedi'i chyfyngu gan gwmpas, neu os yw'r diffyg yn hollbresennol, bydd yr archwilydd yn cyhoeddi ymwadiad.

2-87 Nid fydd barn amodol ar reoleidd-dra ynddi ei hun yn amharu ar y farn ynghylch tegwch a chywirdeb, chyflwyniad teg neu gyflwyniad priodol y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, bydd yr archwilydd yn ystyried a yw'r mater wedi'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol, ac a yw'n treiddio drwy'r holl ddatganiadau ariannol i'r fath raddau fel eu bod yn gamarweiniol.

Adroddiadau eraill ar reoleidd-dra

2-88 Mewn rhai rhannau o'r sector cyhoeddus, efallai y bydd yn ofynnol i'r archwilydd ddarparu adroddiadau ar wahân, yn hytrach na thrwy farn archwilio, ar faterion rheoleidd-dra. Efallai y bydd yn ofynnol i'r archwilydd adrodd materion yn gysylltiedig â rheoleidd-dra wrth drydydd partion, er enghraifft archwilydd cydrannol yn adrodd wrth reolwyr y grŵp neu adrodd wrth reoleiddiwr fel y

Comisiwn Elusennau. Gall trydydd parti benderfynu ar ffurf a chwmpas yr adroddiadau hyn yn rhan o amod penodol yn gysylltiedig â'r grant neu gymhorthdal, a bydd hynny wedi'i gynnwys mewn cyfarwyddiadau penodol i'r archwilydd. Mewn endidau eraill, efallai y bydd yn ofynnol cyflwyno adroddiad mwy cyffredinol ar gydymffurfiaeth yr endid â rheoliadau, yn dibynnu ar delerau ymrwymiad yr archwilydd.

2-89 Efallai y bydd gan yr archwilydd hefyd bwerau statudol i gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd ar unrhyw fater rheoleidd-dra neu briodoldeb a ddaw i sylw'r archwilydd yn ystod yr archwiliad, er mwyn i hynny gael ei ystyried gan yr endid dan sylw neu ei ddwyn i sylw'r cyhoedd.

2-90 Mewn rhai rhannau o'r sector cyhoeddus, bydd yr archwilydd yn ystyried yr angen am adroddiad ar wahân lle bo'r farn archwilio wedi'i haddasu o ganlyniad i drafodion afreolaidd perthnasol. Pwrpas cael adroddiad ar wahân yw rhoi esboniad manwl i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol ynghylch y sail ar gyfer y farn amodol, a chefnogi'r awdurdod perthnasol wrth ddwyn yr endid a archwilir i gyfrif. Mae hyn yn gysylltiedig â chanllawiau ar gyfrifoldebau adrodd ychwanegol yn Rhan I o'r Nodyn Ymarfer hwn (ISA (Y DU) 700).

2-91 Mewn rhai achosion gall yr archwilydd nodi achosion o drafodion afreolaidd yn ystod yr archwiliad nad ydynt yn berthnasol i'r datganiadau ariannol ond y mae angen, ym marn yr archwilydd, tynnu sylw derbynwyr adroddiad yr archwilydd atynt. Enghraifft bosibl o hyn yw'r farn ôl-weithredol fod gwariant y blynyddoedd cynt yn afreolaidd yn rhinwedd her gyfreithiol i ddehongliad o'r ddeddfwriaeth.

Atodiad Un - Rhestr Termau

Adran ariannu - fel arfer yr adran a ddefnyddir i gynnal atebolrwydd a throsglwyddo cyllid Seneddol i gyrrff hyd braich.

Adrannau'r Llywodraeth - y rhain yw haen uchaf y llywodraeth ganolog, neu adrannau cyfatebol, ym mhob gwlad. Mae'r Senedd/Cynulliad yn darparu arian yn flynyddol i'w wario gan bob adran i ddibenion a nodir mewn Amcangyfrifon Cyflenwi/Deddf Cyllideb neu gyfatebol. Arweinir pob adran o'r llywodraeth gan Swyddog Cyfrifyddu sy'n atebol i'r Senedd am wariant a'r defnydd o'r arian a ddarperir yn yr Amcangyfrifon Cyflenwi.

Adroddiad yr archwilydd - adroddiad unrhyw archwilydd sy'n mynegi barn ar wirionedd a thegwch, cyflwyniad teg neu gyflwyniad priodol datganiadau ariannol ac, mewn achosion penodol, ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol ynddynt ac unrhyw ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol eraill. Mewn llywodraeth ganolog, gellir galw adroddiad yr archwilydd hefyd yn Dystysgrif.

Archwiliad perfformiad - gwaith a gyflawnir gan yr archwilydd mewn perthynas â defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o arian cyhoeddus. Gellir galw hyn hefyd yn waith "gwerth am arian".

Archwilio Cymru – nod masnach dau endid cyfreithiol: Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Archwilio'r Alban - asiantaeth archwilio genedlaethol sy'n cynorthwyo'r Comisiwn Cyfrifon ac Archwilydd Cyffredinol yr Alban i gyflawni eu gwaith.

Archwilwyr lleol - Archwilwyr endidau sector cyhoeddus lleol yn Lloegr, fel cyrff llywodraeth leol, a benodir o dan Ddeddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014.

Archwilydd corff sector cyhoeddus (archwilydd sector cyhoeddus) - unigolyn neu unigolion a benodir o dan statud neu gytundeb; neu wedi'i benodi gan, ei gyflogi gan, neu'n gweithredu fel asiant asiantaeth archwilio genedlaethol, ysgrifennydd gwladol neu adran o'r llywodraeth sy'n gweithredu o dan statud neu drwy gytundeb; neu wedi'i benodi gan archwilydd corff a reoleiddir gan reoleiddiwr annibynnol sydd wedi pennu bod y Nodyn Ymarfer hwn yn berthnasol.

Archwilydd Cyffredinol Cymru - yr unigolyn sy'n gyfrifol am archwilio ac ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y cyrff cyhoeddus a ariannir ganddi a chyrff cyhoeddus eraill, cyrff llywodraeth leol Cymru ac endidau GIG Cymru. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am awdurdodi dyrannu cyllid cyhoeddus o Gronfa Gyfunol Cymru i Weinidogion Cymru a chyrff eraill y sector cyhoeddus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am gyflawni gwaith gwerth am arian o fewn y cyrff hynny.

Archwilydd Cyffredinol yr Alban - yr unigolyn sy'n gyfrifol am awdurdodi dyrannu arian cyhoeddus o Gronfa Gyfunol yr Alban i adrannau llywodraeth a chyrff eraill y sector cyhoeddus; am archwilio neu am sicrhau bod cyfrifon seneddol yn cael eu harchwilio (sy'n cynnwys pennu a yw symiau a dalwyd o'r Gronfa wedi'u talu allan a'u defnyddio'n unol â statud), a'u hardystio ac adrodd arnynt; am archwilio darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Gweinidogion yr Alban a'r Arglwydd Adfocad wrth ddefnyddio eu hadnoddau i gyflawni eu swyddogaethau, neu am sicrhau bod y gwaith archwilio hwnnw'n cael ei gyflawni; ac am archwilio darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unigolion eraill a bennir o dan ddeddfwriaeth yr Alban, y telir symiau o'r Gronfa iddynt, wrth ddefnyddio'r symiau hynny i gyflawni eu swyddogaethau, neu am sicrhau bod y gwaith archwilio hwnnw'n cael ei gyflawni.

Archwilydd statudol - Yr archwilydd a benodir i gyflawni ymrwymiad drwy statud. Yn y Nodyn Ymarfer hwn, ni ddefnyddir y term archwilydd statudol yn yr un ystyr ag y mae'r term yn cael ei ddefnyddio yn y Gyfarwyddeb a'r Rheoliad Archwilio a fframweithiau cysylltiedig.

Asiantaeth archwilio genedlaethol - un o asiantaethau archwilio cyhoeddus y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am gynnal archwiliad o ddatganiadau ariannol cyrff y sector cyhoeddus (y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Archwilio Cymru, Archwilio'r Alban ar gyfer Archwilydd Cyffredinol yr Alban a'r Comisiwn Cyfrifon, a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon ar gyfer Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon) ac/neu'n gyfrifol am benodi a rheoleiddio archwilwyr cyrff sector cyhoeddus.

Cod Ymarfer Archwilio - unrhyw ddogfen a nodir felly, a gyhoeddir gan asiantaeth archwilio genedlaethol neu bennaeth perthnasol yr asiantaeth honno, sy'n rhagnodi'r modd y dylai'r archwilydd gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag archwilio endidau penodol, sy'n ymgorffori'r hyn a ystyrir gan yr asiantaeth archwilio genedlaethol yn arfer proffesiynol gorau o ran y safonau, y gweithdrefnau a'r technegau sydd i'w mabwysiadu gan yr archwilydd.

Comisiwn Cyfrifon - y corff annibynnol sydd â chyfrifoldebau statudol dros sicrhau bod endidau llywodraeth leol yn cael eu harchwilio yn yr Alban, ac i gynorthwyo endidau o'r fath i sicrhau'r gwerth

gorau. Mewn perthynas ag archwilio'r datganiadau ariannol, mae'r Comisiwn yn gyfrifol am benodi archwilywyr, am osod y safonau gofynnol i'r archwilywyr a benodir ganddo ac am reoleiddio ansawdd archwiliadau.

Contractwr archwilio - Archwilydd sydd wedi derbyn ymrwymiad i gyflawni aseiniad archwilydd yn ei gyfarwydd, neu gyfran ohono, ar ran yr archwilydd statudol, drwy gontract neu gytundeb.

Cwmni - unig ymarferydd, partneriaeth, partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu gorfforaeth neu endid arall o gyfrifwyr proffesiynol sy'n ymwneud â darparu ymrwymadau. Yng nghyd-destun y sector cyhoeddus, gall cwmni hefyd olygu asiantaeth archwilio genedlaethol ac archwilywyr lleol.

Cyfarwyddyd Cyfrifon - y ddogfen a gyhoeddir gan Drysorlys EM neu Ysgrifennydd Gwladol rhiant-adran neu adran ariannu, neu gan Weinidogion Cymru neu Weinidogion yr Alban, sy'n nodi'r gofynion cyfrifyddu a datgelu y dylid eu cymhwyso wrth baratoi datganiadau ariannol yr endid. Yng Ngogledd Iwerddon, bydd yr Adran Gyllid yn gyfrifol am gyhoeddi cyfarwyddiadau ar gyfrifon i adrannau'r llywodraeth ganolog ac asiantaethau gweithredol, a bydd yr adran ariannu fel arfer wedi'i grymuso i gyfarwyddo ffurf cyfrifon cyrff cyhoeddus anadrannol ac endidau'r gwasanaeth iechyd, gyda chydysyniad yr Adran Gyllid

Cyfrifoldebau eraill - unrhyw swyddogaeth, ac eithrio'r archwiliad o'r datganiadau ariannol a rhoi barn ar reoleidd-dra, y bydd archwilywyr y sector cyhoeddus yn ei chyflawni, bod hynny o ganlyniad i ragnodiadau statudol neu gyfarwyddyd gan yr asiantaeth archwilio genedlaethol berthnasol.

Cynulliad - Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Cyrff sector cyhoeddus - cynnwys cyrff wedi'u dynodi'n gyrff sector cyhoeddus gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol: adrannau'r llywodraeth a'u hasiantaethau gweithredol; Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a'r cyrff a ariennir ganddynt ac sy'n gysylltiedig â hwy; cronfeydd masnachu; cyrff hyd braich; awdurdodau lleol a chyrff llywodraeth leol eraill; Cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol; yn yr Alban, colegau addysg bellach a'r awdurdod dŵr. Nid yw'n cynnwys corfforaethau cyhoeddus eraill na'r diwydiannau gwladoleddig.

Deddfwriaeth - Deddfau Seneddol a deddfwriaeth ddirprwyedig neu is-ddeddfwriaeth gan gynnwys, er enghraifft, Mesurau Cymru, Offerynnau Statudol, neu Reolau a Gorchmynion a gyhoeddir gan Weinidogion ac a gyflwynir i'r Senedd. Mae'r term deddfwriaeth hefyd yn cynnwys Rheoliadau, Cyfarwydddebau a Phenderfyniadau a gyhoeddir gan Gyngor Gweinidogion Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd.

Endidau iechyd - endidau corfforaethol unigol sy'n rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ond nad ydynt yn rhan o adran nac wedi'u cyfansoddi fel asiantaethau gweithredol, cyrff hyd braich na chorfforaethau cyhoeddus. Yn cynnwys ymddiriedolaethau sefydledig y GIG, ymddiriedolaethau'r GIG a grwpiau comisiynu clinigol. Yng Nghymru, endidau iechyd yw Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol. Yng Ngogledd Iwerddon, endidau iechyd yw Byrddau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymddiriedolaethau ac Asiantaethau Arbenigol.

Endidau llywodraeth ganolog - diffinnir y rhain fel adrannau llywodraeth a'u hasiantaethau gweithredol, unrhyw endid sy'n gweithredu fel cronfa fasnachu (adran o'r llywodraeth, rhan o adran neu

asiantaeth weithredol) a chyrrff hyd braich. I ddibenion y Nodyn Ymarfer hwn, nid yw llywodraeth ganolog yn cynnwys cyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, awdurdodau leol, corfforaethau cyhoeddus, ymddiriedolaethau academi, corfforaethau coleg na diwydiannau wedi'u gwladoli.

Fforwm Archwilio Cyhoeddus (FfAC) - fforwm ymgynghorol a chynghorol wedi'i ffurfio o bedair asiantaeth archwilio genedlaethol y DU sydd wedi'i ddylunio i ganolbwyntio ar feddylfryd datblygol yn gysylltiedig ag archwiliadau cyhoeddus.

Fframwaith o Awdurdodau - fframweithiau allanol, sy'n benodol i'r endid a archwilir, y mae'n rhaid i drafodion yr endid a archwilir gydymffurfio â hwy. Sefydli'r fframweithiau hyn gan gyrrff sy'n gallu cyhoeddi ac/neu orfodi'r awdurdodau ar gyfer yr endid hwn, a gallent gynnwys, er enghraifft: deddfwriaeth awdurdodi; rheoliadau a gyhoeddir o dan ddeddfwriaeth llywodraethu; Awdurdodau seneddol (gan gynnwys cyfreithiau cyllidebol); llywodraeth neu awdurdodau cysylltiedig.

Grant - taliadau a wneir gan adrannau i gyrrff allanol i'w had-dalu am wariant ar eitemau neu swyddogaethau cytunedig.

Haen - unrhyw lefel mewn cyfres o endidau lle mae grant yn cael ei drosglwyddo i lawr o'r Senedd at y derbynwyr a fwriedir. Adrannau llywodraeth yw endidau'r haen uchaf fel arfer. Bydd endidau'r haen is yn cynnwys asiantaethau, cyrrff hyd braich a sefydliadau llywodraeth anghanolog.

Llygredd - cynnig, rhoi, deisyfu neu dderbyn unrhyw gymhelliant neu wobr a allai ddylanwadu ar y camau a gymerir gan endid, ei aelodau neu ei swyddogion.

Prif Weithredwr - y teitl a roddir i uwch swyddog corff sector cyhoeddus, sy'n gyfrifol am reolaeth a gweithrediadau'r asiantaeth honno.

Rheoleidd-dra - cysyniad bod yn rhaid i drafodion sy'n cael eu hadlewyrchu yn natganiadau ariannol endid a archwilir fod yn unol â'r fframwaith perthnasol o awdurdodau.

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (y RhacAC)- pennaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Fel Rheolwr, dyletswyddau'r RhacAC yw awdurdodi dyrannu cyllid cyhoeddus gan Drysorlys EM o'r Gronfa Gyfunol a'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol i adrannau'r llywodraeth ac eraill; fel Archwilydd Cyffredinol, bydd y RhacAC yn ardystio cyfrifon holl adrannau'r llywodraeth ganolog a rhai cyrrff cyhoeddus eraill, ac yn cynnal archwiliadau gwerth am arian.

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon - yr unigolyn sy'n gyfrifol am awdurdodi dyrannu arian cyhoeddus i adrannau Gogledd Iwerddon a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus, am gynnal archwiliad o ddatganiadau ariannol llywodraeth ganolog Gogledd Iwerddon ac endidau iechyd (sy'n cynnwys bodloni ei hun fod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso yn unol â bwriadau'r Cynulliad ac yn cydymffurfio ag awdurdodau llywodraethu) ac am archwilio darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd endidau llywodraeth ganolog Gogledd Iwerddon wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Senedd - Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Senedd Cymru, ond nid Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Swyddfa Archwilio Cymru - asiantaeth archwilio genedlaethol wedi'i chyfansoddi fel bwrdd statudol, sy'n cyflogi staff, yn sicrhau ac yn defnyddio adnoddau eraill, gan gynnwys arbenigedd ychwanegol gan gwmnïau cyfrifyddu'r sector preifat, i alluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei swyddogaethau.

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) - asiantaeth archwilio genedlaethol sy'n cynorthwyo'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (y RhacAC) i graffu ar wariant cyhoeddus ar ran y Senedd.

Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon (NIAO) - asiantaeth archwilio genedlaethol sy'n cynorthwyo Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon i gyflawni ei gyfrifoldebau.

Swyddog Atebol⁽¹⁾ - aelodau o staff Gweinyddiaeth yr Alban a ddynodwyd gan y Prif Swyddog Atebol i fod yn gyfrifol am rannau o'r Weinyddiaeth, cyrff neu ddeiliaid swydd mewn perthynas â llofnodi cyfrifon yr endid a sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra materion ariannol yr endid.

Swyddog Atebol⁽²⁾ - y swyddog (y cyfeirir ato fel Prif Weithredwr) sy'n gyfrifol am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus endidau iechyd, ac am gadw cofnodion priodol, fel y nodir ym Memorandwm y Swyddogion Atebol a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd neu Brif Weithredwr, GIG Cymru. Yng Ngogledd Iwerddon, bydd Memorandwm y Swyddogion Atebol yn cael ei gyhoeddi gan yr Adran Iechyd.

Swyddog Cyfrifyddu - fel arfer, pennaeth parhaol neu uwch swyddog amser-llawn endid llywodraeth ganolog neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG, a benodir neu a ddynodir fel Swyddog Cyfrifyddu'r endid hwnnw, â chyfrifoldeb personol dros lofnodi'r datganiadau ariannol, ymhlith cyfrifoldebau eraill. Bydd yn sicrhau y cedwir at weithdrefnau ariannol priodol ac y cedwir cofnodion cyfrifyddu, gan sicrhau bod cyllid ac asedau cyhoeddus yn cael eu rheoli a'u gwarchod yn briodol, a bod sylw yn cael ei roi i'r holl ystyriaethau ariannol perthnasol, gan gynnwys materion ar briodoldeb, rheoleidd-dra a gwerth am arian.

Swyddog cyllid cyfrifol - y swyddog a benodir gan endid llywodraeth leol i fod yn gyfrifol am weinyddu ei faterion ariannol yn briodol.

Tystysgrif⁽¹⁾ - yr enw a roddir ar adroddiad archwilio sy'n cynnwys barn y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon ar ddatganiadau ariannol a archwilir o dan statud, lle bo gofyniad statudol i'r ardystio'r archwiliad, fel arfer ar y cyfrifon adnoddau a chyfrifon eraill a gynhrychir gan adrannau'r llywodraeth (ac ar gyfrifon a gynhrychir gan endidau iechyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon). Mae defnyddio'r gair "tystysgrif" yn ffordd glir o wahaniaethu rhwng yr adroddiad archwilio ac unrhyw adroddiad arall gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon.

Tystysgrif⁽²⁾ - y datganiad gan archwilwyr o dan Ddeddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014 bod archwiliad llywodraeth leol neu endid iechyd wedi'i gwblhau yn unol â'r Ddeddf. Bydd y dystysgrif fel arfer, ond nid o reidrwydd, wedi'i hymgorffori yn yr adroddiad archwilio. Cyhoeddir tystysgrif debyg gan archwilwyr llywodraeth leol yng Nghymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a chan archwilwyr llywodraeth leol yng Ngogledd Iwerddon o dan Orchymyn Llywodraeth Leol (Gogledd Iwerddon) 2005.

Ymrwymiad ar Sail "Penodi gan" - ymrwymiad lle bydd cwmni neu unigolyn arall yn gyfrifol am yr aseiniad, am gynnal yr aseiniad ac am gyhoeddi'r adroddiad archwilio.

Ymrwymiad dan gontract -Ymrwymiad lle bydd yr holl aseiniad archwilio, neu gyfran ohono, yn cael ei gyflawni gan gwmni neu archwilydd arall, o dan gontract neu gytundeb, ond lle bydd yr archwilydd statudol yn parhau i fod yn gyfrifol am gyhoeddi'r adroddiad archwilio.